



**RHAN UN:**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2007/08

**Arolwg ac asesiad Ymddiriedolaeth y BBC**

Ymddiriedolaeth | BBC

# 07|08


Cyflwyniad y Cadeirydd 02
Ymddiriedolaeth y BBC 04

**Trosolwg**
Y BBC yn 2007/08 06
Trosolwg o berfformiad 08

**Rhagolwg y BBC** 14
**Perfformiad y BBC**
Cynnwys y BBC 21
Pwrpasau'r BBC 23
Gwasanaethau'r BBC 24
Cyllid a busnes y BBC 29

**Barn cynulleidfaoedd y BBC** 32
**Llywodraethedd y BBC**
Trosolwg 37
Cyflawni gwerth am arian 37
Gwasanaethu pob cynulleidfa 42
Sicrhau natur ddiduedd 43
Pŵer economaidd y BBC 45
Gwybodaeth reoleiddiol arall 48

**Cynlluniau r Ymddiriedolaeth 2008/09** 50

**Cysylltu ag Ymddiriedolaeth y BBC** 52

BBC y cyhoedd yw hwn a'r cyhoedd sy'n talu amdano drwy ffi'r drwydded. Mae wedi ei gwneud yn gwbl glir ei fod am gael ansawdd, gwerth a rhywbeth ychydig bach yn arbennig yn ôl. Bydd y cynlluniau a gymeradwywyd gennym ar gyfer cyfeiriad y BBC yn y dyfodol yn diogelu gwerthoedd craidd y BBC mewn cyfnod o newid radical o ran technoleg, marchnadoedd a disgwyliadau cynulleidfaoedd.

Syr Michael Lyons
**Cadeirydd, Ymddiriedolaeth y BBC**
Hydref 2007 (yn dilyn cymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cynlluniau strategol chwe blynedd newydd y BBC)



"Bu eleni yn flwyddyn pan gefais yr anrhydedd o gwrdd â thalwyr ffi'r drwydded ledled y DU a dechrau deall cryfder eu teimladau – yn gadarnhaol ac yn negyddol – ynghylch eu BBC."

Syr Michael Lyons
**Cadeirydd, Ymddiriedolaeth y BBC**
19 Mehefin 2008

# CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio ar ran y cyhoedd sy'n berchen ar y BBC ac yn talu amdano. Iddo ef, sicrhawn fod y BBC yn annibynnol, yn effeithlon ac yn canolbwyntio'n benodol ar ei bwrpasau cyhoeddus.

I wneud hyn, rhaid i ni sicrhau bod gan y BBC yr adnoddau priodol: gosodwn y cyfeiriad strategol, y blaenoriaethau, a'r cyllidebau. Sicrhawn fod y fframwaith golygyddol yn gadarn a bod yr holl ffiniau y mae'n rhaid i'r BBC weithredu ynddynt yn glir ac yn sefydlog. Ac yn bennaf oll, gosodwn yr her o gyflawni – yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl – raglenni a gwasanaethau o ansawdd sy'n sefyll allan i gyfiawnhau ffi'r drwydded. Yn fyr, sicrhawn fod y BBC yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddo'n glir, ac yna bodlonwn ein hunain ei fod yn bodloni'r disgwyliad hwnnw. Ac anelwn at wneud ein gwaith gyda dealltwriaeth glir o'r hyn mae'r amrywiaeth eang o dalwyr ffi'r drwydded yn ei ddisgwyl ac yn ei feddwl am eu BBC.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu ein blwyddyn lawn gyntaf fel Ymddiriedolwyr y BBC a sut rydym wedi dechrau mynd ati i gyflawni ein tasg. Yn yr adroddiad hwn gwelwch ein bod wedi canolbwyntio ar dair prif thema: cyrraedd pawb; cynyddu ansawdd a natur nodedig rhaglenni a gwasanaethau'r BBC; ac ailennyn hyder ymhlith cynulleidfaoedd.

Nid oedd yr olaf o blith y rhain ar ein hagenda wreiddiol. Ond fel sy'n gallu digwydd weithiau, gwnaeth yr annisgwyl ad-drefnu ein blaenoriaethau rhywfaint. Mae uniondeb golygyddol ac ymddiriedaeth yn y BBC yn elfen hanfodol o'r contract rhwng y BBC a'i gynulleidfaoedd. Roedd digwyddiadau'r haf diwethaf yn ddifrifol, ond mae'r cynnydd a wnaed hyd yma gan y rheolwyr wrth ymateb iddynt a'r arwyddion bod hyder y cyhoedd yn cael ei ailennyn wedi tawelu ein meddyliau.

O ran 'cyrraedd pawb' ac 'ansawdd a natur nodedig', deilliodd yr amcanion hyn yn uniongyrchol o'r hyn a glywsom gan dalwyr ffi'r drwydded ac maent bellach yn rhan annatod o strategaeth hirdymor y BBC.

Ar dudalen 17 nodwn y rhain a'r pedwar amcan arall a roddwyd i'r rheolwyr fis Hydref diwethaf pan gymeradwywyd cynlluniau strategol y Cyfarwyddwr Cyffredinol am y chwe blynedd nesaf. Mae'r amcanion hyn yn anelu at sicrhau bod y BBC yn cyflawni'r holl flaenoriaethau cyhoeddus ac yn mynd i'r afael â'r meysydd hynny lle nad yw'n perfformio mor gryf ag y mae angen iddo wneud. Mae hyn yn cynnwys cyrraedd y rhai nad ydynt yn gwerthfawrogi'r BBC yn fawr ar hyn o bryd, ond heb beryglu teyrngarwch y rhai sydd yn gwerthfawrogi'r BBC yn y fath fodd.

Y rheswm dros hyn yw bod cryn dipyn o'r hyn a wneir gan y BBC – ar deledu, radio ac ar-lein – eisoes o safon arbennig o uchel ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Mae'r cyhoedd yn ein hatgoffa'n aml mai ei BBC ef ydyw ac, er nad yw'n ofni tynnu sylw at yr hyn nad yw'n ei hoffi, mae'n disgwyl i ni fel Ymddiriedolwyr gefnogi'r hyn mae yn ei hoffi.

Felly, rydym wedi ceisio deall pa raglenni sy'n nodedig neu o ansawdd ym marn cynulleidfaoedd, yn enwedig ar deledu, ac wedi eu defnyddio i ddangos yr hyn mae'r cyhoedd yn dymuno ei gael i'r rheolwyr, yn ogystal â'r hyn nad yw am ei gael. Eleni cafodd amrywiaeth eang o raglenni eu nodi fel rhai o ansawdd – o'r enghreifftiau mwy amlwg, fel *Cranford* a *Life in Cold Blood*; i'r clasuron fel *Question Time* a *Panorama*; ac i'r newydd a mwy mentrus, fel *The Mighty Boosh* a *The No 1 Ladies Detective Agency*. Trafodwn hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Mae'r arbedion effeithlonrwydd blynyddol o 3% a osodwyd gennym yn heriol, ond rydym yn hyderus y gellir eu cyflawni heb effeithio ar ansawdd. Yn wir, unig ddiben yr arian a ryddhawyd yw ei ail-fuddsoddi i gynyddu ansawdd a gwasanaethu'r cyhoedd yn well.

Mae angen buddsoddi mewn technoleg newydd i gyrraedd pawb yn yr 21ain ganrif. Mae'r ffaith bod y BBC wedi cynnal ei gyrhaeddiad cyffredinol ac wedi cynyddu ei gyrhaeddiad ym maes teledu yn anhygoel. Serch hynny, bu dyfodiad BBC iPlayer yn ddigwyddiad hollbwysig ac yn arwyddocaol o ran awydd y cyhoedd am gynnwys ar alw.

Wrth gwrs, BBC iPlayer oedd testun ein prawf gwerth cyhoeddus cyntaf, ac eleni rydym wedi cynnal yr un prawf ar y sianel HD a'r Gwasanaeth Digidol Gaeleg. Wrth wneud hynny rydym wedi cynnal cyfarfodydd agored i eraill yn y diwydiant ar ddechrau'r broses, yn ystod y broses i drafod ein casgliadau cychwynnol, ac ar ôl i ni wneud ein penderfyniadau terfynol – i'w hegluro a sut rydym wedi ystyried eu hadborth. Hefyd anogwyd y cyhoedd i leisio ei farn ac fe'i holwyd drwy waith ymchwil ffurfiol. Mae'r broses gadarn hon o graffu ar ein prosesau gwneud penderfyniadau annibynnol a rhoi adborth arnynt o'r tu allan i'r BBC yn gryfder gwirioneddol a chredaf ei fod yn golygu ein bod yn gwasanaethu'r cyhoedd yn well.

Eleni bbc.co.uk oedd testun ein harolwg trwyadl cyntaf o wasanaeth. Gwelsom wasanaeth a werthfawrogir yn fawr gan ei ddefnyddwyr, ond un lle'r oedd angen talu sylw i'w reolaeth ariannol ar fyrder. Ni wnawn gymeradwyo buddsoddiad ychwanegol hyd nes y byddwn yn fodlon bod y rheolaethau cywir ar waith a hyd nes y byddwn wedi craffu ar gynigion y rheolwyr yn fanylach.

Bu dylanwad y cyhoedd yn gryf drwy gydol y flwyddyn. Arweiniodd ei sylwadau a'i bryderon at ein harolwg o ddarllediadau newyddion rhwydwaith mewn perthynas â chyfansoddiad newidiol y Deyrnas Unedig, sydd wedi arwain at gyflwyno newidiadau gan reolwyr y BBC. Cafodd ymrwymiad newydd y BBC i wneud 50% o'i raglenni y tu allan i Lundain erbyn diwedd y Siarter hon ei sbarduno gan yr hyn a ddysgwyd ynghylch anfodlonrwydd cynulleidfaoedd yn y rhannau hynny o'r DU sydd gryn bellter o'r de-ddwyrain.

Ac arweiniodd pryderon y cyhoedd ynghylch cyflogau'r sêr at adolygu rôl y BBC yn y ffordd mae diwydiant y cyfryngau yn penderfynu ar yr hyn i dalu'r rhai sy'n ymddangos ar yr awyr ac ar y sgrîn. Er i ni ganfod nad oedd y BBC yn talu mwy na darlledwyr eraill am yr enwau mawr yn gyffredinol, mae'n amlwg bod lle i'r BBC wneud mwy i gadw'r ffioedd hyn i lawr. Byddwn yn adolygu cynnydd yn y maes hwn yr haf nesaf ac yn cyflwyno adroddiad arall arno.


Ar y cyfan, rydym am weld BBC sy'n gweithredu mewn ffordd agored ac atebol. Rydym am i'r cyhoedd fod yn fwy hyderus bod y BBC yn gweithio er ei fwyn. Mae ymateb adeiladol a chadarnhaol y rheolwyr i'r broses graffu gynyddol maent wedi ei hwynebu wedi gwneud argraff ar yr Ymddiriedolaeth. Mae wedi bod yn annifyr ar adegau, ond credwn fod manteision y manwl gywirdeb hwn yn dechrau cael eu cydnabod gan y rhai sy'n destun iddo.

Rydym am i'r BBC fod yn gymydog corfforaethol da i eraill yn sector y cyfryngau yn y DU. Credwn hefyd y gallai cydweithredu â darparwyr eraill y cyfryngau – sy'n awgrymu elfen o gymryd gofal masnachol gan y BBC – ddarparu gwell ffordd o ddiogelu buddiannau hirdymor cynulleidfaoedd na mwy o reoleiddio. Mae'r mater hwn yn un pwysig ac yn un yr edrychwn arno ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

Yn y misoedd nesaf byddwn yn cwblhau ein harolwg o wasanaethau'r BBC i blant, ac yn cychwyn yr un broses ar gyfer gwasanaethau i bobl ifanc. Hefyd eleni byddwn yn adolygu'r trefniadau ar gyfer casglu ffi'r drwydded.

O safbwynt personol, bu eleni yn flwyddyn pan gefais yr anrhydedd o gwrdd â thalwyr ffi'r drwydded ledled y DU a dechrau deall cryfder eu teimladau – yn gadarnhaol ac yn negyddol – ynghylch eu BBC. Bu hefyd yn flwyddyn pan gefais gyfle i gwrdd â mwy o'r bobl sy'n sicrhau mai'r BBC yw conglfaen darlledu cyhoeddus yn y DU. Yn arbennig cofiaf fynd i Wobrau Academi Radio Sony yn gynharach eleni a'r llawenydd ar wynebau staff World Service wrth iddynt ennill gwobr ar ôl gwobr – anrhydedd haeddiannol iawn gan y diwydiant am wasanaeth sy'n dwyn clod enfawr i Brydain ledled y byd.

Byddwn yn parhau i osod heriau mawr fel y gall y BBC ddangos ei werth am arian, ei ansawdd uchel, a'i natur nodedig o gymharu â'r hyn a gynigir gan eraill. Mae cyflawni hyn oll yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau fel conglfaen darlledu cyhoeddus yn y DU.



Syr Michael Lyons
**Cadeirydd**
19 Mehefin 2008

# Ymddiriedolaeth y BBC

## Yr Ymddiriedolwyr

Ymddiriedolaeth y BBC yw corff sofran y BBC 12 o Ymddiriedolwyr annibynnol sy n gweithredu er budd y cyhoedd. Mae r Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod y BBC yn parhau i fod yn annibynnol a sicrhau gwerth cyhoeddus drwy ddarparu gwasanaethau nodedig o r ansawdd uchaf i bawb yn y DU.

Mae r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Bwrpasau Cyhoeddus fel y u nodir yn y Siarter a r Cytundeb, sy n rhoi cyfres o ddulliau o lywodraethu i r Ymddiriedolaeth i gyflawni r dasg hon. Mae r rhain yn cynnwys cylchoedd gwaith pwrpas, trwyddedau gwasanaeth a phrofion gwerth cyhoeddus.

Mae r Ymddiriedolaeth yn gosod blaenoriaethau i r Bwrdd Gweithredol, sy n rheoli gweithrediadau beunyddiol y BBC ac fe i harweinir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a benodir gan yr Ymddiriedolaeth.

Mae r Ymddiriedolaeth yn cyflawni swyddogaethau goruchwylio a rheoleiddio. Ymhlith y rhain mae cymeradwyo strategaeth lefel uchel a chyllidebau r BBC; cymeradwyo canllawiau golygyddol y BBC; gosod y fframwaith ar gyfer ymdrin â chwynion a, lle y bo n briodol, wrando apeliadau; a sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â i bolisïau masnachu teg.

Un o egwyddorion allweddol yr Ymddiriedolaeth yw gweithredu mewn modd agored a thryloyw, a deall ac ystyried barn y cyhoedd cyn gwneud penderfyniadau bob amser.

Am fanylion llawn rôl a swyddogaethau r Ymddiriedolaeth ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth: bbc.co.uk/bbctrust

Nicholas Kroll
**Cyfarwyddwr,
Ymddiriedolaeth y BBC**

























**01 SYR MICHAEL LYONS**
**CADEIRYDD**
Cadeirydd ers 1 Mai 2007. Cadeirydd English Cities Fund. Un o gyfarwyddwyr anweithredol Mouchel plc; Wragge & Co; ac SQW Ltd. Cyn-Ddirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Dros Dro, Comisiwn Archwilio. Cyn-Brif Weithredwr Cyngor Dinas Birmingham; Cyngor Dinas Swydd Nottingham; a Chyngor Bwrdeistref Wolverhampton. Arweiniodd Ymchwiliad Lyons i swyddogaethau a chyllid llywodraeth leol. Cyn-Athro Polisi Cyhoeddus, Prifysgol Birmingham. Cyn-gyfarwyddwr anweithredol, Central Television Limited; Cyn-Gadeirydd Cyngor Ymgynghorol Rhanbarthol ITV. Llywodraethwr, Royal Shakespeare Company. Cyn-Gadeirydd Cerddorfa Symffoni Dinas Birmingham.

**02 CHITRA BHARUCHA**
**IS-GADEIRYDD**
Cadeirydd Dros Dro hyd at 30 Ebrill 2007; Cadeirydd, Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa a Phwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau Ymddiriedolaeth y BBC. Cyn-Haematolegydd Clinigol Ymgynghorol a Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaeth Trallwyso Gwaed Gogledd Iwerddon. Cyn-aelod, Cyngor Meddygol Cyffredinol; Cyn-Gadeirydd, Panelau Dyfarnu Cymhwyster i Ymarfer y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Cyn-aelod o'r Comisiwn Teledu Annibynnol ar gyfer Gogledd Iwerddon; cyn-aelod, Cyngor Darlledu'r BBC ar gyfer Gogledd Iwerddon; cyn-aelod, Awdurdod Safonau Hysbysebu (Darlledu). Cadeirydd, Pwyllgor Cynghori ar Fwydydd Anifeiliaid ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Ymddiriedolwr, Marie Curie Cancer Care.

**03 DIANE COYLE**
Cadeirydd, Pwyllgor Gwerth Cyhoeddus a Masnachu Teg Ymddiriedolaeth y BBC. Ymgynghorydd economaidd technolegau newydd a globaleiddio. Aelod, Comisiwn Cystadleuaeth. Cyn-Olygydd Economeg The Independent. Awdur llwyddiannus a darlledwr ym maes economeg.

**04 DERMOT GLEESON**
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid a Strategaeth Ymddiriedolaeth y BBC. Un o Gyn-Lywodraethwyr y BBC. Cadeirydd, M J Gleeson Group plc. Cyn-Gadeirydd, Major Contractors Group; un o gyn-gyfarwyddwyr y Gorfforaeth Dai a Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu. Cyn-Bennaeth, Is-adran Materion Cartref, Adran Ymchwil y Blaid Geidwadol; cyn-aelod o gabinet Christopher Tugendhat yn y Comisiwn Ewropeaidd.

**05 ALISON HASTINGS**
**YMDDIRIEDOLWR DROS LOEGR**
Cadeirydd, Cyngor Cynulleidfa Lloegr; Ymgynghorydd y cyfryngau. Cyn-Olygydd, Newcastle Evening Chronicle. Cyn-aelod o Gomisiwn Cwynion y Wasg.

**06 DAME PATRICIA HODGSON DBE**
Pennaeth, Coleg Newnham, Caergrawnt. Llywodraethwr, Ymddiriedolaeth Wellcome; aelod o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, a'r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Un o gyfarwyddwyr anweithredol, Comisiwn Cystadleuaeth. Cyn-Brif Weithredwr y Comisiwn Teledu Annibynnol. Un o gyn-weithredwyr y BBC, a ddaliodd lawer o uwch swyddi gan gynnwys Cyfarwyddwr Polisi.

**07 ROTHA JOHNSTON**
**YMDDIRIEDOLWR DROS OGLEDD IWERDDON**
Cadeirydd, Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon; Entrepreneur ym maes masnach ac eiddo. Un o gyfarwyddwyr anweithredol Allied Irish Bank (UK) plc; Is-Gadeirydd Invest Northern Ireland; un o aelodau anweithredol, Bwrdd Swyddfa Gogledd Iwerddon. Dirprwy-Ganghellor, Queen's University, Belfast. Cadeirydd, Pwyllgor Cyngor Cynulleidfa Ymddiriedolaeth y BBC hyd at fis Mawrth 2008.

**08 JANET LEWIS-JONES**
**YMDDIRIEDOLWR DROS GYMRU**
Cadeirydd, Cyngor Cynulleidfa Cymru; Is-lywydd, Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain; Ymddiriedolwr, Sefydliad Baring; Cadeirydd, Panel Dethol Aelodau Glas Cymru (Dŵr Cymru). Cyn-aelod, Awdurdod Sianel Pedwar Cymru (S4C); a chyn-Gomisiynydd, Comisiwn Gwasanaethau Post. Wedi eistedd ar fwrdd Awdurdod Strategol y Rheilffyrdd a bwrdd Dyfrffyrdd Prydain.

**09 DAVID LIDDIMENT**
Cadeirydd, Pwyllgor Cynulleidfaoedd a Pherfformiad Ymddiriedolaeth y BBC; Cyfarwyddwr Anweithredol, All3Media; un o aelodau cyswllt The Old Vic Theatre Company. Mae ei yrfa ddarlledu yn cynnwys Cyfarwyddwr Rhaglenni, ITV; Dirprwy Reolwr-Gyfarwyddwr, LWT; Cyfarwyddwr Rhaglenni, Granada TV; Pennaeth Grŵp Adloniant, Teledu'r BBC.

**10 MEHMUDA MIAN PRITCHARD**
Un o Gomisiynwyr Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, Rhanbarth Llundain a De Ddwyrain Lloegr. Aelod bwrdd, Awdurdod Diogelu Annibynnol. Un o gyn-gyfarwyddwyr anweithredol Ymddiriedolaeth Iechyd Meddwl Gogledd Birmingham ac Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG. Cyn-gyfreithiwr mewn practis preifat yn Birmingham.

**11 JEREMY PEAT**
**YMDDIRIEDOLWR DROS YR ALBAN**
Cadeirydd, Cyngor Cynulleidfa'r Alban; Cadeirydd, Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC. Un o Gyn-Lywodraethwyr Cenedlaethol y BBC ar gyfer yr Alban. Aelod o'r Comisiwn Cystadleuaeth. Un o gyfarwyddwyr Sefydliad David Hume. Colofnydd i'r Herald a chylchgrawn Holyrood. Cyn-Brif Economegydd Grŵp yn y Royal Bank of Scotland. Cyn-gynghorydd economaidd i Lywodraeth Botswana, Trysorlys EM a Swyddfa'r Alban.

**12 RICHARD TAIT**
Cadeirydd, Pwyllgor Safonau Golygyddol Ymddiriedolaeth y BBC. Athro Newyddiaduraeth a Chyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Newyddiaduraeth, Prifysgol Caerdydd. Cyn-Brif Olygydd ITN; cyn-Olygydd, Channel 4 News. Yn y BBC, golygodd *Newsnight*, *The Money Programme* a rhaglen canlyniadau Etholiad Cyffredinol 1987. Un o Gyn-Lywodraethwyr y BBC. Un o Gymrodorion Sefydliad y Wasg Ryngwladol; un o gymrodorion Cymdeithas y Golygyddion a'r Gymdeithas Deledu Frenhinol.

## Mater o ymddiriedaeth

“Roeddwn yn eithaf siomedig i ganfod bod y BBC yn rhan o sgandal y ffonau. Collais lawer o ffydd ynddo…”*

**17,000 O STAFF**

a gafodd hyfforddiant ‘Safeguarding Trust’ y BBC mewn chwe mis




Ased mwyaf gwerthfawr y BBC yw ei enw da am uniondeb golygyddol. Dirywiodd yr enw da hwnnw yn ystod y flwyddyn a chymerwyd camau brys gennym i adfer ymddiriedaeth y cyhoedd yn y BBC a sicrhau na fyddai unrhyw ddigwyddiadau niweidiol o r fath i w gweld eto.

## Lansio BBC iPlayer

“Mae BBC iPlayer yn gam mawr ymlaen. Mae’n gymharol hawdd i’w ddefnyddio...mae fy rhieni yn gwneud.”*

**42 MILIWN**

o raglenni a wyliwyd gan ddefnyddio BBC iPlayer yn ystod tri mis cyntaf 2008



Dim ond os bydd Ymddiriedolaeth y BBC o r farn y bydd gwasanaethau newydd y BBC yn cynnig gwerth i r cyhoedd ac y bydd y buddiannau cadarnhaol yn gorbwyso unrhyw effeithiau negyddol y bydd yn caniatáu iddynt gael eu lansio. Cymeradwywyd BBC iPlayer gennym ar ôl prawf gwerth cyhoeddus a daeth yn ychwanegiad gwerthfawr iawn i wasanaethau r BBC.

# Y BBC YN 2007/08:

## BBC sy’n addasu ar gyfer y dyfodol

“Mae’n sefydliad – rydych yn dibynnu ar y ffaith ei fod yno... credaf y byddem yn ei golli yn fwy na’r disgwyl.”*

**50%**

yw’r targed newydd ar gyfer cyfran staff y BBC a gaiff eu lleoli y tu allan i Lundain erbyn 2016



Mae n rhaid i r BBC feddwl drwy r amser am sut i ymateb i newidiadau mewn technoleg, yn y ffordd y mae pobl yn byw a sut maent yn defnyddio r cyfryngau. Eleni cymeradwywyd cynllun chwe blynedd newydd er mwyn i r BBC sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu rhywbeth at ddant pawb a gwerth da i holl dalwyr ffi r drwydded.

## BBC mwy agored ac atebol

“Mae’n wych ei fod yn gweithredu’n fwy agored a thryloyw...”*

**53,536** O BOBL

a ymwelodd â’r Ganolfan Ddarlledu yn Llundain i fynd ar daith o’r stiwdios




Mae r BBC am wella ei ddull o wrando ar farn pobl ac egluro r hyn a wna. Eleni rhoddodd Ymddiriedolaeth y BBC gyfle i bobl roi eu sylwadau cyn gwneud penderfyniadau pwysig. Mae r Ymddiriedolaeth wedi dechrau egluro ei phenderfyniadau ar ei gwefan.

# BETH OEDD EICH UCHAFBWYNTIAU CHI?

## BBC a werthfawrogir ledled y byd

“Rwyf yn gwrando ar radio’r BBC i gael newyddion rhyngwladol a dadansoddiadau gan ei fod yn ffeithiol ac yn ddiduedd.”†

**233** MILIWN

a ddefnyddiodd wasanaethau newyddion byd eang y BBC teledu, radio ac ar lein – y llynedd




Mae cynulleidfaoedd newyddion y BBC yn gwerthfawrogi ei natur ddiduedd ac yn galw am hynny dyma gonglfaen enw da r BBC ledled y byd. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn sicrhau bod safonau golygyddol o r ansawdd uchaf. Mae sicrhau bod y BBC yn ddiduedd yn un o n blaenoriaethau allweddol.

## Rhaglenni nodedig o ansawdd uchel

“Byddwn yn rhoi deg allan o ddeg i’r BBC am ei raglenni byd natur. Dyna gryfder y BBC… er enghraifft yn *Life in Cold Blood*.”*

**91%**

o’r gynulleidfa yn cytuno’n gryf bod *Life in Cold Blood* yn rhaglen o ansawdd uchel



Pan fyddwn yn barnu pa mor dda mae r BBC yn ei wneud rydym bob amser yn ystyried beth yw barn cynulleidfaoedd ar ansawdd a natur nodedig rhaglenni r BBC nid dim ond faint o bobl sy n gwylio neu n gwrando.

** Aelod o’r cyhoedd yn un o weithdai’r Ymddiriedolaeth.*
*† Gwraig tŷ, Herat, Affganistan.*

# 93%

Canran yr oedolion yn y DU sy n defnyddio gwasanaethau r BBC.
Ffynhonnell: Astudiaeth Olrhain y BBC.
Cyrhaeddiad honedig pobl 15+ oed 2007/08.

“Wrth wraidd diwylliant y BBC mae gwerthoedd gonestrwydd, uniondeb a didwylledd. Mae cefnogaeth y cyhoedd yn y dyfodol yn dibynnu ar y BBC yn parhau i ymgorffori'r gwerthoedd hyn drwy'r sefydliad. Rhaid eu pwysleisio ar bobl y diwrnod maent yn ymuno a sicrhau eu bod wrth wraidd eu bywyd proffesiynol drwy gydol eu hamser yn y BBC.”

Richard Tait
**Ymddiriedolwr, Cadeirydd pwyllgor safonau golygyddol yr Ymddiriedolaeth**

# TROSOLWG O BERFFORMIAD




Aelodau o r cyhoedd yn un o weithdai ymchwil yr Ymddiriedolaeth.

*"Maent yn gwneud yn eithaf da – mae'r pedair cenhedlaeth o'm teulu yn ei fwynhau."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.

Bu hon yn flwyddyn lle y gosodwyd sylfeini cadarn ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r cyfnod ffi'r drwydded hwn hyd at 2012. Rydym yn glir ynghylch yr hyn y mae cynulleidfaoedd y BBC am ei gael; rydym wedi cymeradwyo strategaeth y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y blynyddoedd i ddod; ac rydym wedi cytuno ar strategaeth ariannol sy'n cynnwys targedau effeithlonrwydd heriol i ryddhau arian ar gyfer gwella ansawdd ymhellach. Ceir arwyddion bod perfformiad y BBC yn dechrau adlewyrchu'r blaenoriaethau a osodwyd gennym ar ei gyfer, er bod rhai meysydd lle mae'n rhaid gwella prosesau mewnol.

Yn y flwyddyn a adolygir rydym wedi canolbwyntio ar dair thema allweddol: cyrhaeddiad; ansawdd a natur nodedig; ac ailennyn ymddiriedaeth.

Mae **cyrhaeddiad – mesur o faint o bobl sy'n dewis defnyddio ein gwasanaethau** – yn bwysig am ei fod yn dangos gwerth y BBC i holl dalwyr ffi'r drwydded a hefyd am na all y BBC gyflawni'r pwrpasau cyhoeddus a roddwyd iddo gan y Senedd oni chaiff ei wasanaethau eu defnyddio gan y mwyafrif helaeth o bobl yn y DU.

Mae **ansawdd a natur nodedig** yn bwysig am fod cynulleidfaoedd wedi nodi'n glir mai'r rhain yw'r materion sydd bwysicaf iddynt.

Ac mae **ailennyn ymddiriedaeth** yn bwysig am fod cynulleidfaoedd yn draddodiadol wedi ymddiried yn fawr yn y BBC a phan niweidir yr hyder hwn – fel y digwyddodd yn sgîl y methiannau golygyddol yr haf diwethaf – gall y gost i gydberthynas allweddol rhwng y BBC a'i gynulleidfaoedd fod yn uchel iawn.

**CYRRAEDD PAWB**

Mae'r Ymddiriedolaeth yn bodoli i hyrwyddo ac amddiffyn buddiannau talwyr ffi'r drwydded – y cyhoedd sy'n berchen ar y BBC ac yn talu amdano. Rhan allweddol o'n gwaith yw sicrhau bod y BBC yn darparu allbwn o ansawdd uchel i bawb yn y DU a werthfawrogir ganddynt. Dim ond drwy wneud hyn y gall y BBC gyflawni ei chwe phwrpas cyhoeddus a pharhau i gael cefnogaeth o ran ffi'r drwydded.

Felly mae'n bleser gennym nodi perfformiad da'r BBC ym maes cyrhaeddiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid cyrhaeddiad yw'r unig fesur arwyddocaol o ran perfformiad, ond mae'n un pwysig sy'n ein galluogi i nodi faint o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r BBC. Drwy gydol 2007/2008 defnyddiodd tua **93%** o'r boblogaeth wasanaethau'r BBC yn wythnosol. Roedd perfformiad yn gryf iawn ym maes Teledu a welodd gynnydd o **0.6%** i **85%** mewn cyrhaeddiad yn gyffredinol ar ôl dirywiad mewn blynyddoedd blaenorol. Lleihaodd cyrhaeddiad Radio'r BBC rywfaint ond parhaodd bbc.co.uk i gynyddu momentwm, fel y byddem yn ei ddisgwyl o ystyried y twf cryf parhaus mewn rhannau eraill o'r sector.

Yn adroddiad blynyddol y llynedd nodwyd ymddygiad newidiol pobl ifanc o ran y cyfryngau wrth iddynt roi'r gorau i hen dechnolegau a dechrau defnyddio rhai newydd yn gyflymach na grwpiau hŷn o gynulleidfaoedd. Felly mae'n galonogol nodi i gyrhaeddiad i deledu a radio'r BBC barhau'n sefydlog ymhlith y grŵp oedran 16–34, gyda thwf sylweddol ar gyfer BBC Two a BBC Three, yn ogystal â Radio 1. Mae cyrhaeddiad ar-lein wedi cynyddu i'r grŵp oedran hwn.

Er gwaethaf y perfformiad calonogol hwn rydym yn ymwybodol bod pwysau cystadleuol yn dwysáu ac y gall y BBC ei chael yn anodd parhau i berfformio fel hyn mewn blynyddoedd i ddod. Dyma pam, pan gymeradwywyd strategaeth chwe blynedd y BBC y llynedd, y gosodwyd yr amcan penodol i'r rheolwyr o gynnal y cyrhaeddiad mwyaf posibl sy'n gyson â phwrpasau a gwerthoedd y BBC. Gallai gosod amcan i sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl yn unig greu cymhelliant croes a allai weithio yn erbyn yr allbwn o ansawdd uchel y mae cynulleidfaoedd yn ei ddisgwyl gan y BBC.

Mae ein dymuniad i'r BBC sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl gydag allbwn o ansawdd uchel wedi chwarae rhan yn ein penderfyniadau i gymeradwyo nifer o wasanaethau newydd. Wrth gynnal profion gwerth cyhoeddus ar BBC iPlayer a'r sianel HDTV cawsom ein hargyhoeddi y byddai'r ddau yn galluogi'r BBC i gyrraedd pobl gan gynnig rhywbeth yr oeddent yn ei werthfawrogi. Mae BBC iPlayer – a gafodd ei lansio'n llwyddiannus eleni – yn galluogi'r BBC i ymateb i'r galw clir gan y cyhoedd am gael gweld allbwn y BBC pan fo'n gyfleus iddo ef. Ac yn achos y sianel HDTV (gweler tudalen 45) rydym wedi gweld tystiolaeth gref y byddai cryn nifer o'r boblogaeth yn gwerthfawrogi'r fath wasanaeth ac yn credu y bydd ymrwymiad y BBC iddi – yn enwedig ar lwyfannau gwylio am ddim DTT a DSat – yn sicrhau bod pawb sy'n dymuno gwneud yn gallu mwynhau'r dechnoleg newydd addawol hon.

Yn ystod ein trafodaethau â'r Bwrdd Gweithredol ar y strategaeth chwe blynedd dibynnwyd yn helaeth ar y gwaith ymchwil ac ymgynghori sylweddol a wnaed gennym yn 2007 ar y cylchoedd gwaith pwrpas drafft, gan ganolbwyntio ar feysydd lle y nodwyd bylchau sylweddol mewn perfformiad gan gynulleidfaoedd. Er enghraifft, gwelwyd er bod y BBC yn uchel iawn ei barch yn gyffredinol am ei ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes nid yw'n cyrraedd cymeradwywyr isel y BBC yn effeithiol ac rydym wedi gofyn i'r rheolwyr ddod o hyd i ateb. Un pwrpas lle nodwyd rhai bylchau amlwg iawn mewn perfformiad oedd *Cynrychioli gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU*. Mae ymdrin â'r gwendidau yma yn ffocws pwysig i'n gwaith yn y dyfodol. Ceir mwy o wybodaeth am hyn yn ddiweddarach yn yr adran hon.

*"Gallai gwreiddioldeb fod yn gwneud yr un fath o beth ond i safon well, fel Cranford."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.



Cydnabuwyd *Cranford*, drama ar BBC One, fel rhaglen o ansawdd uchel gan gynulleidfaoedd.

*Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl i'r BBC gynnig dewis amgen clir i sianelau eraill drwy ddarparu allbwn sy'n ffres ac yn gyson â gwerthoedd craidd y BBC.*

Canfyddiad o waith ymchwil gan Ymddiriedolaeth y BBC ar safbwyntiau cynulleidfaoedd ar deledu r BBC yn ystod tymor yr hydref 2007.

# Cynyddu natur nodedig ac ansawdd

Mae cynulleidfaoedd yn disgwyl i'r BBC osod meincnod ar gyfer rhaglennu a chynnwys o ansawdd. Fodd bynnag, yn adroddiad blynyddol y llynedd adroddwyd ar waith ymchwil a ddangosodd lefel sylweddol o anfodlonrwydd ymhlith cynulleidfaoedd: 'Mae cynulleidfaoedd yn datgan yn glir eu bod am weld syniadau ffres a newydd ac ystod eang o raglenni sy'n eu diddanu ac yn rhoi mwynhad iddynt – ac maent o'r farn y gallai'r BBC wneud yn well yn y maes hwn.' Roedd ymdeimlad clir nad oedd y BBC yn darparu digon o raglennu a chynnwys a oedd yn wahanol i'r hyn a oedd ar gael gan eraill, o ystyried bod y BBC yn sefydliad a ariennir gan y cyhoedd a all gymryd risgiau na all darlledwyr masnachol eu cymryd.

Rydym wedi trafod y materion hyn yn helaeth gyda'r Bwrdd Gweithredol ac rydym wedi gosod yr amcan i 'geisio cynyddu natur nodedig ac ansawdd ei allbwn' i'r BBC yn ystod chwe blynedd setliad cyfredol ffi'r drwydded. Bob blwyddyn mesurwn gynnydd o ran cyflawni'r amcan hwn a phum amcan strategol arall gan gyflwyno adroddiad ar hyn. Mae gwahanol grwpiau o gynulleidfaoedd yn gosod gwerthoedd gwahanol iawn ar y BBC; ac mae amcanion pellach yn galw ar y BBC i gynyddu'r canfyddiad o werth ymhlith cymeradwywyr canolig ac isel tra'n cynnal y canfyddiad o werth ymhlith cymeradwywyr uchel.

Er mwyn helpu i ddeall yr hyn sy'n llywio canfyddiadau cynulleidfaoedd yn well cynhaliwyd mwy o waith ymchwil yr hydref diwethaf. Dengys ein gwaith ymchwil nad yw cynulleidfaoedd yn galw am newid cyfeiriad radical. Ond maent yn disgwyl i'r BBC gynnig dewis amgen clir i sianelau eraill drwy ddarparu allbwn sy'n ffres ac yn gyson â gwerthoedd craidd y BBC. Ystyr 'ffres' yw teledu a all fod yn gyfarwydd ond sy'n cynnig 'elfen newydd' neu sydd 'ychydig yn wahanol' mewn rhyw ffordd – er eu bod hefyd yn gweld lle i'r hyn sy'n wirioneddol newydd ac yn torri tir newydd. Mae disgwyliadau cynulleidfaoedd y dylai'r BBC gynnig syniadau ffres yn uwch nag ar gyfer darlledwyr eraill oherwydd mae'r cyhoedd o'r farn bod y ffordd y caiff y BBC ei ariannu yn golygu ei fod yn rhydd o rywfaint o'r pwysau sydd ar ddarparwyr masnachol.


Mae cynulleidfaoedd hefyd o'r farn bod teledu aml-sianel wedi cymhlethu'r darlun. Lle'r oedd y BBC ar un adeg yn unigryw oherwydd amrywiaeth a dyfnder – yn ogystal ag ansawdd – ei allbwn, erbyn hyn mae ymdeimlad cryf y caiff yr amrywiaeth hwnnw ei ddarparu gan yr ystod eang sydd ar gael yn y byd aml-sianel. Ar yr un pryd, fodd bynnag, cred cynulleidfaoedd fod amserlenni teledu wir yn cael eu rheoli gan raglenni sy'n ceisio denu cymaint o wylwyr â phosibl megis operâu sebon, sioeau adloniant mawr a theledu realiti, ar draul drama ddifrifol a rhaglenni dogfen ffeithiol, yr ystyrir eu bod wedi lleihau mewn nifer ac amlygrwydd.

Rhown ystyriaeth ddifrifol i'r canfyddiadau hyn. Gwyddom o'n gwaith ymchwil mai un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno cymeradwyaeth gyffredinol y BBC yw hyder y cyhoedd y bydd y BBC yn bodloni ei ddisgwyliadau uchel o ran ei allbwn. Er mwyn tanlinellu ein natur benderfynol y dylai'r BBC wahaniaethu ei hun drwy ansawdd uchel ei allbwn rydym yn cyhoeddi canfyddiadau ein gwaith ymchwil ar raglenni teledu sy'n sgorio'n uchel o ran canfyddiadau gwylwyr. Gobeithiwn y bydd hyn yn ysgogi trafodaeth am y mathau o raglenni y dylai'r BBC eu gwneud. Mae'n adlewyrchu ein cred y dylai'r gwaith o asesu perfformiad ganolbwyntio ar ansawdd a natur nodedig yn ogystal â chyrhaeddiad a chyfran. Rhoddir rhagor o fanylion yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ar dudalen 21.

Parhaodd canfyddiadau o ansawdd – a fesurir fel cymeradwyaeth i wasanaethau'r BBC – yn sefydlog flwyddyn ar ôl blwyddyn. Nodwn gynnydd sylweddol mewn rhaglenni a sgoriodd yn uchel ar y Mynegai Gwerthfawrogiad ar gyfer teledu a radio. Mae newidiadau i gyfansoddiad y panel cynulleidfa wedi arwain at gynnydd ffiniol yn sgoriau'r Mynegai, ond nid yw'n debygol mai dyma'r unig reswm am y cynnydd. Dim ond yn y dyfodol y daw graddau gwirioneddol y cynnydd i'r amlwg a ph'un a ellir ei gynnal neu ei wella ai peidio.

*"Rwyf yn ymddiried yn y BBC ar lefel emosiynol – cefais fy magu gyda'r sefydliad – ond oherwydd y ffordd rwy'n gweld y byd nawr ac yn ystyried ei weithredoedd golygyddol, mae gennyf amheuon."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.




O weithdy ymchwil Ymddiriedolaeth y BBC.

99%

Canran y staff perthnasol a aeth ar y cwrs Safeguarding Trust' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae r cwrs hwn bellach yn cael ei ddarparu i r sector annibynnol.

# Ailennyn ymddiriedaeth

Yn hanesyddol mae'r BBC wedi mwynhau lefelau uchel iawn o ymddiriedaeth o gymharu â sefydliadau eraill ym Mhrydain, a'r enw da hwn am uniondeb golygyddol yw ased mwyaf gwerthfawr y BBC. Yn ystod y flwyddyn effeithiwyd yn andwyol ar yr enw da hwnnw o ganlyniad i weithredoedd rhai gwneuthurwyr rhaglenni. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod ymddiriedaeth y cyhoedd yn uniondeb y BBC yn cael ei hadfer, a bod mesurau cadarn yn cael eu rhoi ar waith i atal unrhyw achos o ailadrodd yr arferion a wnaeth y niwed.

**Gwasanaethau ffôn cyfraddau premiwm a chystadlaethau ar yr awyr**

Fel y nodwyd gennym y llynedd, daeth achosion i'r amlwg lle'r oedd gwneuthurwyr rhaglenni wedi camarwain cynulleidfaoedd o ran cystadlaethau a phleidleisiau ar yr awyr. Ym mis Mai 2007 cyhoeddwyd arolwg y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a dderbyniodd fod gwallau difrifol wedi'u gwneud. Daeth achosion eraill i'r amlwg yn sgîl ymchwilio pellach.

**Monarchy: The Royal Family at Work**

Ym mis Gorffennaf 2007 dangoswyd rhagflas o gyfres ddogfen newydd sef *Monarchy: The Royal Family at Work* i newyddiadurwyr. Ymddangosai fel petai'r Frenhines yn cerdded allan o'r sesiwn tynnu lluniau mewn tymer ddrwg. Mewn gwirionedd, nid oedd y Frenhines wedi cerdded allan, ac roedd yr argraff ei bod wedi gwneud hynny o ganlyniad i waith golygu camarweiniol gan y cwmni cynhyrchu annibynnol a oedd yn gwneud y rhaglen ddogfen. Ymddiheurodd y BBC i'r Palas.

Yn dilyn y digwyddiadau hyn, cytunwyd ar gynllun gweithredu deg pwynt gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a gyhoeddwyd ganddo ym mis Gorffennaf. Yn ei gynllun cynhwyswyd newidiadau sefydliadol pwysig i wella manwl gywirdeb a chysondeb safonau golygyddol drwy'r BBC; ymchwiliad annibynnol i'r amgylchiadau a oedd ynghlwm wrth y rhagflas camarweiniol; atal holl gystadlaethau'r BBC tra bo canllawiau newydd yn yr arfaeth; a rhoi hyfforddiant gorfodol ar safonau golygyddol y BBC i bob aelod o staff rhaglenni a chynnwys.

Fel y nodwyd gennym y llynedd roeddem eisoes wedi comisiynu ein hymchwiliad ein hunain i ddefnydd y BBC o wasanaethau cyfraddau premiwm, ac yn dilyn hynny ehangwyd yr ymchwiliad hwn i gynnal arolwg mwy cyffredinol o effeithiolrwydd ymateb y Bwrdd Gweithredol i'r gyfres hon o wallau difrifol mewn safonau golygyddol. Hefyd gofynnwyd i'r Bwrdd Gweithredol adolygu ei brosesau cydymffurfio, gan ystyried modelau cydymffurfio mewn rhannau eraill o'r diwydiant, er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ymhob maes o allbwn y BBC. Fe'n hysbyswyd gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Ionawr ei fod yn fodlon, yn dilyn y newidiadau sylweddol a wnaed, gan gynnwys rhoi rôl uwch i'r Cyfarwyddwr Polisi Golygyddol a chyfrifoldebau rheoli newydd ym maes cydymffurfiad mewn is-adrannau allbwn, fod y prosesau cydymffurfio yn gadarn.

Ym mis Mai 2008 cyflwynwyd adroddiad ar ein harolwg ac mae wedi cael ei gyhoeddi'n llawn ar ein gwefan. Mae'n nodi'n glir na ddylai'r camau gweithredu a amlinellwyd yng nghynllun y Cyfarwyddwr Cyffredinol gael eu hystyried yn ateb cyflym ond yn hytrach yn newid hirdymor i weithdrefnau, prosesau a mesurau diogelu drwy'r BBC.

**MEDRUSRWYDD A THWYLL**

Yn ystod y flwyddyn cafwyd cryn drafod ynghylch y ffin rhwng medrusrwydd a thwyll ym maes gwneud rhaglenni. Er mwyn deall y mater hwn yn well comisiynwyd gwaith ymchwil i ganfod yr hyn mae'r cyhoedd yn ei feddwl.

Dangosodd y gwaith fod gan gynulleidfaoedd teledu ddealltwriaeth soffistigedig o'r ffiniau rhwng yr hyn sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol yn y maes hwn. Mae gwylwyr am i raglenni ennyn diddordeb ac maent yn derbyn y gallai elfen o fedrusrwydd fod yn angenrheidiol i gyflawni hyn – ond, heb beri syndod, ni dderbyniant dwyll. Maent yn barod i dderbyn mwy o hyblygrwydd o ran adloniant nag ar gyfer rhaglenni ffeithiol, ac o ran allbwn ffeithiol disgwyliant broses ddyfarnu well ar rai pynciau mwy sensitif. Os bydd rhaglen ffeithiol yn addo taith emosiynol yna disgwyliant i'r daith fod yn un wirioneddol, ac nid yn un sy'n eu twyllo. Hefyd mae cynulleidfaoedd yn disgwyl mwy gan rai cyflwynwyr unigol nag eraill, a disgwyliant fwy o fanwl gywirdeb gan raglenni sy'n addo effaith fawr – cyfweliad pwysig neu ddigwyddiad diwylliannol, er enghraifft.

Dangosodd y gwaith ymchwil fod gan y BBC gysylltiadau cryfach â gwerthoedd gonestrwydd, ymddiriedaeth a dibynadwyedd na darlledwyr eraill a bod cynulleidfaoedd yn disgwyl mwy gan y BBC. Fodd bynnag nid ydynt am gael dwy haen o safonau. Byddent yn hoffi gweld pob darlledwr, gan gynnwys y BBC, yn dilyn yr un canllawiau golygyddol. Ond ar y cyfan, teimlant y gellir bodloni eu disgwyliadau uchel drwy ddefnyddio synnwyr cyffredin yn hytrach na rheolau du a gwyn.

*"Wrth i mi heneiddio rwyf wedi canfod mwy am yr hyn y gall y cyfryngau ei wneud ac rwyf wedi mynd yn fwy amheus."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth.



*Strictly Come Dancing* oedd un o raglenni mwyaf poblogaidd y BBC gyda phleidleisiau ffôn.

*Mabwysiadodd y BBC ganllawiau newydd i reoli pleidleisiau dros y ffôn yn ystod y flwyddyn ac mae newidiadau mewn technoleg bellach yn atal pobl rhag gorfod talu am bleidleisiau na chânt eu cyfrif.*

**SEMINAR AR YMDDIRIED MEWN DARLLEDU**

Ym mis Tachwedd cynhaliwyd seminar, ar y cyd ag Ofcom, ar ymddiriedaeth mewn darlledu. Gwnaeth ddwyn ynghyd arweinwyr o bob rhan o'r diwydiant i weithio ar ffyrdd o ailennyn ymddiriedaeth y cyhoedd yn dilyn cyfres y llynedd o fethiannau golygyddol a chydymffurfio.

Cytunwyd i ystyried dull cyffredin o ymdrin â gwasanaethau cyfraddau premiwm; datblygu hyfforddiant drwy'r diwydiant ar safonau moesegol a golygyddol; ac ystyried fframwaith cyffredin o egwyddorion i hyrwyddo arfer gorau ym maes gwneud rhaglenni.

Bydd y cynrychiolwyr yn cwrdd yn ddiweddarach eleni i adolygu hynt y gwaith hwn.

Wrth wraidd diwylliant y BBC mae gwerthoedd gonestrwydd, uniondeb a didwylledd. Mae'r gwerthoedd hyn wedi sicrhau ymddiriedaeth a chefnogaeth y cyhoedd dros wyth degawd. Mae cefnogaeth y cyhoedd yn y dyfodol yn dibynnu ar y BBC yn sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn mabwysiadu'r gwerthoedd hyn. Rhaid eu pwysleisio ar bobl y diwrnod maent yn ymuno a sicrhau eu bod wrth wraidd eu bywyd proffesiynol drwy gydol eu hamser yn y BBC.

Ymhlith argymhellion allweddol ein harolwg nodir y dylai Canllawiau Golygyddol y BBC gael eu diwygio a'u hailddosbarthu ar fyrder, ac, fel mater o flaenoriaeth, dylai cynhyrchwyr gweithredol gael mwy o gefnogaeth er mwyn cyflawni eu rôl allweddol fel y rhai sy'n diogelu safonau a gwerthoedd y BBC.

Ymhlith yr argymhellion eraill mae mesurau i wella'r broses o reoli risg – megis cyfleu profiad 'digwyddiadau a allai fod wedi bod yn niweidiol' yn llawer ehangach er mwyn i gynhyrchwyr sy'n gweithio mewn genres gwahanol allu rhannu gwersi drwy'r BBC. Rydym hefyd am weld y BBC yn llunio ffordd o sicrhau bod strwythurau cydymffurfio ei gyflenwyr annibynnol o'r safon uchaf ac yn effeithiol.

Fel rhan o'n hymchwiliad i ddefnydd y BBC o wasanaethau cyfraddau premiwm comisiynwyd arolwg annibynnol o'r agweddau economaidd ar wasanaethau cyfraddau premiwm y BBC. Yn sgîl y gwaith hwn, daeth arfer nas datgelwyd yn flaenorol gan Audiocall (un o is-adrannau masnachu BBC Worldwide) i'r amlwg, sef cadw'r holl arian a godwyd drwy alwadau ffôn a wnaed gan y gynulleidfa ar gam ar ôl i linellau pleidleisio gau, gan gynnwys arian a allai fod yn ddyledus i elusen. Er mai bach oedd y symiau o raglenni unigol a oedd yn ddyledus i elusennau a gadwyd gan Audiocall, roedd yr arfer hwn yn gwbl anghywir ac ymddiheurwn yn fawr amdano. Ad-dalwyd yr arian a oedd yn ddyledus i elusennau gyda llog a gofynnodd Ymddiriedolaeth y BBC i'r BBC ymddiheuro ar yr awyr, a wnaed ganddo ar 24 Mai 2008.

Mae'r BBC yn cadw llygad ar lefelau o ymddiriedaeth yn rheolaidd. Gofynnir i aelodau'r cyhoedd i ba raddau maent yn cytuno â'r datganiad 'Rwy'n ymddiried yn y BBC'. Yn dilyn digwyddiadau haf a hydref 2007 a nodwyd gennym uchod, gostyngodd lefelau o ran cytuno â'r datganiad hwn. Fodd bynnag, erbyn mis Mawrth 2008 ymddangosodd fod ymddiriedaeth wedi cael ei hadfer a dychwelodd i'r lefelau a welwyd cyn y digwyddiadau hyn. Yn galonogol, roedd y mwyafrif o bobl (78% ym mis Mawrth 2008), hefyd yn ymddiried yn y BBC i unioni'r sefyllfa a gwneud y peth cywir yn y dyfodol.

“Rwyf yn ymddiried yn y BBC i fod yn onest ac yn agored. Yr unig beth sydd wedi newid fy meddwl yw sgandal y ffonau. Rwyf yn ymddiried ynddo o hyd i ddarparu amrywiaeth o raglenni o safon.”

Aelod o’r cyhoedd yn un o weithdai’r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.

# 16.2%

Canran poblogaeth y DU sy n byw yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

"Un o'r heriau mawr sy'n wynebu'r BBC ar hyn o bryd yw dod o hyd i ymatebion effeithiol i fap cyfansoddiadol newidiol y DU wrth i ddatganoli ymsefydlu'n ddyfnach yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac wrth i ranbartholdeb ddod yn bwysicach yn Lloegr."

Rotha Johnston
**Ymddiriedolwr y BBC, Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Ogledd Iwerddon**

# RHAGOLWG
# Y BBC

*Er bod yr amser a dreulir gan bobl yn gwylio'r teledu yn parhau i fod yn gymharol sefydlog, mae patrymau gwylio yn dod yn fwy darniog.*

87%

Canran y cartrefi yn y DU â theledu digidol erbyn mis Ebrill 2008.

Rhaid i'r BBC fodloni llawer o ofynion gwahanol a newidiol. O ran teledu, er enghraifft, mae sianelau llinellol traddodiadol yn dal i ddenu cynulleidfaoedd mawr – a disgwyliwn i hynny barhau. Ond mae cynulleidfa fideo ar alw a ddarperir drwy'r rhyngrwyd yn tyfu – datblygiad a gaiff ei lywio gan y cynnydd cyflym mewn band eang. Eleni cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth gynlluniau i'r BBC ateb yr her o fodloni'r gofynion newydd a gaiff eu creu gan dechnoleg sy'n newid yn gyflym, tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd presennol drwy sianelau traddodiadol.

Yn yr adran hon ystyriwn sut mae'r BBC yn addasu i fathau gwahanol o newid yn y DU; nid dim ond yn dechnolegol ond hefyd yn gymdeithasol, yn gyfansoddiadol ac yn economaidd.

## NEWID YM MARCHNAD EHANGACH Y CYFRYNGAU

### Teledu

Mae cyflymdra'r newid mewn teledu, sy'n gyflym yn barod, yn parhau i gynyddu. Dechreuodd y broses o newid i ddigidol y llynedd ac erbyn hyn gall dros 87% o gartrefi gael teledu digidol. Mae gwasanaethau ar alw, gan gynnwys BBC iPlayer, yn pylu'r ffiniau rhwng teledu a'r rhyngrwyd ac mae sianelau newydd yn parhau i gael eu lansio. Mae hyn oll yn gwneud y gystadleuaeth am gynulleidfaoedd yn ddwysach, ac yn rhoi pwysau ar sianelau teledu 'llinellol' traddodiadol.

Ac mae mwy i ddod wrth i fand eang gynyddu mewn poblogrwydd ac wrth i'r broses o lwytho i lawr gyflymu, wrth i'r newid i ddigidol fynd rhagddo ac wrth i Freesat gael ei ddefnyddio.

Er bod yr amser a dreulir gan bobl yn gwylio'r teledu yn parhau i fod yn gymharol sefydlog, sef tua 3.5 awr y dydd, mae patrymau gwylio yn dod yn fwy darniog. Erbyn hyn treulir llai na dwy ran o dair o amser gwylio gyda'r pum sianel ddaearol (BBC One, BBC Two, ITV1, Channel 4 a Five). Ond mae'r holl ddarlledwyr hyn wedi creu portffolios o sianelau newydd ac mae cyrhaeddiad portffolio cyffredinol pob darlledwr wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. BBC One yw sianel fwyaf poblogaidd y DU o hyd ac rydym yn falch o nodi bod portffolio teledu'r BBC wedi cynyddu ei gyrhaeddiad i 85% o'r boblogaeth. Felly, mae teledu yn parhau i fod yn ganolog i gyflawni pwrpasau'r BBC ac mae ganddo'r gallu unigryw i ddwyn ynghyd gynulleidfaoedd mawr.

### Radio

Mae radio yn boblogaidd iawn o hyd: mae 90% o oedolion yn gwrando bob wythnos. Fodd bynnag, mae cyfraddau gwrando cyffredinol yn lleihau'n araf, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Mae pobl ifanc 15–24 oed yn gwrando bron deirawr yn llai yr wythnos na phum mlynedd yn ôl. Mae mantais Radio'r BBC dros radio masnachol wedi cynyddu gan fod gwrando ar orsafoedd masnachol wedi lleihau'n gymharol gyflymach.

Mae marchnad radio masnachol yn wynebu llawer o heriau. Fodd bynnag, yn wyneb ffigurau gwrando sy'n lleihau a mwy o gystadleuaeth gan gyfryngau ar-lein, mae refeniw hysbysebu radio wedi cynyddu pedwar chwarter yn olynol. Mae cyfuno wedi parhau a chaiff y diwydiant masnachol ei arwain gan ddau brif chwaraewr bellach.

Nid yw gorsafoedd digidol yn unig – gan gynnwys gorsafoedd y BBC – wedi gwneud argraff eto. Er eu bod yn tyfu, mae cyrhaeddiad ac ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd yn dal i fod yn fach. Ym mis Tachwedd lansiodd y llywodraeth Weithgor ar gyfer Radio Digidol i ystyried sut i hyrwyddo radio digidol a chynyddu ei boblogrwydd. Rhaid aros i weld a fydd dyfodiad yr ail amlblecs digidol cenedlaethol a arweinir gan Radio Channel 4 yn rhoi digon o hwb i'r farchnad i sicrhau ei dichonoldeb hirdymor.

*Wrth i'r rhyngrwyd ymuno â theledu a radio fel cyfrwng prif ffrwd, mae presenoldeb ar-lein y BBC yn dod yn bwysicach wrth wasanaethu grwpiau fel pobl ifanc 18–24 oed.*



*The Apprentice* yw un o r dewisiadau mwyaf poblogaidd i bobl sy n gwylio rhaglenni gyda BBC iPlayer.

17.2 MILIWN

Nifer defnyddwyr gwasanaeth rhyngrwyd bbc.co.uk bob wythnos yn y DU.

**Ar-lein**

Mae'r rhyngrwyd bellach yn rhan o fywyd bob dydd llawer o bobl yn y DU, yn enwedig pobl ifanc. Mae gan dros hanner y cartrefi gysylltiad band eang, ac mae arwyddion bod y rhyngrwyd ar ffonau symudol o bosibl ar fin dod yn boblogaidd. Mae band eang yn cynnig profiad llawer cyfoethocach – gwylio a rhannu fideos, chwarae gemau, rhwydweithio cymdeithasol – ac o ganlyniad mae pobl yn troi at y rhyngrwyd fwyfwy ar gyfer adloniant, nid dim ond gwybodaeth.

I ddarlledwyr, mae'r rhyngrwyd, sydd eisoes yn faes lle ceir cystadleuaeth ddwys, yn datblygu fwyfwy felly, er enghraifft, mae papurau newydd yn defnyddio eu safleoedd i ddangos fideos a chynnig podlediadau, gan droi eu hunain yn ddarlledwyr digidol i bob diben. Mae safleoedd rhannu fideos megis YouTube yn gystadleuaeth newydd ym maes adloniant. Wrth i'r rhyngrwyd ymuno â theledu a radio fel cyfrwng prif ffrwd, mae presenoldeb ar-lein y BBC yn dod yn fwyfwy pwysig i gyflawni ei bwrpasau cyhoeddus, yn enwedig ymhlith grwpiau megis pobl ifanc 18–24 oed sy'n treulio'r rhan fwyaf o amser ar-lein.

**Y BBC YN YR ECONOMI EHANGACH**

Mewn marchnadoedd cyfryngau newidiol mae trafodaeth bwysig i'w chynnal ar effaith (yn gadarnhaol ac yn negyddol) y BBC ar economi ehangach y DU. Er mwyn sicrhau bod y drafodaeth hon yn cael ei llywio'n briodol, comisiynwyd astudiaeth annibynnol eang gan PricewaterhouseCoopers (PwC), a chynhaliwyd seminar gydag arbenigwyr y diwydiant yn Ysgol Fusnes Llundain.

Mae astudiaeth PwC yn ymchwilio i'r manteision a'r costau i'r DU gyfan, a chyhyd â phosibl, i holl wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Bydd yn cwmpasu pethau megis effeithiau'r BBC ar farchnad ehangach y cyfryngau, ei effaith ar ansawdd, ei rôl fel comisiynydd rhaglenni gan gynhyrchwyr annibynnol, ei effaith ar gynnwys, ei rôl fel 'hyfforddwr i'r diwydiant', ei reolaeth o'r partneriaethau y mae'n ymwneud â hwy, ei hanes fel datblygwr technolegau newydd, graddau ei fuddsoddiad uniongyrchol yn y sector creadigol, ac effaith brand y BBC ar ddatblygu'r sector cyfan.

Disgwyliwn i'r astudiaeth gael ei chwblhau ym mis Gorffennaf 2008. Defnyddiwn y canlyniadau i lywio ein dyfarniadau ar flaenoriaethau a phenderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol a byddwn hefyd yn gofyn i Fwrdd Gweithredol y BBC ymateb i gasgliad yr Ymddiriedolaeth ar yr adroddiad. Bydd gennym ddiddordeb arbennig ym mhotensial y BBC i weithio'n amlach mewn partneriaeth â sector ehangach y cyfryngau.

**STRATEGAETH CYNNWYS NEWYDD AR GYFER Y BBC**

Yng nghyd-destun marchnadoedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym, a chefndir setliad ffi'r drwydded sy'n llai hael na'r hyn y gobeithiwyd amdano gan y Bwrdd Gweithredol, un o dasgau allweddol yr Ymddiriedolaeth eleni fu cymeradwyo strategaeth chwe blynedd y BBC ('Cyflwyno Dyfodol Creadigol'). Arweiniwyd ymarfer ailflaenoriaethu gennym a wnaeth ein galluogi i gymeradwyo strategaeth cynnwys ar gyfer y BBC gan gadw llawer o elfennau cynnig gwreiddiol ffi'r drwydded y BBC.

Derbyniwyd bod newidiadau cyflym mewn technolegau, marchnadoedd ac ymddygiad cynulleidfa yn gofyn am newid mawr mewn adnoddau – yn amodol ar brosesau cymeradwyo perthnasol – i'r hyn a gynigir ar-lein ac ar alw. Golygodd hyn fuddsoddi yn Web 2.0 a BBC iPlayer. Rydym wedi ystyried cryn dipyn o fanylion y buddsoddiad arfaethedig hwn yng nghyd-destun yr arolwg o wasanaeth bbc.co.uk (gweler tudalen 28). Bydd rhai cynigion – megis y rhai ar gyfer gwella'r hyn a gynigir ar y we yng nghyd-destun y Gwledydd a'r Rhanbarthau – yn amodol ar brawf gwerth cyhoeddus.

*Mynnwyd cael ymrwymiad clir gan reolwyr y BBC na fyddai unrhyw gynnydd yn lefel yr ailddarllediadau yn ystod oriau brig ar BBC One.*



Yr Ymddiriedolwyr Jeremy Peat, Mehmuda Mian Pritchard ac Alison Hastings yn ymweld â swyddfeydd y BBC ym Manceinion, ar gyfer cyfarfod yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2007.

3%

Y targed o ran arbedion effeithlonrwydd cylchol blynyddol canrannol a osodwyd gan yr Ymddiriedolaeth.

Rydym wedi cymeradwyo buddsoddiadau mewn drama, comedi ac adloniant ar y teledu – genres ag apêl eang. Hefyd cymeradwywyd rhywfaint o fuddsoddiad newydd mewn cynnwys a gynlluniwyd i gyrraedd grwpiau penodol o gynulleidfaoedd megis plant, pobl ifanc yn eu harddegau, yn ogystal â newyddiaduraeth i'r rhai y mae'r BBC yn ei chael yn anodd eu cyrraedd ar hyn o bryd, a hefyd yng nghyd-destun ieithoedd brodorol y DU. Yn olaf, cymeradwywyd buddsoddiad mewn cydberthynas fwy cydweithredol rhwng BBC Two a BBC Four fel cam pwysig tuag at wella rhaglennu ffeithiol y BBC – elfen nodedig o'i allbwn a werthfawrogir.

Er mwyn talu am y buddsoddiadau hyn cymeradwywyd cynnig y Bwrdd Gweithredol i ostwng lefel y rhaglennu gwreiddiol 10%. Gwnaethom hyn gan ddeall er y byddai'n golygu mwy o ailddarllediadau y tu allan i oriau brig y byddai o fudd i gynulleidfaoedd – ar yr amod bod rheolwyr yn comisiynu cynnwys a gaiff ei werthfawrogi'n arbennig gan gynulleidfaoedd ac y byddant yn croesawu'r cyfle i'w weld eto. Mae'r dull hwn o weithredu yn gyson â chanfyddiadau'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd ar agweddau cynulleidfaoedd at ailddarllediadau a nodwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd. Fodd bynnag, cawsom ymrwymiad clir gan y Bwrdd Gweithredol na fyddai unrhyw gynnydd yn lefel yr ailddarllediadau yn ystod oriau brig ar BBC One – ymrwymiad pwysig o ystyried y ffaith bod cynulleidfaoedd yn amlwg yn casáu ailddarllediadau yn ystod oriau brig.

**AMCANION YR YMDDIRIEDOLAETH AR GYFER Y BWRDD GWEITHREDOL**

Fel rhan o'n cymeradwyaeth i flaenstrategaeth y BBC rydym wedi gosod chwe amcan lefel uchel i'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyson â'n fframwaith o ran Cyrhaeddiad, Ansawdd, Effaith a Gwerth am Arian (gweler isod).

**Cyrhaeddiad**

**1 Dylai'r BBC gynnal y cyrhaeddiad mwyaf posibl sy'n gyson â'i bwrpasau a'i werthoedd**

Rhaid i'r BBC ddarparu rhywbeth y mae pawb yn y DU yn ei werthfawrogi. Mewn amgylchedd fwyfwy cystadleuol mae hyn yn debygol o ddod yn anoddach, felly er ein bod am sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl dim ond mewn ffordd sy'n gyson â phwrpasau a gwerthoedd y BBC y dylid gwneud hyn.

**Ansawdd**

**2 Dylai'r BBC geisio cynyddu natur nodedig ac ansawdd ei allbwn**

Mae gan gynulleidfaoedd ddisgwyliadau uchel o ran y BBC ac ansawdd ei allbwn. Mae ein gwaith ymchwil wedi datgelu gwendidau sylweddol yng ngallu'r BBC i wahaniaethu ei hun oddi wrth ddarlledwyr eraill drwy ddarparu cynnwys sy'n ffres ac yn newydd.

**3 Dylai'r BBC gynnal y canfyddiad o werth ymhlith cymeradwywyr uchel. Dylai'r BBC gynyddu'r canfyddiad o werth ymhlith cymeradwywyr canolig ac isel**

Ceir tystiolaeth glir o'n gwaith ymchwil bod rhannau sylweddol o'r gynulleidfa o'r farn nad yw'r BBC yn eu gwasanaethu mor dda ag y dylai fod yn gwneud. Rhaid i'r BBC fynd i'r afael â'r broblem hon, ond rhaid iddo hefyd gynnal canfyddiadau o werth ymhlith y rhai sy'n gymeradwywyr uchel ar hyn o bryd.

**4 Dylai'r BBC adfer ymddiriedaeth yn ei allbwn**

Ymddiriedaeth yw sylfaen cydberthynas y BBC â thalwyr ffi'r drwydded. Arweiniodd methiannau golygyddol y llynedd at lai o ymddiriedaeth yn y BBC ac mae'r BBC wedi dechrau gwneud iawn am hyn fel mater o frys.

**Effaith**

**5 Dylai'r BBC gynyddu'r gwaith o gyflawni ei bwrpasau**

Mae ein gwaith ymchwil wedi tynnu sylw at feysydd allweddol o wendid yng ngwaith y BBC o gyflawni ei bwrpasau (gweler tudalen 23) a chredwn fod yn rhaid i'r broses o gau'r bylchau hyn fod yn brif flaenoriaeth i weithredu strategaeth chwe blynedd y BBC.

**Gwerth am Arian**

**6 Dylai'r BBC gyflawni targedau effeithlonrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn o 3%**

Mae arian ffi'r drwydded yn fraint fawr i'r BBC ac mae ganddo ddyletswydd i sicrhau ei fod yn gwario arian cyhoeddus yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl. Credwn fod y targed effeithlonrwydd hwn, er yn heriol, yn gyflawnadwy. Byddwn yn cadw llygad agos ar gynnydd er mwyn sicrhau na chaiff ei gyflawni ar draul amrywiaeth o raglennu a chynnwys o ansawdd y mae cynulleidfaoedd yn eu disgwyl ac yn eu haeddu.

Ar gyfer pob amcan rydym wedi sefydlu cyfres lefel uchel o fesurau a ddefnyddir gennym i gadw llygad ar berfformiad yn chwarterol a chyflwyno adroddiad arno yn yr adroddiad blynyddol bob blwyddyn. Caiff yr arbedion eu hadolygu bob blwyddyn gan archwilwyr y BBC ac yn 2010 gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

*"Rhoddir gormod o sylw i Lundain a'r siroedd cyfagos ar y BBC – er enghraifft nid ydym wedi gweld yr un bluen eira yng Nghymru yr wythnos hon ac eto mae eira yn Llundain dros y newyddion i gyd."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.



Yr Ymddiriedolwyr yn ymgyfarwyddo ag allbwn BBC Scotland yn ystod ymweliad â Glasgow.

82%

Canran poblogaeth y DU sydd â diddordeb mewn newyddion am wledydd eraill yn y DU.

# Y BBC ledled y DU

Yn ogystal â newid technolegol, un o'r heriau mawr sy'n wynebu'r BBC ar hyn o bryd yw dod o hyd i ymatebion effeithiol i fap cyfansoddiadol newidiol y DU wrth i ddatganoli ymsefydlu'n ddyfnach yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac wrth i ranbartholdeb ddod yn bwysicach yn Lloegr. Mae sawl math o her. Mae cynulleidfaoedd ledled y DU yn amlwg yn dymuno gweld eu gwlad neu eu rhanbarth yn cael eu cynrychioli'n llawnach a chywirach. Nid dim ond ar lefel leol mae hyn, ond hefyd i weddill cynulleidfa'r DU drwy raglennu rhwydwaith. Mae pwysau cynyddol i symud mwy o gynhyrchu o Lundain – nid dim ond i weddill Lloegr, ond i'r gwledydd datganoledig hefyd. Mae awydd am fwy o raglennu yn ieithoedd brodorol y DU – eleni, er enghraifft, rydym wedi rhoi caniatâd amodol i lansio gwasanaeth teledu digidol mewn Gaeleg (gweler tudalen 45). A chreffir yn llawer mwy ar berfformiad pob darlledwr o ran ateb yr heriau hyn – er enghraifft, Comisiwn Darlledu'r Alban a sefydlwyd gan lywodraeth yr Alban yn 2007 i 'ymchwilio i gyflwr presennol cynhyrchu a darlledu ym maes teledu yn yr Alban a diffinio ffordd strategol ymlaen i'r diwydiant'. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd wedi sefydlu Comisiwn Darlledu i edrych ar ddyfodol darlledu cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Siarter yn gosod y pwrpas cyhoeddus canlynol sef 'Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau' ar y BBC ac mae'r cyfrifoldeb hwn yn un a gymerwn yn ddifrifol iawn fel Ymddiriedolwyr y BBC. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi lansio nifer o fentrau pwysig i sicrhau bod y BBC yn parhau i ymateb yn effeithiol yn y maes pwysig hwn. Mae'r BBC ar gyfer y DU gyfan a dylai adlewyrchu'r DU gyfan o ran ei allbwn a'i benderfyniadau buddsoddi.

**Arolwg y gwledydd o natur ddiduedd**

Un o'r negeseuon a gododd dro ar ôl tro yn ein cyfarfodydd cyhoeddus ac o'n gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd, yn ogystal â'n gwaith gyda Chynghorau Cynulleidfa'r BBC yn y pedair gwlad, fu pryder ynghylch y diffyg cynrychiolaeth canfyddedig o'r gwledydd mewn rhaglenni rhwydwaith a dim digon o ganolbwyntio ar y gwledydd datganoledig mewn newyddion rhwydwaith.

Felly penderfynwyd y dylai'r arolwg cyntaf o natur ddiduedd a gomisiynwyd gennym asesu a oedd allbwn newyddion a materion cyfoes rhwydwaith y BBC yn ddiduedd, yn gywir ac yn glir o ran pa ffeithiau a safbwyntiau a oedd yn berthnasol i'r gwledydd unigol ac ystyried a oedd polisïau'r gwledydd yn cael eu hadlewyrchu a'u hegluro'n gywir. Comisiynwyd Anthony King, Athro Llywodraeth ym Mhrifysgol Essex, i gynnal yr arolwg. Ategwyd ei waith gan ddadansoddiad o gynnwys gan Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd a gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd gan Swyddfa Ymchwil y Farchnad Prydain (BMRB).

Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu casgliad yr arolwg mai prin yw'r dystiolaeth, os o gwbl, nad yw darllediadau rhwydwaith y BBC yn y maes hwn yn deg neu'n ddiduedd. Caiff y BBC ei ganmol hefyd am fod yn ddiduedd o ran ei ddarllediadau o wleidyddiaeth a pholisi yn y pedair gwlad yn y DU. Mae'r casgliad hwn yn bwysig ac yn ganolog i ddyletswydd yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod allbwn y BBC yn ddiduedd.

Ac eithrio enghreifftiau o arfer da, fodd bynnag, ac wedi'i ategu gan ganfyddiadau gwaith ymchwil Caerdydd, mae'r arolwg yn tynnu sylw at y pryder nad yw rhaglenni newyddion a materion cyfoes y BBC at ei gilydd yn sôn am y DU newidiol gyda'r amrywiaeth a'r cywirdeb y gellid eu disgwyl yn rhesymol o ystyried y safonau uchel y mae'r BBC yn anelu at eu cyrraedd.

Mae pryderon penodol ynghylch cywirdeb ac eglurder gohebu, cydbwysedd y darlledu, a chyfleoedd a gollir i fanteisio ar amrywiaeth cyfoethog y DU a'i gyfleu i gynulleidfaoedd niferus. Er enghraifft, ystyrir bod darllediadau gwleidyddol yn canolbwyntio'n ormodol ar San Steffan o ran nifer ac arddull; ystyrir bod tuedd gyffredinol o blaid straeon am Loegr neu adrodd straeon o safbwynt Lloegr; a cheir tystiolaeth bod sawl stori yn y gwledydd a allai fod wedi bod yn bwysig i'r DU nas darlledwyd gan y rhwydwaith. Yn gyffredinol, daw'r Athro King i'r casgliad nad yw'r BBC wedi ymateb yn ddigonol nac yn briodol i bensaernïaeth newidiol y DU yn wleidyddol, yn gymdeithasol, yn economaidd nac yn ddiwylliannol.

Rhaid i'r gwendidau mawr a nodwyd gan yr Athro King gael eu hunioni. Yn rhannau olaf ei adroddiad, mae'r Athro King yn cynnig amrywiaeth o awgrymiadau a materion i'w hystyried i ddatrys y pryderon y mae wedi tynnu sylw atynt. Yn eu hymateb cychwynnol i'n harolwg, mae Rheolwyr y BBC wedi mynegi ymrwymiad i ymateb i'r pryderon pwysig dan sylw. Rydym wedi tynnu sylw at nifer o faterion y mae angen gweithredu arnynt ar unwaith o ran cywirdeb ac eglurder gohebu, cyfleoedd a gollir a chydbwysedd darlledu.

Rydym wedi gofyn i'r Bwrdd Gweithredol ddarparu cynllun terfynol erbyn mis Gorffennaf sy'n nodi sut y bydd yn cymryd y camau gweithredu arfaethedig yn ystod y flwyddyn nesaf. Byddwn yn gofyn i'r Cynghorau Cynulleidfa am eu cydweithrediad i gadw llygad ar lwyddiant y camau gweithredu a gymerir, ac o fewn 18 mis byddwn yn ailadrodd y gwaith ymchwil a wnaed i asesu cynnydd y BBC o ran gwella ei berfformiad yn y maes hwn. (Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Gynghorau Cynulleidfa a'u gweithgareddau, ar dudalennau 34–35. Mae'r map ar y dudalen gyferbyn yn dangos eu cylchoedd gwaith daearyddol.)

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan.

*"Mae lefel hoffter cyffredin tuag at y BBC yn amlwg yn is y pellaf y bydd pobl yn byw o Lundain."*



*Doctor Who* yw un o'r rhaglenni rhwydwaith niferus a wneir yng Nghymru ar hyn o bryd.

17%

Canran y targed ar gyfer cynyrchiadau'r rhwydwaith yn y gwledydd erbyn 2016, o gymharu â 7.7% yn 2007/08.

## Cynhyrchu mwy o gynnwys y tu allan i Lundain

Rydym am i'r BBC wneud cyfran sylweddol uwch o'i gynnwys y tu allan i Lundain nag a wneir ar hyn o bryd, a lleoli cyfran sylweddol uwch o'i staff y tu allan i Lundain nag a wneir ar hyn o bryd. Yn gyffredinol ein nod hirdymor yw sicrhau bod y BBC yn gwneud o leiaf gymaint o gynnwys yn y gwledydd â'r hyn sy'n adlewyrchu eu canran o'r boblogaeth yn y DU, a bod o leiaf 50% o staff y BBC wedi'u lleoli y tu allan i Lundain.


Ym mis Mai 2008 cymeradwywyd cynlluniau a fydd yn helpu i wireddu'r dyheadau hyn. Yn y dyfodol bydd y BBC yn defnyddio diffiniad Ofcom o gynyrchiadau rhwydwaith gan y gwledydd yn hytrach na'i ddiffiniad ei hun. Mae diffiniad Ofcom yn llawer mwy heriol: o dan y diffiniad blaenorol roedd 15.9% o gynyrchiadau rhwydwaith y BBC yn cael eu gwneud gan y gwledydd yn 2007/08; o dan ddiffiniad Ofcom 7.7% yw'r ganran.

Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gyda'i gilydd yn cyfrif am bron i 17% o boblogaeth y DU. Erbyn 2012, dylai cynyrchiadau rhwydwaith y gwledydd (yn ôl diffiniad Ofcom) gyrraedd 12% o leiaf o ran gwariant, gan gyrraedd y targed o 17% erbyn 2016 fan bellaf, pan ddaw'r Siarter bresennol i ben. Byddwn yn monitro'r targedau hyn yn ofalus i sicrhau bod y BBC yn helpu i greu cynyrchiadau cryf a chynaliadwy yn y tair gwlad. Byddwn hefyd yn edrych ar gynhyrchu yn rhanbarthau Lloegr.

Dechreuodd y Bwrdd Gweithredol adolygu cyflenwad cynnwys i rwydwaith teledu ym mis Medi 2007, gan ganolbwyntio ar sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ledled y DU. Disgwyliwn gael argymhellion terfynol yr arolwg yn ddiweddarach yn 2008.

### CYNYRCHIADAU RHWYDWAITH Y BBC LEDLED Y DU

| | |
|---|---|
| Yr Alban | 3.5% |
| Cymru | 3.2% |
| Gogledd Iwerddon | 1.0% |
| Cyfanswm y Gwledydd | 7.7% |
| Gogledd Lloegr | 8.9% |
| Canolbarth Lloegr | 4.0% |
| De Lloegr | 12.9% |
| Cyfanswm rhanbarthau Lloegr | 25.7% |
| Llundain | 66.6% |




Cynghorau Cynulleidfa Cenedlaethol
1–12 Lloegr
13 Yr Alban
14 Gogledd Iwerddon
15 Cymru

Ardaloedd Cynghorau Cynulleidfa Rhanbarthol
1 Gogledd-ddwyrain Lloegr
2 Gogledd-orllewin Lloegr
3 Swydd Efrog
4 Gorllewin Canolbarth Lloegr
5 Dwyrain Canolbarth Lloegr
6 Dwyrain Swydd Efrog a Swydd Lincoln
7 Dwyrain Lloegr
8 De-orllewin Lloegr
9 Gorllewin Lloegr
10 De Lloegr
11 Llundain
12 De-ddwyrain Lloegr

"Mae'n tawelu fy meddwl i raddau bod rhywun yn gwneud hyn... mae'n bwysig bod rhywun yn sicrhau y diwellir anghenion pawb hyd yn oed os nad yw unigolyn yn hoffi'r holl raglenni sydd ar gael."

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth i gynulleidfaoedd,
**Birmingham, Ebrill 2008**

# PERFFORMIAD Y BBC



*Sacred Music* enghraifft o allbwn ffeithiol arbenigol a gafodd ganmoliaeth uchel gan ei gynulleidfa.

*"Hoffwn ganfod pethau gwahanol ar y BBC ond mae'n tueddu i fod yn debyg yn fy marn i."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.

Fel Ymddiriedolwyr rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i holl bobl a holl gymunedau'r Deyrnas Unedig. Fel rhan o'r ddyletswydd hon, bob blwyddyn aseswn berfformiad y BBC yn erbyn y blaenoriaethau a osodwn i bennu a yw'r BBC yn defnyddio ei adnoddau'n dda ac yn darparu gwasanaethau a werthfawrogir gan y cyhoedd.

Yn y rhan hon o'n hadroddiad cyflwynwn ein hasesiad o berfformiad y BBC mewn nifer o feysydd fel a ganlyn:

**Cynnwys nodedig o ansawdd (tudalen 21)**

**Cyflawni pwrpasau'r BBC (tudalen 23)**

**Perfformiad gwasanaethau unigol (tudalen 24)**

**Perfformiad ariannol a busnes (tudalen 29)**

Wrth lunio ein casgliadau rydym hefyd wedi cael ein llywio gan safbwyntiau cynulleidfaoedd. Nodir y ffordd rydym wedi ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chrynodeb o'u safbwyntiau ar dudalen 33.

## Cynnwys nodedig o ansawdd

Yn adroddiad blynyddol y llynedd nodwyd bod ein gwaith ymchwil wedi dangos bod cynulleidfaoedd am i'r BBC wneud mwy i lunio syniadau ffres a newydd. Mae gwaith ymchwil pellach a wnaed yn 2007 wedi dangos nad yw cynulleidfaoedd am i'r BBC newid cyfeiriad yn radical, ond eu bod am iddo gynnig dewis amgen yn lle rhaglenni sy'n ceisio denu cymaint o wylwyr â phosibl, megis operâu sebon, rhaglenni trawsnewid, rhaglenni selebs a rhaglenni realiti sy'n rheoli amserlenni teledu yn gyffredinol yn eu barn hwy. Er bod teledu aml-sianel wedi cynyddu'r dewis sydd ar gael i wylwyr, cred cynulleidfaoedd fod hyn wedi lleihau swm ac amlygrwydd arlwy gwirioneddol amgen. Credir yn gryf y dylai'r BBC wneud mwy i gynnig y math hwn o raglennu.

Mae cynulleidfaoedd hefyd am i'r BBC roi mwy o amlygrwydd i'w raglennu gwreiddiol a nodedig. Mae ein gwaith ymchwil yn awgrymu y gallai'r BBC wneud mwy i hyrwyddo'r amrywiaeth llawn o'i bortffolio teledu presennol yn effeithiol. Pan gyfeiriodd ein hymchwilwyr at yr amrywiaeth a'r dyfnder sydd ar gael ar hyn o bryd ar holl sianelau teledu'r BBC, ymatebodd pobl yn gadarnhaol gan gydnabod bod y BBC yn dangos rhaglenni na allai darlledwyr eraill eu dangos neu na fyddent yn eu gwneud. Ond y gwir yw mai'r amser a dreulir yn gwylio BBC One a Two sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o gyfran wylio'r BBC – felly mae profiad gwirioneddol cynulleidfaoedd o'r amrywiaeth sydd ar gael yn fwy cyfyngedig.

Er mwyn ymchwilio i'r maes hwn ymhellach rydym wedi defnyddio data gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd presennol y Bwrdd Gweithredol i ystyried y rhaglenni teledu a ddarlledwyd yn 2007/08 yr oedd cynulleidfaoedd o'r farn eu bod o ansawdd uchel ac yn nodedig, ar sianelau'r BBC a sianelau masnachol. Defnyddiwyd data a raddiodd rhaglenni fel rhai 'gwreiddiol' a 'gwahanol' fel procsi ar gyfer nodweddion 'ffres' a 'newydd'. Ein nod wrth wneud hyn yw newid ffocws asesu perfformiad rhaglenni tuag at ansawdd a natur nodedig yn hytrach nag ymwneud â chyrhaeddiad a chyfraddau gwylio yn unig. Drwy gyhoeddi gwybodaeth am ba raglenni sy'n nodedig ac o ansawdd uchel ym marn cynulleidfaoedd, gobeithiwn y bydd hyn yn ysgogi trafodaeth ymysg rheolwyr a thu hwnt am y math o raglenni y mae cynulleidfaoedd am i'r BBC wneud mwy ohonynt.

Y rhaglenni o'r ansawdd uchaf a ddarlledwyd dros y flwyddyn ddiwethaf oedd y rhai yn ymdrin â phynciau ffeithiol arbenigol. Mae 91% o'r gynulleidfa yn cytuno'n gryf bod *Life in Cold Blood* yn rhaglen o ansawdd uchel tra cafodd *Tiger: Spy in the Jungle* a *The Life of Birds* lawer o glod hefyd. Ar wahân i fyd natur a bywyd gwyllt, mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi mathau eraill o allbwn ffeithiol arbenigol, yn enwedig gwyddoniaeth, er enghraifft *ATOM* ac *Earth: The Power of the Planet*, a hanes, *Sacred Music* a *The Art of Spain*. Mae digwyddiadau cerddorol hefyd yn cael sgôr uchel, yn enwedig *BBC Cardiff Singer of the World 2007* a *First Night of the Proms*. Rydym yn falch o nodi y bydd y Bwrdd Gweithredol yn buddsoddi £8 miliwn ychwanegol bob blwyddyn mewn allbwn ffeithiol arbenigol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar wyddoniaeth a hanes.

*"Mae rhai pethau a wnaed gan y BBC gyntaf fel Strictly Come Dancing. Roedd yn wreiddiol iawn ond cafodd ei gopïo'n ormodol."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.




Mae cynulleidfaoedd o r farn bod comedïau llwyddiannus fel *The Mighty Boosh* yn gwneud cyfraniad pwysig at natur nodedig y BBC.

*Mae clasuron megis University Challenge, Mastermind ac Antiques Roadshow yn cael eu hystyried yn rhan o'r hyn sy'n greiddiol i'r hyn ddylai'r BBC ei wneud.*

Mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi r cyfarwydd yn ogystal â r newydd.

O ran allbwn a gafodd ganmoliaeth uchel am fod yn nodedig, gwerthfawrogir rhaglenni dogfen unigol ac iddynt awdur hysbys ac allbwn ffeithiol. Ar y BBC, mae *Stephen Fry: The Secret Life of a Manic Depressive* yn enghraifft nodedig, ac ar sianelau masnachol, ystyriwyd bod *Autopsy: Emergency Room* (Channel 4), *Ross Kemp in Afghanistan* (Sky One), *Malcolm and Barbara: Loves Farewell* (ITV 1) a *Return of the Tribe* (five) oll yn deledu gwreiddiol iawn. Gellir hefyd ystyried fformatau hirsefydlog ac ailddarllediadau yn rhaglenni nodedig – roedd *The Royal Institution Christmas Lectures* ar five a *Fred Dibnah's World of Steam, Steel and Stone* ar BBC Two yn yr 20 uchaf o ran rhaglenni mwyaf nodedig 2007–08.

O ran drama'r DU, mae *Cranford*, *The State Within* a *Life on Mars* yn enghreifftiau nodedig, tra bo *Doctor Who* a *Spooks* yn parhau i fod o ansawdd. Mae'n bleser arbennig nodi llwyddiant dwy ddrama unigol, o ran ansawdd a natur nodedig, ar BBC One – *The No 1 Ladies Detective Agency* a *Ballet Shoes*. Mae cynulleidfaoedd hefyd yn gwerthfawrogi rhaglenni o ansawdd uchel o'r UD megis *The Sopranos* (Channel 4, E4) a *24* (Sky One).

Mae ein canfyddiadau hefyd yn dangos bod comedi yn gwneud cyfraniad pwysig i natur nodedig teledu. Ymhlith llwyddiannau'r BBC eleni mae *Outnumbered, The Mighty Boosh, The Thick Of It, QI, Extras*, a *Gavin and Stacey*. Gall cyfresi hirsefydlog hefyd wneud yn dda, yn benodol *Have I Got News For You*, er na wnaeth rhaglenni sgets traddodiadol eu naws, er iddynt sicrhau niferoedd uchel o wylwyr o hyd, gael eu graddio mor uchel o ran eu hansawdd a'u natur nodedig yn gyffredinol.

Rydym yn falch o nodi bod rhaglenni materion cyfoes yn cael eu hystyried yn rhai nodedig ac o safon yn gyffredinol. Ymhlith y rhain mae prif sioeau'r BBC sef *Panorama* a *Question Time*, tra bo cynulleidfaoedd hefyd yn gwerthfawrogi *Dispatches* ar Channel 4.

Gall gwedd newydd ar hen fformat hefyd fod yn nodedig. Roedd tymor bwyd Channel 4, a *Kill It, Cook It, Eat It* ar BBC Three yn enghreifftiau da o raglenni bwyd yr ystyriwyd eu bod yn nodedig ac o ansawdd uchel eleni. Mae rhai sioeau eiddo hefyd yn cael sgôr uchel, yn benodol *Grand Designs* ar Channel 4.

Ac nid yw gwylwyr o'r farn bod unrhyw genre yn un na all y BBC ymdrin ag ef yn y bôn – ar yr amod bod y BBC yn dilyn trywydd ffres. Er enghraifft, er y gall gwylwyr feirniadu sioeau selebs a sioeau realiti yn gyffredinol, maent yn cefnogi *Strictly Come Dancing* a *The Apprentice* yn gryf am fod eu naws, cynnwys a'r modd y'u cynhyrchir yn cael eu hystyried yn unol â gwerthoedd y BBC.

Mae ein gwaith ymchwil hefyd yn dangos bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi'r cyfarwydd yn ogystal â'r newydd. Mae clasuron megis *University Challenge*, *Mastermind* neu *Antiques Roadshow* yn cael eu hystyried yn rhan o'r hyn sy'n greiddiol i'r hyn ddylai'r BBC ei wneud.

Mae rhai themâu clir wrth edrych ar y rhaglenni sy'n denu'r nifer leiaf o wylwyr o ran ansawdd a natur nodedig. Mae'r rhaglenni hyn yn dueddol o gynnwys clipiau wedi'u hailbecynnu – er enghraifft sioeau rhestrau a chamgymeriadau yn ogystal â rhai sgîl-raglenni. Er i'r rhan fwyaf o'r rhaglenni hyn gael eu darlledu ar y sianelau masnachol, ymddangosodd rhai ar y BBC hefyd.

Bwriadwn ddefnyddio'r dadansoddiad o'r flwyddyn hon fel llinell sylfaen er mwyn cadw llygad ar ansawdd a natur nodedig rhaglenni teledu dros y blynyddoedd i ddod a byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y BBC yn y maes hwn yn agos.

Rydym yn falch o nodi bod Datganiad y Bwrdd Gweithredol o Bolisi Rhaglenni 2008/09 yn cydnabod yn benodol yr angen i BBC One gynnig rhaglenni nodedig sy'n diddanu cynulleidfaoedd ac yn rhoi mwynhad iddynt yn ogystal â syniadau ffres a newydd a bod ei gynlluniau strategol yn cynnwys ymrwymiad i roi mwy o bwyslais ar gomisiynu cynnwys nodedig ac arloesol o ansawdd uchel gan ddefnyddio syniadau newydd sy'n dangos uchelgais greadigol a golygyddol wirioneddol.

*"Y perygl yw os byddant yn canolbwyntio ar addysgu a hysbysu y byddant yn anghofio difyrru. I'r rhan fwyaf o bobl dylai teledu fod yn ddifyrrus."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.



Birmingham, Ebrill 2008. Mae digwyddiadau fel hyn yn galluogi Ymddiriedolwyr i glywed safbwyntiau cynulleidfaoedd ar wasanaethau r BBC yn uniongyrchol.

*Wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer y BBC defnyddiwyd gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd a nododd y meysydd hynny lle gallai'r BBC wneud yn well.*

# Cyflawni pwrpasau'r BBC

Mae'r Siarter yn gosod chwe phwrpas cyhoeddus ar gyfer y BBC. Rydym wedi eu trosi'n gylchoedd gwaith pwrpas sy'n diffinio ein blaenoriaethau i'r Bwrdd Gweithredol. Cafodd fersiwn terfynol y cylchoedd gwaith eu llunio ym mis Rhagfyr 2007 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus helaeth a gwaith ymchwil helaeth ar gynulleidfaoedd, a nododd y meysydd allweddol canlynol lle mae'r cyhoedd am i'r BBC wneud yn well:

- Mwy o raglenni sy'n ffres neu'n dangos syniadau newydd
- Rhaglenni newyddion ac addysg o ansawdd uchel sy'n hygyrch i bob cynulleidfa
- Gwasanaeth gwell i wledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU

Defnyddiwyd y gwaith ymchwil hwn fel sail i gytuno ar ddyraniad strategol ffi'r drwydded. Ym mis Ebrill 2008 cymeradwywyd cynlluniau'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer cyflawni'r cylchoedd gwaith pwrpas a byddwn yn eu defnyddio i lywio ein trafodaethau ynghylch perfformiad gyda'r Bwrdd Gweithredol yn y blynyddoedd i ddod.

Byddwn hefyd yn olrhain canfyddiadau cynulleidfaoedd o ran pa mor dda y mae'r BBC yn cyflawni ei bwrpasau. Er mwyn sefydlu mesurau sylfaenol, ym mis Chwefror 2008 gofynnwyd i gynulleidfaoedd pa mor dda y cyflawnwyd pob blaenoriaeth yn eu barn hwy. Mae'r canfyddiadau yn gyson â'r rhai o 2007 ar y cyfan a ddefnyddiwyd gennym i gymeradwyo cyfeiriad strategol y BBC.

Byddwn yn ailadrodd yr arolwg o gynulleidfaoedd yn 2009, ac yn ddiweddarach eleni byddwn yn cynnal gwaith ymchwil manwl pellach ar gynulleidfaoedd i'n helpu i asesu perfformiad. Caiff y canlyniadau eu cynnwys yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

**1 Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas waraidd**
Ar y cyfan, dengys ein canlyniadau fod cynulleidfaoedd yn cytuno bod y BBC yn darparu allbwn newyddion a materion cyfoes yn dda, ac yn fwy tebygol o enwi gwasanaeth newyddion gan y BBC yn hytrach na gwasanaeth gan ddarlledwyr eraill fel yr un sy'n sefyll allan iddynt. Fodd bynnag, mae pobl iau mewn grwpiau cymdeithasol is yn llawer llai tebygol o gytuno bod y BBC yn gwneud rhaglenni newyddion a materion cyfoes sy'n eu diddori. Felly, y brif her yw ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd heb beryglu cefnogaeth cynulleidfaoedd presennol. Rydym wedi cymeradwyo cynlluniau'r Bwrdd Gweithredol i atgyfnerthu darpariaeth ar alw, cynyddu'r pwyslais ar ansawdd a natur nodedig a rhoi gwerth i bob cynulleidfa. Mae'r bwletin newyddion 90 eiliad newydd am 8pm ar BBC One yn fenter wreiddiol i helpu i gyflawni'r nodau hyn.

**2 Hyrwyddo addysg a dysgu**
Mae cynulleidfaoedd o'r farn bod addysg yn un o gryfderau allweddol y BBC gyda 70% o bobl yn cytuno eu bod wedi dysgu pethau newydd tra'n mwynhau cynnwys ar y BBC. Ac mae 70% o'r rhai sy'n gyfrifol am blant neu'r rhai yn eu harddegau sydd o dan 18 oed yn cytuno bod y BBC wedi helpu i ategu anghenion addysgol y grŵp oedran hwn. Nodwn fod cynulleidfaoedd o'r farn bod BBC Bitesize yn arbennig yn enghraifft dda yn y maes hwn. Ym mis Rhagfyr 2007, cymeradwywyd mewn egwyddor y cyfeiriad strategol ar gyfer dysgu sy'n seiliedig ar gynnig ffres ar sail sgiliau. Byddwn yn ystyried cais y Bwrdd Gweithredol am hyn yn fanwl yn ddiweddarach yn 2008.

**3 Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol**
Er yr ystyrir bod darparu adloniant o ansawdd uchel yn un o gryfderau perthynol y BBC, erys pryderon ynghylch darparu rhaglenni ffres a newydd. Dim ond hanner y rhai a arolygwyd gennym yn 2008 a gytunodd fod y BBC yn gwneud hyn, gan ostwng hyd yn oed ymhellach ar gyfer dynion iau. Rydym wedi cytuno â'r Bwrdd Gweithredol fod darparu cynnwys nodedig yn flaenoriaeth uchel yn y cyfnod i ddod. Rydym yn falch o weld bod yr uchelgais hon yn dechrau cael ei hadlewyrchu yng nghynlluniau rhaglenni'r BBC ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4 Cynrychioli'r DU, ei gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau**
Mae cynulleidfaoedd ledled y DU o'r farn y gallai'r BBC wneud mwy i wasanaethu eu gwlad neu eu rhanbarth yn ogystal â chyflwyno eu gwlad neu eu rhanbarth i weddill y DU. Rydym wedi nodi'n glir bod yn rhaid i'r BBC wasanaethu ei holl gynulleidfaoedd. Ymhlith y mentrau sydd ar waith i wella perfformiad mae cynyddu rhaglennu o bob cwr o'r DU a ddarlledir ar y rhwydwaith a chynrychioli gwledydd a rhanbarthau'r DU yn fwy effeithiol ar newyddion rhwydwaith. Byddwn yn ystyried cynnig y Bwrdd Gweithredol i atgyfnerthu darpariaeth ar alw i gymunedau lleol yn ystod 2008.

**5 Cyflwyno'r DU i'r byd a'r byd i'r DU**
Ym marn cynulleidfaoedd mae hyn yn un o gryfderau gwirioneddol y BBC, yn enwedig o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am yr hyn sy'n digwydd yn y byd ehangach a'u helpu i werthfawrogi diwylliannau a ffyrdd o fyw gwahanol. Soniwn am berfformiad World Service ar dudalen 27.

**6 Cyflwyno buddiannau technolegau cyfathrebu newydd**
I'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau penodol megis bbc.co.uk, BBCi a radio DAB, gwerthfawrogir y cynnwys a ddarperir gan y BBC ar y gwasanaethau hyn yn fawr iawn. Rydym wedi cymeradwyo nifer o fentrau eleni i helpu i gyflawni'r pwrpas hwn. (Gweler tudalen 31.)

*Mae cynulleidfaoedd yn cydnabod bod BBC Four yn darparu allbwn sy'n 'wreiddiol ac yn wahanol' ac yn 'lle i ddysgu'.*



Mae BBC One wedi adfywio r slot 7pm yn ystod yr wythnos gyda *The ONE Show*.

23%

Nifer y bobl 16  34 oed sy n gwylio BBC Three bellach, o gymharu â 17% yn 2006/07.

# Perfformiad gwasanaethau unigol

**TELEDU**

Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o BBC One yn dueddol o newid yn unol â chanfyddiadau cyffredinol o'r BBC – sy'n adlewyrchu statws BBC One fel prif ddarparwr allbwn y Gorfforaeth. Felly, gall y lleihad mewn canfyddiadau a gofnodwyd ddiwedd haf 2007 adlewyrchu'r pryderon ynghylch ymddiriedaeth ar y pryd. Rydym yn falch o nodi, ers mis Hydref 2007, fod lefelau ymddiriedaeth a chymeradwyaeth ar gyfer BBC One wedi gwella ac erbyn mis Mawrth 2008 roeddent wedi cyrraedd lefelau tebyg i fis Ebrill 2007.

Rydym hefyd yn falch o nodi i gynulleidfa gyffredinol BBC One aros yn sefydlog, gan wrthdroi gostyngiad tymor hwy mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag mae cynulleidfaoedd iau wedi parhau i leihau. Mae nifer y gwylwyr 16–34 oed wedi lleihau tuag 1.5%.

Cylch gwaith sianel BBC One yw sicrhau mai hi yw gwasanaeth teledu genre cymysg mwyaf poblogaidd y BBC, gan gynnig amrywiaeth eang o raglenni o ansawdd uchel. Ymhlith drama ac adloniant cofiadwy BBC One roedd *The Street, The No 1 Ladies Detective Agency* a *Strictly Come Dancing*. Yr her sy'n wynebu'r sianel yw cyrraedd yr entrychion hyn yn amlach, ac osgoi unrhyw risg o beidio â bod yn newydd a ffres drwy ddarparu adloniant a drama ffres sy'n cyfleu ansawdd uchel ac uchelgais greadigol. Ni ddylai'r sianel or-ddibynnu ar deitlau sefydledig.

Mae cylch gwaith BBC One hefyd yn cynnwys allbwn ffeithiol o ansawdd uchel. Mae'r sianel wedi adfywio'r slot 7pm yn ystod yr wythnos gyda *The ONE Show* ac mae wedi denu cynulleidfaoedd mawr i brif gyfresi megis *Life in Cold Blood* a *Tiger: Spy In The Jungle*. Fodd bynnag, mae'r sianel yn wynebu heriau i ddenu cynulleidfaoedd yr un mor fawr i allbwn ffeithiol arbenigol ar gyfer pynciau megis gwyddoniaeth, hanes a'r celfyddydau.

Mae cynulleidfaoedd BBC Two wedi tyfu eleni, gan wrthdroi dirywiad hirdymor. Mae cyrhaeddiad i gynulleidfaoedd iau (16–34 oed) wedi cynyddu gyda nifer o raglenni'n apelio ar draws grwpiau oedran yn llwyddiannus. Mae BBC Two hefyd wedi cael llwyddiant o ran defnyddio ailddarllediadau naratif i gynyddu cyrhaeddiad cynulleidfaoedd megis *Natural World*. Disgwyliwn i'r dull hwn gael ei ddefnyddio yn fwy wrth i'r BBC geisio sicrhau'r gwerth gorau o allbwn ansawdd uchel.

Yr her sy'n wynebu sianel BBC Two yw cynnal ei hapêl i gynulleidfaoedd tra'n cyflawni ei hymrwymiad i ddarparu rhaglenni â dyfnder a sylwedd. Er mai BBC Two yw sianel gryfaf y BBC o ran y celfyddydau, hanes a gwyddoniaeth, mae canfyddiad cynulleidfaoedd ohoni fel sianel ar gyfer adloniant a rhaglenni ffordd o fyw a hamdden hefyd yn cynyddu. Mae ein gwaith ymchwil ar ansawdd a natur nodedig (tudalen 21) yn awgrymu bod cynulleidfaoedd o'r farn bod BBC Two yn dod yn fwyfwy prif ffrwd. Mewn egwyddor rydym wedi cymeradwyo cynnig y Bwrdd Gweithredol i BBC Two feithrin cydberthynas agos â BBC Four er mwyn cyflwyno deunydd o ansawdd uchel i gynulleidfa ehangach. Byddwn yn ymdrin yn fanwl â rôl BBC Two fel rhan o'n harolwg o'r portffolio teledu gan ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Mae BBC Three wedi perfformio'n dda o ran cyrhaeddiad sydd tua 17% bellach. Mae bron un o bob pedwar o bobl 16–34 oed yn gwylio'r sianel erbyn hyn. Mae BBC Three wedi parhau i ddatblygu ei enw da cryf am gomedi gwreiddiol, yn benodol *The Mighty Boosh* a *Gavin and Stacey*, ac mae wedi datblygu nifer o frandiau rhaglenni ffeithiol cryf megis *Kill it, Cook it, Eat it*. Mae nifer y gwylwyr ar gyfer slot 7pm yn peri pryder o hyd ac mae'n rhannol adlewyrchu diffyg cynulleidfa etifeddol BBC Three ar yr adeg honno.

Yn adroddiad y llynedd codwyd y mater ynghylch teitlau rhaglenni BBC Three ac ers hynny rydym wedi trafod hyn gyda'r Bwrdd Gweithredol. Er mai'r rheolwyr sydd yn amlwg yn gyfrifol am benderfynu ar enwau rhaglenni, cytunwyd y gallai defnyddio teitlau 'sioc' gyfyngu ar nifer y bobl sy'n gwylio'r sianel yn y tymor hwy a thynnu sylw cynulleidfaoedd oddi ar gynnwys y rhaglen. Byddwn yn ystyried rôl BBC Three fel rhan o'n harolwg o wasanaethau i bobl ifanc a fydd yn dechrau'n ddiweddarach eleni.

Mae BBC Four yn perfformio'n arbennig o gryf o ran canfyddiadau cynulleidfaoedd gan ddarparu allbwn sy'n 'wreiddiol ac yn wahanol' ac yn 'lle i ddysgu'. Erbyn hyn mae'n cyrraedd 7% o'r boblogaeth er bod cynulleidfaoedd yn fwy ymwybodol o'r sianel ei hun na rhaglenni neu gyfres unigol. Gall hyn olygu nad yw'r allbwn yn cael ei wylio gan y gynulleidfa fwyaf eang bosibl. Dylai'r gydberthynas agosach rydym wedi ei chymeradwyo rhwng BBC Four a BBC Two helpu i feithrin ymwybyddiaeth ac ehangu cyrhaeddiad rhaglenni BBC Four. Byddwn yn edrych ar rôl BBC Four yn fanwl fel rhan o arolwg portffolio teledu'r flwyddyn nesaf.

Mae BBCi yn parhau i chwarae rhan bwysig i ddarparu amrywiaeth o allbwn anlinellol drwy'r botwm coch. Byddwn yn ystyried dyfodol BBCi ar ôl cael cynigion y Bwrdd Gweithredol i ad-drefnu gwasanaethau'r BBC ar y llwyfan Teledu Daearol Digidol ac fel rhan o arolwg portffolio teledu'r BBC y flwyddyn nesaf.

Noda'r Ymddiriedolaeth berfformiad cryf sianelau plant CBBC a CBeebies o ran cyrhaeddiad cynulleidfa a'r gyfran o'r gynulleidfa. Caiff y ddwy eu gwylio gan gyfran sylweddol o'u cynulleidfa darged – perfformiad da o ystyried eu bod yn cystadlu yn erbyn mwy nag 20 o sianelau plant mewn cartrefi lloeren a chebl. Dylid hefyd nodi bod CBeebies yn cael ei hystyried yn glir fel y sianel cyn ysgol orau yn erbyn nifer o fesurau ansawdd.

*"Mae'n agos iawn at fy nghalon. Byddwn yn colli'r radio yn fwy nag unrhyw beth."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.



Radio 4 sy n sicrhau r nifer fwyaf o oriau gwrando ar gyfartaledd o blith unrhyw un o orsafoedd y BBC.

17%

Y ganran wrando ar gyfer gorsafoedd radio r BBC drwy lwyfannau digidol.

Mae CBBC yn wynebu cystadleuaeth lem gan sianelau masnachol sy'n canolbwyntio'n arbennig ar grwpiau penodol o blant. Yn ein harolwg o bbc.co.uk eleni, nodwyd bod y broses o ail-lansio gwefan CBBC ddiwedd 2007 yn ymddangos fel petai wedi ysgogi ymateb negyddol ymhlith ei defnyddwyr i gychwyn. Mae hyn yn dangos pa mor anodd yw bodloni cynulleidfa o blant ac edrychwn ymlaen at ddeall mwy am y gynulleidfa bwysig hon a sut mae'r BBC yn darparu ar ei chyfer fel rhan o'n harolwg o wasanaethau plant, sydd bellach yn mynd rhagddo.

### RADIO

Mae gorsafoedd radio rhwydwaith y BBC yn parhau i berfformio'n gryf yn gyffredinol, gan gyrraedd dwy ran o dair o oedolion y DU bob wythnos. Mae gwrandawyr yn defnyddio llwyfannau digidol yn gynyddol, megis DAB ac ar-lein, i wrando'n fyw neu wrando eto.

Mae cyrhaeddiad a chyfran **Radio 1** ill dau wedi tyfu yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ac rydym yn falch o nodi, ynghyd â'r poblogrwydd cynyddol hwn, fod ei henw da fel gorsaf ar gyfer cerddoriaeth newydd, cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth o'r DU yn gryf o hyd. Mae cyrhaeddiad ymhlith y gynulleidfa darged hefyd wedi tyfu yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'r orsaf bellach yn cyrraedd ychydig dros 5 miliwn o bobl 15–29 oed. Byddwn yn edrych yn fanylach ar y ffordd mae Radio 1 a 1Xtra yn gwasanaethu cynulleidfaoedd iau yn ein harolwg o wasanaethau a chynnwys y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd iau yn ddiweddarach eleni. Bwriedir i lansiad rhaglenni newydd sy'n targedu plant a phobl ifanc yn eu harddegau o dan faner 'Switch' apelio'n uniongyrchol at gynulleidfa nas gwasanaethir yn ddigonol.

**Radio 2** yw'r orsaf fwyaf poblogaidd yn y DU o hyd. Er bod ei chyrhaeddiad wedi gostwng fymryn eleni, mae ei chyfran o'r gynulleidfa wedi bod yn sefydlog ac mae cymeradwyaeth gwrandawyr i'r orsaf wedi cynyddu. Mae ei gwrandawyr yn canmol y rhwydwaith yn fawr am ansawdd ei raglenni a'r amrywiaeth eang o gerddoriaeth a chwaraeir ganddo. Nodwn y gwaith a wnaed gan Radio 2 i ddatblygu talent a rôl yr orsaf i ddatblygu artistiaid newydd drwy 'Music Club Introduces...'.

Mae lefel cymeradwyaeth **Radio 3** wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond mae ei chyrhaeddiad a'i horiau gwrando ar gyfartaledd yn lleihau. Nid yw newidiadau i amserlenni a wnaed yn 2007 wedi cynyddu cyrhaeddiad hyd yma – 1.9 miliwn ydyw o hyd. Byddwn yn parhau i gadw llygad ar berfformiad y gwasanaeth yn sgîl y tueddiadau hyn, ond nodwn fod yr unig orsaf radio cerddoriaeth glasurol arall yn y DU, Classic FM, hefyd yn wynebu dirywiad mewn cyrhaeddiad a chyfran a allai fod o ganlyniad i wrando ar Radio 2 a Radio 4 yn fwy.

Mae **Radio 4** yn parhau i fireinio ei hallbwn yn llwyddiannus. Mae wedi cynnal ei chyrhaeddiad wythnosol, tra bod ei chyfran o oriau gwrando wedi cynyddu fymryn. Yr orsaf hon sy'n sicrhau'r nifer fwyaf o oriau gwrando ar gyfartaledd o blith unrhyw un o orsafoedd y BBC: ychydig o dan 13 awr yr wythnos. Mae'r orsaf yn uchel ei bri ymhlith ei gwrandawyr o hyd. Mae ganddi'r sgoriau cymedr uchaf yn erbyn nodweddion darlledu cyhoeddus o blith yr holl wasanaethau radio a arolygwyd, a chafodd y sgôr uchaf am 'raglenni o ansawdd uchel a wnaed yn dda.' Sefydlogwyd lleihad mewn cyrhaeddiad ymhlith pobl 35–55 oed i ryw raddau ond mae angen canolbwyntio ar hyn yn barhaus. Nodwn fod cyfran uchel o wrandawyr yn gwrando'n fyw yn ddigidol, gyda'r mwyafrif yn gwrando drwy radio digidol DAB. Mae gwrando ar-lein yn fyw yn cynyddu'n gyflym ac yn gyflymach nag unrhyw un o orsafoedd radio eraill y BBC. Mae podlediadau wedi dod yn boblogaidd iawn ac nid ymddengys fod hyn wedi effeithio ar lefelau cyrhaeddiad yn gyffredinol. Yn wir, ceir rhywfaint o dystiolaeth gynnar bod y rhai sy'n 'gwrando eto' ar y rhyngrwyd bellach yn gwrando ar fwy o radio byw.

Mae maint cynulleidfa **Radio 5 live** yn eithaf dibynnol ar y calendr chwaraeon. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad blynyddol yr orsaf ar gyfartaledd wedi lleihau tra bod y gyfran wedi cynyddu fymryn. Er bod cymeradwyaeth yn gryf ar y cyfan, bu gostyngiad yng nghyfran y cymeradwywyr uchel, ac mae enw da'r gwasanaeth fel y gorau am chwaraeon wedi dirywio ychydig. Nodwn fod yr orsaf yn adeiladu cronfa o wrandawyr digidol yn llwyddiannus, gan leihau ei dibyniaeth ar ddarlledu ar y donfedd ganol. Rhaid aros i weld a fydd hyn yn helpu'r gwasanaeth i sefydlogi ei chyrhaeddiad dros amser.

Mae **gwrando ar radio digidol** yn tyfu'n raddol. Gwrandewir ar orsafoedd y BBC drwy lwyfannau digidol bellach mewn dros 17% o achosion – DAB yn arbennig. Mae gwrando ar bodlediadau hefyd yn cynyddu. Fodd bynnag, gwrando ar wasanaethau analog y BBC (Radio 1, 2, 3, 4 a 5 live) a wneir drwy radio digidol yn y mwyafrif helaeth o achosion. Bach o hyd yw'r ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau digidol yn unig hefyd: dim ond 41% o'r boblogaeth sydd wedi clywed amdanynt, hyd yn oed pan ofynnir iddynt amdanynt, ac mae pryderon wedi cynyddu ynghylch dyfodol DAB yn y farchnad radio masnachol.

**BBC7** yw'r orsaf ddigidol fwyaf poblogaidd ar y BBC o hyd a'r gwasanaeth radio digidol yn unig y gwrandewir arno fwyaf yn y DU namyn dau. Rydym yn adolygu darpariaeth BBC7 i blant fel rhan o'n harolwg plant.

Mae **BBC 6** a **1Xtra** wedi cynyddu eu cynulleidfa dros y flwyddyn ond dim ond tua hanner miliwn o wrandawyr yr wythnos maent yn eu denu o hyd. Mae 1Xtra wedi adnewyddu ei hamserlen ac mae'n dal i fod yn ymrwymedig i gynnig rhaglennu llafar i'w chynulleidfa darged, ynghyd ag amrywiaeth nodedig o gerddoriaeth. Mae cynulleidfa a phresenoldeb **Radio 5 live Sports Extra** ar yr amlblecs yn amrywio yn ôl y tymor. Mae ganddi'r gallu i sicrhau lefelau uchel o gyrhaeddiad ond mae'r rhain yn gostwng pan gaiff llai o oriau eu darlledu. Nodwn amcan

*"Mae'r sylw a roddant i newyddion sy'n digwydd ar y pryd yn wych. Maent yno pan fydd pethau'n digwydd. Maent yn adrodd straeon fel y maent. Nid wyf yn credu eu bod yn camliwio pethau."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.



Mae BBC Newyddion yn perfformio n dda iawn o ran cynnal cyrhaeddiad ar deledu a radio.

2.8 MILIWN

Nifer y bobl sy n gwrando ar un o r 39 o orsafoedd lleol ac nad ydynt yn gwrando ar unrhyw radio rhwydwaith arall ar y BBC.

y rheolwyr i feithrin ymwybyddiaeth o Sports Extra. Nodwn nad yw cyrhaeddiad, cyfran nac amser gwrando yn tyfu o ran **BBC Asian Network** er gwaethaf twf cyffredinol y farchnad DAB. Mae rheolydd newydd bellach wedi'i benodi a disgwyliwn ganlyniad ei newidiadau arfaethedig i'r amserlen.

### RADIO LLEOL A RADIO'R GWLEDYDD

Mae **gorsafoedd radio lleol y BBC yn Lloegr** yn darparu newyddion a gwybodaeth leol a werthfawrogir yn fawr i gynulleidfaoedd a all deimlo weithiau na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol gan weddill y BBC. Mae'r 39 o orsafoedd gyda'i gilydd yn cyrraedd 2.8 miliwn o bobl nad ydynt yn gwrando ar unrhyw radio rhwydwaith arall ar y BBC. Fodd bynnag, mae gorsafoedd radio lleol y BBC yn wynebu'r her o barhau i apelio a bod yn berthnasol a bod yn nodedig o hyd o fewn marchnadoedd lleol a phortffolio radio'r BBC. Cyrhaeddiad wythnosol cyfunol y 39 o orsafoedd radio lleol oedd 19% o oedolion ar gyfartaledd yn 2007/08. Mae cyrhaeddiad a chyfran wythnosol ar gyfartaledd wedi bod yn gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae rhai gwasanaethau sy'n gwasanaethu dinasoedd yn dangos dirywiad penodol fel gwasanaethau masnachol lleol. Nodwn hefyd fod cyfran y cymeradwywyr uchel ar gyfer radio lleol Lloegr yn ymddangos fel petai wedi cynyddu ychydig i 65% yn y flwyddyn ddiwethaf.

**BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle** yw'r orsaf radio y gwrandewir arni fwyaf yng Ngogledd Iwerddon gan gyrraedd dros 38% o oedolion a chymryd dros 20% o'r gyfran wrando. Fe'i gwerthfawrogir yn fawr iawn ac mae ei sgôr cymeradwyaeth yn sylweddol uwch na sgôr y BBC yn gyffredinol yng Ngogledd Iwerddon. Mae ei chyfran o gymeradwywyr uchel yn gyson uwch na gwasanaethau radio eraill y gwledydd.

Mae cyrhaeddiad **BBC Radio Wales** wedi lleihau eleni, er bod ei chyfran wrando wedi cynyddu. Nodwn y newidiadau diweddar i'w hamserlen yn ystod y dydd. Mae cyrhaeddiad a chyfran **Radio Cymru** ill dau wedi lleihau dros y ddwy flynedd ddiwethaf a nodwn fod ei chyrhaeddiad i bob oedolyn yn ei hardal ddarlledu ychydig dros 6.2% yn unig erbyn hyn.

Mae **Radio Scotland** yn cynnig amrywiaeth eang o genres llafar, chwaraeon a cherddorol a gwneir newidiadau i'w moderneiddio a'i hadnewyddu. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad a chyfran Radio Scotland wedi lleihau'n sylweddol ac mae hyn yn peri pryder. Roedd cyrhaeddiad Radio Scotland yn is yn 2007/08, o 23.1% i 21.5%, ac mae ei chyfran wrando wedi gostwng i 8% hefyd. Gall hyn fod oherwydd mwy o gystad leuaeth gan radio masnachol ond gall fod wedi colli gwrandawyr i BBC Radio 2 a Radio 4 hefyd. Fodd bynnag, nodwn fod cyfran ei gwrandawyr sy'n 'gymeradwywyr uchel' i'r orsaf wedi tyfu eleni. Mae'r orsaf hefyd yn cael ei chanmol am ansawdd a natur nodedig ei rhaglenni.

Am nad yw o fewn cwmpas RAJAR, prin yw'r data sydd gennym ar berfformiad **Radio nan Gàidheal**, ond fe'n calonogir gan waith ymchwil ar gynulleidfaoedd a phatrymau gwrando sy'n dangos bod y cyrhaeddiad yn sefydlog flwyddyn ar ôl blwyddyn.

### NEWYDDIADURAETH

Fe'n calonogir gan y ffaith bod BBC Newyddion yn perfformio'n dda iawn o ran cynnal cyrhaeddiad ar deledu a radio, ac mae'n parhau i gynyddu cyrhaeddiad ar-lein ac ar ddyfeisiau symudol. Ategwyd cyrhaeddiad BBC Newyddion gan berfformiad cryf Radio 1 a Radio 2 amser brecwast. Mae hyn wedi arwain at gynnydd cyffredinol yng nghyrhaeddiad BBC Newyddion ar y radio – gan gynnwys ymhlith rhywfaint o'r gynulleidfa y mae'r BBC wedi ei chael yn anodd ei chyrraedd yn draddodiadol.

Gwnaeth problemau golygyddol ehangach y BBC yn ystod haf 2007 effeithio dros dro ar ganfyddiadau'r cyhoedd o BBC Newyddion – er na ddeilliodd yr un o'r rhain o gamau a gymerwyd gan yr is-adran Newyddion. O ran bod yn ddiduedd, mae canfyddiadau'r cyhoedd yn sefydlog flwyddyn ar ôl blwyddyn. Dywed tri chwarter y gynulleidfa ei bod yn ymddiried yn rhaglenni newyddion y BBC i gyflwyno barn deg, hyddysg a chytbwys am ddigwyddiadau a materion pwysig. Mae canfyddiadau cynulleidfaoedd o ran y graddau y gellir ymddiried yn y BBC yn sefydlog flwyddyn ar ôl blwyddyn.


Er bod sianel BBC News (News 24 gynt) ymhell ar y blaen i Sky News erbyn hyn o ran nifer y gwylwyr, nodwn fod Sky News yn parhau i fod yn uchel ei bri ymhlith gwylwyr am gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n rhoi llawer o wybodaeth.

Croesawn gyflwyniad y bwletin am 8pm ar BBC One fel ffordd arloesol o gyrraedd cynulleidfaoedd na fyddent fel arall efallai yn dewis gwylio newyddion. Fe'n hanogir hefyd gan berfformiad cryf newyddion BBC One am 10pm. Rydym wedi cynnal trafodaeth â'r rheolwyr ynghylch yr angen i gydbwyso ymateb i ddiddordeb cryf y cyhoedd yn y straeon mawr am droseddau â'r ddyletswydd i gynnwys amrywiaeth o bynciau eraill. Rydym yn fodlon bod y rheolwyr yn deall ein pryderon ac y byddant yn anelu at sicrhau'r cydbwysedd cywir yn y dyfodol.

Cefnogwn ymrwymiad y Bwrdd Gweithredol i gynnig amrywiaeth o straeon materion cyfoes o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd prif ffrwd drwy gadw *Panorama* yn ei slot 8.30pm ac fe'n hanogwyd gan yr amrywiaeth o bynciau a gwmpesir a'u natur. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw allbwn materion cyfoes ar BBC Two – *This World* yn benodol – yn cael cynulleidfaoedd cryf, er gwaethaf y ffaith ei bod yn gwneud yn dda o ran ennill gwobrau'r diwydiant. Rydym wedi gofyn i'r rheolwyr ystyried sut y gallai'r rhaglenni hyn gael mwy o amlygrwydd ar BBC Two a nodwn yr ymrwymiad yn Natganiad y Bwrdd Gweithredol o Bolisi Rhaglenni 2007/08 i arbrofi gyda dulliau newydd o weithredu er mwyn cynyddu effaith allbwn materion tramor BBC Two.

*O fewn gwasanaethau ar-lein y BBC rhoddir canmoliaeth uchel i ansawdd newyddion, chwaraeon a CBeebies.*

Defnyddio mesur ansawdd newydd: Graddau eiriolaeth hyrwyddwyr net.



Gwragedd Affgan yn gwrando ar radio BBC World Service.

182 MILIWN

Nifer y bobl sy'n gwrando ar BBC World Service bob wythnos.

**BBC WORLD SERVICE**

Ariennir y World Service gan Gymorth Grant seneddol yn hytrach na ffi'r drwydded. Rôl yr Ymddiriedolaeth yw cytuno ar amcanion hirdymor a'u cyhoeddi ar y cyd â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad a chymeradwyo strategaeth lefel uchel. Ym mis Mehefin 2007 cyhoeddwyd Cytundeb Gweithredu'r World Service gennym, sy'n cyfateb i'r trwyddedau gwasanaeth a roddir gennym ar gyfer gwasanaethau'r BBC yn y DU. Ymhlith digwyddiadau allweddol y flwyddyn roedd lansio BBC Arabic TV ym mis Mawrth 2008, a throsglwyddo'r wefan newyddion Saesneg ryngwladol i weithrediadau masnachol fel BBCNews.com.

Nodwn fod y World Service wedi cynnal ei gyrhaeddiad, er bod y gynulleidfa gyffredinol, sef 182 miliwn o wrandawyr wythnosol, ychydig yn is na'r lefelau uchaf erioed a welwyd yn 2006/07. Mae'r rhyngrwyd yn dod yn gyfrwng cynyddol bwysig i'r World Service mewn sawl rhan o'r byd. Tyfodd y gynulleidfa ar-lein 34% flwyddyn ar ôl blwyddyn, er y nodwn nad yw'r wefan Sbaeneg BBC Mundo yn llwyddo i dyfu ar yr un gyfradd â'r twf cyffredinol yn y defnydd o'r rhyngrwyd. Mae denu cynulleidfaoedd newydd ac iau yn allweddol i i wella perfformiad yn y maes hwn.

Mae'r World Service yn parhau fel y prif ddarlledwr rhyngwladol o ran mesurau ansawdd megis ymddiriedaeth, gwrthrychedd a pherthnasedd, ac mewn rhai marchnadoedd, megis Nigeria a Bangladesh, mae'r World Service yn cael sgôr uwch ar gyfer y mesurau hyn na chyfryngau lleol.

Comisiynodd pwyllgor cynulleidfaoedd a pherfformiad yr Ymddiriedolaeth waith ymchwil annibynnol ar wasanaeth BBC Afghanistan, ac ar y Gwasanaeth Craidd Saesneg ar y radio. Cafodd gwasanaeth Affganistan ymatebion cadarnhaol dros ben. Dyma'r ffynhonnell newyddion yr ymddiriedir ynddi fwyaf, ac mae'n un o'r gwasanaethau radio mwyaf poblogaidd yn y wlad. Fodd bynnag, mae cystadleuaeth gan gyfryngau eraill yn Affganistan, gan gynnwys teledu, yn tyfu. Yr her yw parhau i fod yn nodedig ac yn berthnasol yn ystod cyfnod o newid cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol mawr. Cynhaliwyd ein gwaith ymchwil ar y Gwasanaeth Craidd Saesneg mewn marchnadoedd allweddol ymhlith llunwyr barn – cynulleidfa â blaenoriaeth i'r World Service. Gwelwyd bod y Gwasanaeth hwn yn cael ei werthfawrogi am ei newyddiaduraeth nodedig sy'n ategu ffynonellau newyddion eraill. Fodd bynnag, datgelodd ein gwaith ymchwil, er bod awydd am allbwn sy'n gysylltiedig â newyddion drwy'r Gwasanaeth hwn, nad oes fawr o ymwybyddiaeth ohono. Mae'r rheolwyr yn gweithio i ddatrys y broblem hon.

**AR-LEIN**

Eleni cynhaliwyd arolwg mawr o bbc.co.uk (gweler y dudalen nesaf). Gan fod ein harolwg wedi edrych yn fanwl ar berfformiad dros y tair blynedd diwethaf dim ond penawdau a roddir yn yr adroddiad hwn ar bbc.co.uk yn 2007/08.

Rydym yn falch bod cyrhaeddiad bbc.co.uk wedi tyfu 16.2% dros y flwyddyn, gyda'r safle yn denu 17.2 miliwn o ddefnyddwyr yr wythnos ar gyfartaledd yn y DU yn unig, a chyfanswm o 33.2 miliwn ledled y byd. Er i gyfradd y twf fod yn is na blynyddoedd blaenorol, mae'r cynnydd parhaus mewn cyrhaeddiad yn galonogol o ystyried y gystadleuaeth gynyddol.

Cyflwynwyd mesur newydd a mwy sensitif o ansawdd: graddau eiriolaeth Hyrwyddwyr Net. Caiff sawl maes ar bbc.co.uk sgoriau uchel iawn o ran y mesur hwn, gan gynnwys newyddion, chwaraeon, CBeebies a nifer o safleoedd dysgu. Er bod hyn yn galonogol, nodwn fod safleoedd lleol yn dueddol o gael sgoriau isel o ran y mesur hwn o ansawdd (ac eraill), ac mae ein gwaith ymchwil wedi nodi mai darpariaeth leol yw un o'r meysydd y cred cynulleidfaoedd y dylai'r BBC wneud yn well ynddo. Mae'r rheolwyr wrthi'n adnewyddu safleoedd lleol a byddwn yn ystyried eu cynigion am wasanaeth fideo band eang lleol, newydd yn ddiweddarach eleni.

Rydym yn falch o nodi bod BBC iPlayer, a gafodd ei lansio yn ystod Nadolig 2007, yn ymddangos fel petai ar y trywydd iawn i fodloni rhagolygon o ddefnydd. Mae ceisiadau am gynnwys wedi mwy na dyblu ers ei lansio i 4.7 miliwn yr wythnos erbyn diwedd mis Mawrth 2008. Fodd bynnag, ymddengys na fyddai hyn wedi digwydd heb gyflwyno gwasanaeth ffrydio, sy'n fwy poblogaidd na llwytho cynnwys i lawr yn ôl cymhareb o wyth i un. Byddwn yn monitro effeithiau ffrydio ar gostau, traffig y we ac ymddygiad defnyddwyr. Fe'n calonogir gan arwyddion y gall BBC iPlayer gynyddu cyrhaeddiad i raglennu niche, gyda sioeau gan BBC Three a BBC Four yn ymddangos yn rheolaidd ymhlith yr ugain uchaf o blith y sioeau y gofynnir amdanynt fwyaf. Mae'n rhy gynnar gwerthuso perfformiad BBC iPlayer yn llawn ond rydym yn ymrwymedig i gynnal arolwg llawn erbyn diwedd 2009. Rydym hefyd yn monitro'n agos y broses o gyflawni ymrwymiad y Bwrdd Gweithredol i sicrhau bod y gwasanaeth llawn ar gael ar systemau gweithredu nad ydynt yn rhai Windows.

Yn olaf, croesawn ddatblygiadau i adnewyddu safle bbc.co.uk, gan gynnwys lansio hafan y gall defnyddwyr ei gwneud yn bersonol iddynt hwy. Bu'r ymateb cychwynnol yn gadarnhaol ar y cyfan ac mae'r dudalen wedi cael sgoriau ansawdd sy'n uwch na'r cyfartaledd.

*"Nid oes safle arall sy'n cynnig gwybodaeth mor amrywiol ond eto mor gynhwysfawr a manwl. Mae'r ansawdd yn gosod y safon yn ddiau."*

Cyfrannwr i r gwaith ymchwil ar gyfer arolwg Ymddiriedolaeth y BBC o bbc.co.uk



bbc.co.uk yw r unig safle Prydeinig sydd ymysg y deg safle mwyaf poblogaidd ar gyfer defnyddwyr yn y DU.

*"Gellir ymddiried yn safle bbc.co.uk yn fwy nag mewn safleoedd eraill gan nad yw'n ceisio hysbysebu neu werthu rhywbeth i chi."*

Cyfrannwr i r gwaith ymchwil ar gyfer arolwg Ymddiriedolaeth y BBC o bbc.co.uk

## AROLWG O WASANAETH BBC.CO.UK

Adolygwn holl wasanaethau'r BBC yn fanwl o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Yn 2007/08 adolygwyd bbc.co.uk, gan ystyried sut y gwnaeth berfformio yn erbyn ei drwydded gwasanaeth ac a ddylid diwygio ei drwydded i adlewyrchu anghenion defnyddwyr a newidiadau yn y farchnad. Yn gyffredinol cafwyd bod bbc.co.uk yn wasanaeth ardderchog, sy'n uchel ei fri ymhlith ei ddefnyddwyr, ac sy'n cyflawni'r rhan fwyaf o ymrwymiadau ei drwydded gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd meysydd a oedd yn achosi pryder yr hoffem weld newid mewn perthynas â hwy.

Yn y tair blynedd y gwnaethom adolygu bbc.co.uk perfformiodd yn dda iawn yn erbyn y mesurau gwerth cyhoeddus sy'n ymwneud â chyrhaeddiad, ansawdd, effaith a gwerth am arian. Tyfodd ei gyrhaeddiad er gwaethaf cystadleuaeth gref. Hwn yw'r unig safle Prydeinig sydd ymhlith y deg cyrchfan uchaf i ddefnyddwyr y DU yn gyson.

Gwnaeth y ffaith bod defnyddwyr mor uchel eu bri am y safle o ran ei ansawdd uchel, amrywiaeth a dyfnder argraff arnom. Caiff ei ddisgrifio gan gynulleidfaoedd fel safle sy'n gosod safonau ac fel un o'r safleoedd gorau yn y byd. Mae sgoriau ansawdd yn cefnogi hyn. Yn ystod y cyfnod a adolygwyd bu bron dwy ran o dair o'i ddefnyddwyr yn 'gymeradwywyr uchel' ac mae cyfradd eiriolaeth y safle, a fynegir ar ffurf sgôr Hyrwyddwyr Net, yn uwch na'r rhan fwyaf o safleoedd y DU a arolygwyd.

Drwy ddarparu newyddion a chynnwys arall o ansawdd uchel, mae bbc.co.uk yn gwneud cyfraniad cryf i gyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC. Mae ei berfformiad yn arbennig o gryf ym meysydd cynnal dinasyddiaeth, hyrwyddo dysgu, cynrychioli'r DU a'i gwledydd, ei rhanbarthau a'i chymunedau, a chyflwyno'r byd i'r DU a'r DU i'r byd. Yn ein barn ni mae buddsoddiad y BBC yn y gwasanaeth yn rhesymol ac mae'n cynnig gwerth da am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

Y meysydd yr hoffem weld newid ynddynt yw:

**Natur nodedig:** er bod cynulleidfaoedd o'r farn bod bbc.co.uk yn nodedig, mae gan weithredwyr eraill bryderon am ei bresenoldeb mewn rhai marchnadoedd. Cafwyd nad oedd y rheolwyr yn meddu ar ddiffiniad cytûn o natur nodedig nac unrhyw ffordd gyson o'i mesur. Rydym wedi gofyn i'r rheolwyr fabwysiadu ein cynigion am ddull manwl gywir a chyson o asesu natur nodedig bbc.co.uk.

**Chwilio a gwe-lywio:** mae hyn yn wendid amlwg. Prin yw'r gwe-lywio llorweddol, ac nid yw peiriant chwilio mewnol y BBC yn effeithiol. Nodwn fod y rheolwyr yn ceisio gwella'r ddau faes. Cwestiynwyd a ddylai'r BBC fod yn darparu peiriant chwilio allanol prif ffrwd, ac rydym wedi gofyn i'r rheolwyr adolygu ei ddyfodol.

**Cysylltu â safleoedd allanol:** cawsom ein siomi nad yw cysylltiadau bbc.co.uk â safleoedd allanol yn arwain at fwy o achosion o fynd i safleoedd eraill er i hyn gael ei nodi fel blaenoriaeth yn arolwg Graf yn 2004. Rydym wedi gofyn i'r rheolwyr sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hannog i we-lywio i safleoedd allanol a byddwn yn monitro hynt hyn yn agos.

**Annog deialog:** mae disgwyliadau defnyddwyr yn cynyddu o ran deialog agored a gobeithiwn y bydd cynlluniau rheolwyr i fuddsoddi yng nghyfranogiad a rhyngweithgaredd cynulleidfaoedd yn diwallu'r angen hwn.

**Gwell rheolaeth gan reolwyr:** cafwyd bod rheolaeth rheolwyr yn annigonol o gryf. Nid oedd atebolrwydd ariannol yn effeithiol: dim ond o ganlyniad i'n harolwg y daeth gwir lefel y gwario i'r amlwg, ac roedd yn llawer uwch na'r hyn a nodwyd yn y drwydded gwasanaeth. Hefyd roedd gwendidau o ran goruchwyliaeth strategol a golygyddol. Rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i'r rheolwyr gyflwyno cynigion i ymdrin â'r diffygion hyn yn gynt. Credwn hefyd y dylai'r rheolwyr ddangos yn gliriach sut mae bbc.co.uk yn cyflawni gwerth cyhoeddus tra'n ystyried effaith negyddol bosibl ar y farchnad, ac rydym wedi gofyn iddynt ddatblygu system i asesu allbwn a fydd yn dangos hyn.

Ni wnawn gymeradwyo buddsoddiad newydd yn bbc.co.uk nes y byddwn yn fodlon ar gynigion y Bwrdd Gweithredol o ran gwell rheolaeth a'n bod wedi ystyried ei gynlluniau buddsoddi mewn mwy o fanylder. Ym mis Hydref cymeradwywyd cyfeiriad cyffredinol cynlluniau'r rheolwyr ar gyfer y gwasanaeth pan gymeradwywyd strategaeth chwe blynedd y BBC. Yn sgîl ein harolwg credwn fod mabwysiadu dull gofalus o gymeradwyo cynlluniau manylach er budd gorau talwyr ffi'r drwydded. Byddwn yn edrych ar y cynlluniau gan ystyried eu gwerth cyhoeddus, eu natur nodedig a'u heffaith gystadleuol.

Er mwyn sicrhau gwell atebolrwydd byddwn yn ailstrwythuro trwydded gwasanaeth bbc.co.uk. Yn ystod ein harolwg codwyd pryderon ynghylch lefel yr atebolrwydd a oedd yn bosibl drwy gael un drwydded gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth mor amrywiol â bbc.co.uk.

Ni chredwn y dylai'r gwasanaeth gael ei reoli drwy fwy nag un drwydded gwasanaeth, ond byddwn yn creu atodiadau ar wahân i'r drwydded gwasanaeth sy'n cwmpasu'r prif feysydd golygyddol: newyddion, chwaraeon, y gwledydd a rhanbarthau lleol, dysgu ffurfiol, sain a cherddoriaeth, a gwasanaethau gweledol.

Mae manylion llawn yr arolwg ar ein gwefan.

*Rydym wedi gosod targedau effeithlonrwydd newydd ar gyfer y BBC sy'n cysylltu arbedion â pherfformiad gwasanaeth i sicrhau na chaiff ansawdd ei beryglu wrth leihau costau.*



Mae r Ymddiriedolaeth yn adolygu'r trefniadau ar gyfer casglu ffi r drwydded.

£347 MILIWN

Gwerth yr arbedion blynyddol a gyflawnwyd dros y tair blynedd diwethaf.

# Perfformiad ariannol a busnes

Fel Ymddiriedolwyr rydym yn gyfrifol am oruchwylio perfformiad ariannol a pherfformiad busnes y BBC. Cadwn lygad barcud ar anghenion ariannol y BBC, sicrhawn fod y BBC yn cyflawni gwerth am arian, ac adolygwn berfformiad y BBC yn erbyn ei dargedau ac amcanion ariannol.

## CYNLLUN ARIANNOL A STRATEGOL NEWYDD I'R BBC

Rhoddodd setliad ffi'r drwydded a gyhoeddwyd gan y llywodraeth ym mis Ionawr 2007 fantais sicrwydd i'r BBC o ran ei incwm am y chwe blynedd nesaf, ond perodd rai problemau hefyd. Roedd y setliad yn is na'r hyn y gobeithiwyd amdano gan y Bwrdd Gweithredol, a gallai greu anawsterau os bydd cynnydd mewn chwyddiant. Gweithiom gyda'r Bwrdd Gweithredol ar arolwg o gynlluniau a chyllidebau a chymeradwywyd cynllun strategol chwe blynedd newydd ar gyfer y BBC (gweler tudalen 17). Mae'n cynnwys targed heriol i sicrhau effeithlonrwydd o 3% bob blwyddyn i ryddhau arian parod i weithrediadau sy'n bodoli eisoes. Dylai'r arbedion hyn, yn ogystal â'r incwm uwch y disgwyliwn i weithrediadau masnachol y BBC ei gynhyrchu, alluogi'r BBC i fodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd heb beryglu ansawdd. Mae'r arolwg hefyd wedi ein galluogi i gyfeirio cronfeydd at feysydd sy'n flaenoriaeth yn ein barn ni. Byddwn yn monitro perfformiad y BBC yn ofalus yn erbyn y cynlluniau hyn.

## TARGED PERFFORMIAD YN ERBYN ARBEDION

Daw ein targed effeithlonrwydd newydd ar gyfer y BBC i rym o 2008/09. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon gwelwyd cam terfynol amcan tair blynedd blaenorol y BBC i wneud arbedion arian parod blynyddol o £355 miliwn. Mae adroddiad y Bwrdd Gweithredol ar ei berfformiad yn erbyn y targed hwn i'w weld yn ei arolwg yn Rhan Dau (tudalen 84). Cawsom ein siomi na chyflawnodd y Bwrdd Gweithredol y targed, gyda diffyg o £8 miliwn, er i'r arbedion a wnaed ganddo fod yn gyflawniad sylweddol serch hynny. Disgwylir gwneud iawn am y diffyg yn y blynyddoedd i ddod drwy weithredoedd sydd eisoes ar waith. Nodwn i tua £4 miliwn o'r arbedion ddeillio o werthu eiddo gan olygu ei fod yn fuddiant untro yn hytrach nag arbediad parhaus.

Wrth nodi ein targed effeithlonrwydd newydd rydym, am y tro cyntaf, wedi cysylltu arbedion â pherfformiad gwasanaeth i sicrhau na chaiff ansawdd ei beryglu wrth leihau costau. Rydym wedi sefydlu diffiniadau clir o ran yr hyn sy'n gyfystyr ag arbedion effeithlonrwydd a'r llinellau sylfaen y mesurir targedau yn eu herbyn. Wrth wneud hynny rydym wedi dilyn canllawiau sydd ar gael gan y sector cyhoeddus ehangach a chyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

## PERFFORMIAD YN ERBYN TRWYDDEDAU GWASANAETH

Mewn man arall (tudalen 24) rydym wedi nodi sut y perfformiodd gwasanaethau'r BBC o ran eu cynnwys. Rhaid i'r holl wasanaethau hefyd weithio o fewn y terfynau cyllidebol a nodir yn eu trwyddedau gwasanaeth. Fodd bynnag, dengys y canlyniadau ariannol a nodir yn Rhan Dau i 11 o wasanaethau wario mwy na'u cyllidebau yn 2007/08. Roeddem yn falch bod un o'r achosion hyn yn achos o danwario mewn gwirionedd o ganlyniad i fwy o effeithlonrwydd nag a ragwelwyd i ddechrau. Fodd bynnag ar y cyfan mae'r achosion o orwario yn dangos rhywfaint o ddryswch ynghylch sut i ddyrannu costau rhwng gwariant ar gynnwys a gwariant nad yw ar gynnwys. Ni chaiff gwariant ar eitemau megis cymorth a seilwaith canolog, a gweithgareddau datblygu ei gynnwys yng ngwariant cynnwys ac nid yw'n rhan o drefn gyllidebol trwyddedau gwasanaeth.

Er mwyn datrys y mater hwn gofynnwyd i'r cyfrifwyr annibynnol, KPMG, adolygu'r ffordd y caiff costau eu dosbarthu fel bod yr holl gostau priodol yn cael eu cynnwys mewn cyllidebau trwyddedau gwasanaeth yn y dyfodol. Mae ein cyllidebau sylfaenol newydd ar gyfer pob gwasanaeth yn 2008/09 a ddosbarthwyd ym mis Mai 2008 yn ystyried y gwaith hwn a hefyd yn adlewyrchu'r arbedion effeithlonrwydd y disgwyliwn i'r Bwrdd Gweithredol eu gwneud a blaenoriaethau buddsoddi newydd cynllun strategol chwe blynedd y BBC. Fel y nodwn ar dudalen 28 rydym wedi codi rhai pryderon penodol gyda'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y broses strategol ac ariannol o oruchwylio gwasanaeth bbc.co.uk. Yn y flwyddyn i ddod disgwyliwn weld adroddiadau a rhagolygon mwy cadarn o wariant yn ôl gwasanaeth.

## CASGLU FFI'R DRWYDDED

Mae cyflwr ariannol y BBC yn dibynnu ar gasglu ffi'r drwydded yn effeithlon ac yn effeithiol a chadw nifer yr achosion o osgoi ei thalu dan reolaeth. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym yn falch o nodi i gost gyfunol casglu ffi'r drwydded ac osgoi ei thalu fod yn is na'r flwyddyn flaenorol fel canran o incwm gros ffi'r drwydded. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded wedi aros yn sefydlog sef 5.1% gyda'r cwymp yn cael ei lywio gan leihad mewn costau casglu.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd i sicrhau bod y broses gasglu nid yn unig yn effeithlon, ond hefyd yn briodol ac yn gymesur. Cydnabuwn fod hwn yn fater a all ysgogi emosiynau cryf. Rydym wedi cychwyn ar arolwg i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng yr angen i godi'r refeniw mwyaf posibl a'r angen i osgoi bod yn llaw drwm, yn enwedig gyda phobl nad ydynt yn berchen ar deledu ac felly nad oes angen trwydded arnynt. Disgwyliwn gyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau erbyn diwedd 2008.

## COMMERCIAL BUSINESSES

Rydym yn falch bod BBC Worldwide ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau ariannol a osodwyd yn ei gynllun pum mlynedd y cytunodd yr Ymddiriedolaeth arno ym mis Mawrth 2007. Yn ystod 2007/08 creodd refeniw o £916 miliwn (£810 miliwn 2006/07) ac elw o £118 miliwn (£111 miliwn 2006/07) cyn llog a threthiant, a oedd ill dau yn rhagori ar y gyllideb. Fodd bynnag, nodwn i rywfaint o weithgarwch buddsoddi gael ei ohirio tan 2008/09 y disgwylir iddo gael ei adlewyrchu ar ffurf llai o elw y flwyddyn honno.

*"Mae'n rhaid i'r BBC fod yn barod i droi ei gefn ar gytundebau nad ydynt yn cynnig gwerth da i'r gynulleidfa a sicrhau ei fod yn gallu gwneud hyn drwy gyflwyno talent newydd yn barhaus."*

Syr Michael Lyons, Cadeirydd y BBC, yn trafod canfyddiadau arolwg yr Ymddiriedolaeth o gostau talent. Mai 2008.



Ymddiriedolwyr yn gwylio ymarfer gan Gerddorfa Ffilharmonig y BBC yn ystod ymweliad â stiwdios y BBC ym Manceinion.

£75 MILIWN

Gwerth yr arbedion a wnaed gan y BBC yn y tair blynedd hyd at fis Ebrill 2008 drwy wella ei brosesau caffael.

## ASTUDIAETH GWERTH AM ARIAN O ARFERION CAFFAEL Y BBC

Gwariodd y BBC £531 miliwn ar nwyddau a gwasanaethau yn 2006/07 a gofynnwyd i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ymchwilio i'r ffordd y rheolir y gwario hwn.

Ar y cyfan nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod gan y BBC arferion caffael da iawn. Fodd bynnag, cafwyd rhai argymhellion ar gyfer newid yn yr arolwg. Ymhlith y rhain roedd parhau i ddatblygu'r defnydd o dechnoleg i leihau costau gweinyddol; sicrhau cytundebau gwell gyda chyflenwyr drwy negodi contractau mwy canolog a lleihau nifer y cyflenwyr lle mae gwariant o werth isel; a chryfhau'r ffordd mae'r BBC yn asesu ei berfformiad caffael drwy ddechrau mesur boddhad defnyddwyr.

Derbyniwyd argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Fe'u trafodwyd â'r Bwrdd Gweithredol, ac rydym yn fodlon bod ei gamau gweithredu yn ymateb priodol.

## AROLYGON GWERTH AM ARIAN

Mae talwyr ffi'r drwydded yn iawn i ddisgwyl i'r BBC wario pob punt o'u harian yn ddoeth, ac mae gennym ddyletswydd o dan y Siarter i sicrhau bod y BBC yn cyflawni gwerth am arian yn y ffordd mae'n gwario ffi'r drwydded. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon rydym yn comisiynu ac yn cyhoeddi arolygon gwerth am arian annibynnol mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol – pennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Caiff yr arolygon eu cynnal gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol neu asiantaethau annibynnol eraill.

Yn ystod 2007/08 cwblhawyd tri arolwg o'r fath gennym. Mae'r adroddiadau llawn ar ein gwefan a cheir crynodebau yn y blychau tywyll ar y dudalen hon ac ar dudalen 31. Yn ogystal comisiynwyd arolwg o waith comisiynu mewnol – hynny yw, gwneud rhaglenni gan ddefnyddio staff y BBC ei hun. Byddwn yn cyhoeddi'r arolwg hwn yn ystod haf 2008 ac yn cyflwyno adroddiad arno y flwyddyn nesaf.

## COSTAU TALENT Y BBC

Yn ogystal â'n rhaglen ffurfiol o arolygon gwerth am arian, ym mis Tachwedd 2007 dechreuodd yr Ymddiriedolaeth gynnal astudiaeth o gost talent ar yr awyr ac oddi ar yr awyr. Codwyd pryderon bod y BBC yn defnyddio ei incwm gwarantedig i gynnig gormod am dalent, a thrwy hynny gynyddu costau i'r diwydiant cyfan ac roedd y cyhoedd hefyd yn holi cwestiynau am y ffioedd a dalwyd i rai o berfformwyr y BBC.

Cyflwynwyd adroddiad ar yr astudiaeth, a gynhaliwyd gan yr ymgynghorwyr annibynnol Oliver and Ohlbaum Associates Limited, ym mis Mehefin 2008. Ei brif ganfyddiadau oedd:

- Nid oedd tystiolaeth bod y BBC yn talu mwy na phris y farchnad am brif dalent teledu wrth gystadlu â darlledwyr eraill. Mewn rhai achosion gallai'r BBC fod yn talu llai na phris y farchnad.
- Nid oedd tystiolaeth bod y BBC yn gwthio prisiau i fyny yn y farchnad dalent yn systemataidd. Lle yr ymddengys fod cyfraddau uchel o chwyddiant yn bodoli yn y BBC ar hyn o bryd, mae hyn yn adlewyrchu grymoedd y farchnad sydd ar waith mewn marchnadoedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym yn y DU ar y cyfan.
- Mae gan y BBC systemau ar waith i sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian wrth negodi ffioedd talent – ac mae wedi atgyfnerthu'r systemau hyn yn y blynyddoedd diwethaf.

Cydnabu'r Ymddiriedolaeth hefyd er na fyddai'r holl dalent yn boblogaidd gyda phawb dylai'r BBC gynnig rhywbeth o werth i bob cynulleidfa. Fodd bynnag, roedd meysydd lle y gellid gwella perfformiad y BBC a lle y gellid cyflawni gwell gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded mewn perthynas â rhywfaint o'i gytundebau talent. Ym marn yr Ymddiriedolaeth mae angen mynd ati i gasglu data annibynnol a chraffu'n fanylach ar gytundebau mewn ffordd fwy cyson a systemataidd. Dylai'r BBC fod yn barod i droi ei gefn ar gytundebau nad ydynt yn cynnig gwerth da a dylai allu gwneud hynny. Golyga hyn fod angen iddo wneud mwy i gyflwyno talent newydd. Hefyd tynnodd yr adroddiad sylw at feysydd megis rhai rhannau o radio rhwydwaith a newyddion a materion cyfoes lle y bydd y Bwrdd Gweithredol yn ystyried ei strategaeth dalent.

Bydd Uned yr Ymddiriedolaeth yn cynnal arolwg o gynnydd erbyn mis Mehefin 2009 a chaiff ei hadroddiad ei chyhoeddi. Mae'r adroddiad ar gostau talent ar gael ar ein gwefan.

## CYFLWYNO BUDDIANNAU TECHNOLEGAU A GWASANAETHAU NEWYDD

Mae pwrpasau cyhoeddus y BBC yn cynnwys dyletswydd i gyflawni rôl arweiniol yn y broses o newid i deledu digidol yn y DU a helpu i gyflwyno buddiannau technolegau a gwasanaethau newydd i'r cyhoedd. Drosodd nodwn rai o'r ffyrdd y mae'r BBC yn ymateb. Ar dudalen 27 edrychwn ar wasanaethau ar-lein y BBC ac ystyriwn sut mae angen i wasanaethau addasu a newid mewn ymateb i dechnolegau newydd.

*"Dylai lledaenu'r gair am ddigidol fod yn rhan o gylch gorchwyl y BBC. Nid yw pawb yn deall digidol. Felly mae'n rhaid i'r BBC fel y darlledwr cenedlaethol fod yn rhan o hyn."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.



Bydd angen i dros 1,100 o orsafoedd trosglwyddo teledu fynd yn ddigidol yn ystod y cyfnod hyd at 2012.

25,000

Nifer y cartrefi yn Whitehaven, Cumbria, y lleoliad cyntaf i golli eu signalau daearol yn 2007.

### CYNLLUN CYMORTH I NEWID I DDIGIDOL

Mae'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gynorthwyo grwpiau penodol o'r cyhoedd a allai ei chael yn arbennig o anodd newid i deledu digidol. Pennwyd y cymorth y mae'n rhaid i'r BBC ei roi, a'r bobl sy'n gymwys i gael y cymorth hwn, gan y llywodraeth ond mater i'r BBC yw cynnal y cynllun cymorth.

Bwriedir i'r cynllun cymorth gynorthwyo'r grwpiau hynny sydd fwyaf tebygol o'i chael yn anodd newid i deledu digidol. Mae'r cynllun yn agored i unrhyw un sy'n 75 neu drosodd, ag anabledd difrifol, neu'n ddall neu'n rhannol ddall. Fe'i hariennir gan arian wedi'i glustnodi o ffi trwydded deledu'r BBC (amcangyfrif cost o £603 miliwn), a chaiff ei gynnal gan y BBC drwy DSHS Limited, is-gwmni sy'n eiddo llwyr i'r BBC. Mae'r BBC yn gyfrifol am gynnal y cynllun er mai trydydd parti sy'n ei weithredu o ddydd i ddydd, sef eaga plc.

Prif rôl yr Ymddiriedolaeth o ran y Cynllun Cymorth i Newid i Ddigidol yw dwyn Bwrdd Gweithredol y BBC i gyfrif am sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni wrth weithredu'r cynllun. I'r perwyl hwnnw, ym mis Chwefror 2008 gosododd yr Ymddiriedolaeth feini prawf llwyddiant ar gyfer y cynllun a ddefnyddir ganddi i fonitro ac asesu perfformiad y cynllun drwy gydol ei oes, er mwyn sicrhau bod arian talwyr ffi'r drwydded yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf cost effeithiol.

### FREESAT

Roedd lansio Freesat ym mis Mai 2008 yn gam pwysig ymlaen o ran cynnig dewis o wasanaethau digidol i bawb yn y DU. Mae Freesat yn llwyfan lloeren a ddatblygwyd drwy gyd-fenter rhwng y BBC a darlledwyr eraill y DU, sy'n cynnig ystod eang o deledu a radio digidol, gwasanaethau rhyngweithiol a HDTV – am un taliad am offer a'i osod. Dylai gynyddu nifer y cartrefi analog â theledu digidol gan gynnwys y rhai nad ydynt mewn ardaloedd lle gellir cael Freeview, a chynnig gwasanaeth digidol am ddim yn fytholbarhaus. Disgwyliwn i nifer y gwasanaethau sydd ar gael drwy Freesat gynyddu'n gyflym i fwy na 200 erbyn 2009. Yn ôl yr arwyddion cynnar bydd y gwasanaeth yn boblogaidd.

### ASTUDIAETH GWERTH AM ARIAN O BA MOR BAROD MAE'R BBC I NEWID I DDIGIDOL

Mae newid i ddigidol, a ddechreuodd yn Copeland yn 2007 ac a fydd yn gorffen yn 2012 yn Ulster, Tyne Tees a Llundain, yn brosiect hir a chymhleth sy'n cynnwys sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd yn effeithio ar bron bob cartref yn y DU a chymerwn ein dyletswydd i sicrhau ei lwyddiant yn ddifrifol iawn. Er mwyn i ni fod yn sicr bod y BBC yn y sefyllfa orau i gyflawni'r ddyletswydd hon, gofynnwyd i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ymchwilio i ba mor barod mae'r BBC i newid i ddigidol.

Gwnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol dri argymhelliad allweddol – y gwnaeth y BBC eu derbyn i gyd sef: cryfhau'r broses o oruchwylio'r gwaith o newid drwy gynrychiolaeth annibynnol ar fwrdd llywodraethu'r prosiect; cyflwyno dangosyddion i fesur gwerth am arian cyllid £200 miliwn y BBC ar gyfer Digital UK; a chynnwys y gwersi o'r broses o newid yn Copeland yn y broses o gaffael Cynllun Cymorth Cenedlaethol i Newid i Ddigidol.

Trafodwyd yr argymhellion hyn gyda'r Bwrdd Gweithredol ac rydym yn fodlon bod ei gamau arfaethedig yn ymateb priodol. Byddwn yn parhau i graffu ar baratoadau'r BBC ar gyfer newid i ddigidol ac yn comisiynu arolwg o Gynllun Cymorth i Newid i Ddigidol oddeutu 2009 i fonitro gwerth am arian gweithredol y cynllun.

### ASTUDIAETH GWERTH AM ARIAN O DDEFNYDD SBECTRWM Y BBC

Mae sbectrwm yn adnodd gwerthfawr ac mae'r BBC yn defnyddio swm sylweddol i ddarlledu ei wasanaethau teledu a radio daearol analog a digidol ledled y DU. Gofynnwyd i Deloitte & Touche edrych ar ba mor effeithlon ac effeithiol mae'r BBC yn defnyddio sbectrwm gan ganolbwyntio'n bennaf ar Deledu Daearol Digidol a elwir hefyd yn Freeview.

Nododd yr arolwg mai blaenoriaeth y BBC oedd annog gwylwyr i gael Freeview, ac mae wedi cyflawni hyn drwy gynnig y signal a'r ansawdd llun gorau posibl. Fodd bynnag, o ystyried bod Freeview bellach wedi'i hen sefydlu, a bod y galw am sbectrwm yn cynyddu (yn rhannol o ganlyniad i lwyddiant Freeview), daeth yr arolwg i'r casgliad y dylai'r BBC ailystyried y polisi hwn. Awgrymodd yr arolwg y dylai'r BBC fod yn barod i amnewid capasiti sbectrwm am ansawdd llun er mwyn sicrhau y defnyddir sbectrwm yn effeithiol ar gyfer gofynion cystadleuol y gwasanaeth.

Mewn ymateb mae Bwrdd Gweithredol y BBC wedi amlinellu ei gynlluniau i gynyddu effeithlonrwydd ei ddefnydd o sbectrwm drwy ddefnyddio technoleg newydd ac mae wedi cytuno i wneud gwaith ymchwil ar ddefnyddwyr ym maes ansawdd llun gwasanaethau'r BBC ar Deledu Daearol Digidol.

# 7

Nifer yr ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2007/08 ar faterion yn amrywio o gynigion am wasanaethau newydd i fframwaith cwynion newydd ar gyfer y BBC.

“Er ein bod wedi gwneud cynnydd gwirioneddol yn rhoi mwy o lais i'r cyhoedd mae angen i ni wneud mwy. Mae'r cyhoedd am wybod y gall gymryd rhan a gwybod pa gamau a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth o ganlyniad i hynny, fel y gall asesu a yw'n werth iddo roi o'i amser a'i ymdrech.”

Syr Michael Lyons
**Cadeirydd, Ymddiriedolaeth y BBC,**
yn siarad yng nghynhadledd flynyddol Llais y Gwrandäwr a'r Gwyliwr ar 29 Tachwedd 2007

# BARN CYNULLEIDFAOEDD Y BBC



104 o bobl o bob cwr o r DU yn mynegi barn.

*"Pe byddai pobl yn cael mwy o gyfle i leisio eu barn, byddent yn teimlo'n fwy bodlon ar ffi'r drwydded."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.

## GWRANDO AR GYNULLEIDFAOEDD

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd i aros mewn cysylltiad agos â thalwyr ffi'r drwydded, ac ystyried eu safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau. Caiff rhan dda o'n gwaith ei llywio gan waith ymchwil helaeth ar gynulleidfaoedd a gomisiynir gennym[1], yn ogystal â thrwy gyswllt personol â thalwyr ffi'r drwydded mewn digwyddiadau ledled y DU a thrwy bethau megis aelodau'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan mewn rhaglenni ffonio i mewn ar radio lleol. Hefyd, cynhaliwn ymgynghoriadau cyhoeddus rheolaidd ar faterion allweddol sy'n effeithio ar y BBC, a chawn gymorth pedwar Cyngor Cynulleidfa i gyflawni ein gwaith – un ar gyfer holl wledydd y DU.

## GWNEUD I FARN CYNULLEIDFAOEDD GYFRIF

Yn ogystal â'r gwaith a ddisgrifir uchod, a'n harolwg blynyddol o dalwyr ffi'r drwydded, eleni hefyd, gofynnwyd i'r cyhoedd gyfrannu'n uniongyrchol at ein hasesiad blynyddol o berfformiad y BBC. Gwnaed hyn drwy weithdy ymchwil ystyriol a gynhaliwyd yn Birmingham ar 7 Ebrill 2008. Mewn gwaith ymchwil ystyriol, caiff y rhai sy'n cymryd rhan gipolwg ar gefndir materion penodol ac yna gofynnir iddynt ddod i gasgliadau.

Cafodd 104 o bobl o bob cwr o'r DU eu dwyn ynghyd, gan greu sampl cynrychioliadol o'r boblogaeth, a gofynnwyd iddynt asesu amrywiaeth o faterion. Ymhlith y rhain roedd y ffordd mae'r BBC yn perfformio yn erbyn ei flaenoriaethau ac amcanion strategol; i ba raddau mae wedi llwyddo i wneud ei allbwn yn fwy gwreiddiol ac o ansawdd uwch; i ba raddau mae wedi gallu ailennyn ymddiriedaeth yn ei allbwn; ac i ba raddau mae wedi llwyddo i argyhoeddi cynulleidfaoedd amheus ynghylch ei werth tra'n parhau i gael cefnogaeth y rhai sy'n canmol y BBC yn fawr. Cyn dod i'w casgliadau, clywodd y rhai a gymerodd ran gyflwyniadau gan yr Ymddiriedolaeth, cymerwyd rhan mewn trafodaethau, a rhoddwyd cyfle iddynt holi Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, Syr Michael Lyons. Mae'r prif gasgliadau fel a ganlyn:

- **Mae rhai agweddau ar werthoedd a chynnwys y BBC yn cael eu parchu'n fawr: mae pobl yn ymddiried yn fwy yn y BBC na'i gystadleuwyr masnachol – gwerthfawrogir annibyniaeth newyddion y BBC yn arbennig – ac ystyrir bod y BBC yn addysgiadol.** Gall cynulleidfaoedd nodi cynnwys nodedig yn nrama a rhaglenni ffeithiol y BBC – naill ai am ei fod o ansawdd uchel, neu am nad yw darlledwyr eraill yn darparu'r allbwn hwn i'r un graddau. Byddai cynulleidfaoedd yn hoffi gweld mwy o raglennu i deuluoedd, mwy o wreiddioldeb, a gwell darpariaeth i bobl ifanc.

- **Cafodd cynulleidfaoedd eu siomi gan dor-ymddiriedaeth y BBC ond roeddent hefyd o'r farn bod dull tryloyw'r BBC o ymdrin â'r problemau wedi cyfyngu ar y niwed, ac nid ystyriwyd ei fod wedi gwneud unrhyw niwed parhaol i'r BBC.** Er eu bod yn bendant yn gwerthfawrogi'r BBC fel sefydliad ac am rywfaint o'i gynnwys, nid oeddent o'r farn bod ei werth yn cynyddu – adlewyrchodd hyn eu pryderon ynghylch ymddiriedaeth a gwreiddioldeb, ynghyd â chost gynyddol ffi'r drwydded a'r amrywiaeth o ddewis mewn mannau eraill.

Ceir dyfyniadau gan bobl a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil drwy'r adroddiad.

## GWASANAETHU POB CYNULLEIDFA

Mae sicrhau bod y BBC yn cynnig rhywbeth o werth i bawb yn y DU yn egwyddor bwysig i ni. Fodd bynnag, gwyddom fod y BBC yn gwneud yn well gyda rhai cynulleidfaoedd nag eraill. Un o'r prif amcanion a roddwyd i'r Bwrdd Gweithredol yw cynyddu'r gwerth yr ystyrir bod y BBC yn ei ddarparu i'r rhai sydd o'r farn bod y BBC yn isel ei werth ar hyn o bryd tra'n cynnal ei statws ymhlith y rhai sy'n gwerthfawrogi'r BBC yn fawr. Er mwyn ein helpu i ddeall y materion hyn yn well, cynhaliwyd gwaith ymchwil ar gryfder y gydberthynas rhwng cynulleidfaoedd gwahanol a'r BBC.

Cadarnhaodd hyn fod y BBC yn parhau i weithredu orau ymhlith cynulleidfaoedd hŷn sy'n well eu byd. I'r gwrthwyneb mae'r BBC yn wynebu mwy o heriau i gyrraedd cynulleidfaoedd iau, yn enwedig cynulleidfaoedd iau sy'n llai cefnog, ac ymddengys fod y broblem hon wedi gwaethygu dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r BBC hefyd yn wynebu her i gyrraedd cynulleidfaoedd canol oed llai cefnog. Mae cynulleidfaoedd du ac Asiaidd yn llai tebygol o gredu bod ffi'r drwydded yn cynnig gwerth da am arian na chynulleidfaoedd gwyn – i ryw raddau gallai hyn adlewyrchu oedran yn ogystal ag ethnigrwydd, gan fod cynulleidfaoedd du ac Asiaidd, ar gyfartaledd, yn iau na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

Dangosodd y gwaith ymchwil hefyd fod lefelau cymeradwyaeth yn amrywio yn dibynnu ar ble mae pobl yn byw yn y DU. Er bod cyfran gwylio teledu'r BBC yr un fath ymhob rhan o'r DU ar y cyfan, mae pobl sy'n byw yn yr Alban yn llawer llai tebygol o deimlo bod ffi'r drwydded yn werth da am arian na chynulleidfaoedd eraill y DU, ac mae pobl yng Ngogledd Iwerddon a Chymru yn llai tebygol o deimlo bod ffi'r drwydded yn werth da na chynulleidfaoedd yn Lloegr.

Ar yr ochr gadarnhaol, mae'r BBC yn gwneud yn well na darlledwyr eraill o ran mesurau cyswllt â chynulleidfaoedd: mae bron 77% yn cytuno y byddent yn gweld eisiau'r BBC os nad oedd yn bodoli mwyach, o gymharu ag ychydig dros 71% ar gyfer ITV, a 64% ar gyfer Channel 4. Fodd bynnag, gan edrych ar y canlyniadau yn fanylach, mae'n amlwg bod cynulleidfaoedd iau a chynulleidfaoedd du hefyd yn teimlo cysylltiad cryf â Channel 4 a Sky.

*1 Ceir canlyniadau ein gwaith ymchwil ar wefan Ymddiriedolaeth y BBC.*

*Byddwn bob amser yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnawn a sut y gwnaethom ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cyhoedd i wneud ein penderfyniadau.*

Addewid Ymddiriedolaeth y BBC i gynulleidfaoedd.




Is Gadeirydd Chitra Bharucha yn canfod barn plant yng Ngogledd Iwerddon ar y BBC.

95%

Canran yr ymatebwyr a oedd am i Ymddiriedolaeth y BBC adrodd yn ôl ar ei gweithgareddau i r cyhoedd.

**Ein Haddewid i Chi**

Yn 2007, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus helaeth, cyhoeddwyd, *Ein Haddewid i Chi*[1], sy'n nodi sut y byddwn yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd. Dangosodd ein hymgynghoriad mai dim ond cyfran fach o bobl sydd â diddordeb mewn rhoi adborth i sefydliadau – mae hon yn her eang, nid rhywbeth sydd ond yn effeithio ar y BBC. Mae'r cyfranogiad sy'n bodoli yn dueddol o fod ar lefel leol ac yn ymwneud â materion beunyddiol megis gwasanaethau cynghorau lleol, ysgolion ac ysbytai. Dim ond 8% a nododd eu bod wedi rhoi adborth i'r BBC.

Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o bobl yr ymgynghorwyd â hwy o'r farn y dylai'r Ymddiriedolaeth, am ei bod yn cynrychioli cynulleidfaoedd, greu cynifer o gyfleoedd â phosibl i annog y cyhoedd i ymwneud â'i gwaith. Nid oedd yn syndod i ni weld llawer mwy o barodrwydd i gymryd rhan mewn penderfyniadau a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â gwerth am arian a gwasanaethau na'r rhai yn ymwneud â chydymffurfio a gwaith rheoleiddio.

Datgelodd yr ymgynghoriad ymwybyddiaeth isel o'r Ymddiriedolaeth a'i gwaith – ond hefyd ddymuniad am fwy o ddealltwriaeth, a allai, yn ei dro, annog mwy o bobl i gymryd rhan. Rydym wedi ystyried hyn a byddwn yn gweithio i gynyddu natur weladwy yr hyn a wnawn er mwyn annog cyfranogiad gan y cyhoedd. Dywedodd pobl wrthym hefyd y dylem ei gwneud mor hawdd â phosibl i ymgysylltu â'r Ymddiriedolaeth, ac rydym wedi mynd ati i wneud ein dulliau o ymgysylltu yn ymarferol, yn gyfleus, ac yn hawdd i'r rhai sy'n cymryd rhan.

Ymhlith y cyngor arall gan y cyhoedd a fabwysiadwyd gennym mae: bod yn agored ac yn dryloyw wrth hysbysu'r cyhoedd am ganlyniadau ein hymgysylltiad; ysgrifennu ein dogfennau ymgynghori mewn iaith syml; a pheidio â dibynnu gormod ar ddulliau ymgynghori ar-lein. Dywedodd pobl wrthym hefyd mai dim ond os oedd yr hyn a allai newid o ganlyniad yn glir y byddent am gymryd rhan yn ein hymgynghoriadau, ac rydym wedi mynd ati i sicrhau bod union gwmpas ein prosiectau yn glir o'r cychwyn. Cafwyd pryder hefyd na ddylem adael i grwpiau â diddordeb gael gormod o ddylanwad, ac rydym wedi addo peidio â gadael i grwpiau o'r fath ddominyddu trafodaethau ac ystyried eu barn ochr yn ochr â'r hyn a ddysgwn o ymgynghoriadau a gwaith ymchwil agored.

Gan adeiladu ar y gwaith hwn, rydym wrthi'n datblygu cyfres o fesurau i asesu effeithiolrwydd ein gwaith ymgysylltu a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar hynt hyn mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

**CYNGHORAU CYNULLEIDFA**

Mae Siarter y BBC yn darparu ar gyfer pedwar Cyngor Cynulleidfa – un ar gyfer pob gwlad. Mae'r Cynghorau yn cynghori'r Ymddiriedolaeth ynghylch pa mor dda mae'r BBC yn hyrwyddo ei bwrpasau cyhoeddus yn eu priod wledydd.

Deilliodd rhannau allweddol o waith yr Ymddiriedolaeth dros y flwyddyn ddiwethaf o bryderon a godwyd gan y Cynghorau. Ymhlith y rhain roedd Arolwg y Gwledydd o Natur Ddiduedd (gweler tudalen 18) a'r Arolwg o Gyflenwad Rhwydwaith (gweler tudalen 19). Hefyd gwnaeth y Cynghorau gyfraniadau pwysig i ymgynghoriadau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn, a lywiwyd gan y nifer helaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu â chynulleidfaoedd y mae pob Cyngor yn eu cynnal.

Mae pob Cyngor yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol – a grynhoir yn fras isod – mewn cyfarfod arbennig o'r Ymddiriedolaeth lle yr ystyrir y materion mae'r Cynghorau am i'r Ymddiriedolaeth wneud cynnydd yn eu cylch yn ystod y flwyddyn ganlynol.[1]

**CYNGOR CYNULLEIDFA LLOEGR**

Canmolodd Cyngor Cynulleidfa Lloegr gynnwys ac ymdeimlad o hunaniaeth gryn dipyn o allbwn BBC English Regions, sydd wedi meithrin gwerth cyhoeddus ac wedi ymgysylltu'n gryf â chynulleidfaoedd.

Fodd bynnag, beirniadodd y Cyngor effaith cynlluniau ailflaenoriaethu'r BBC ar BBC English Regions. Rhoddwyd y gorau i gynlluniau am bedair gorsaf radio leol newydd, a theimlwyd y byddai'r penderfyniad hwn, ynghyd â chwtogi arall, yn lleihau gallu'r BBC i gyrraedd cymunedau a chynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol. Gobeithiwyd y byddai cynnig BBC Local, petai'n cael ei gymeradwyo, yn helpu i adennill tir a gollwyd.

Roedd y Cyngor o'r farn bod llawer i'w wneud o hyd i sicrhau yr adlewyrchir Lloegr a'i holl amrywiaeth ar lefel genedlaethol. Cafodd rhwydweithiau'r BBC eu beirniadu hefyd am barhau i ddefnyddio cyflwynwyr rhwydwaith i ohebu ar faterion rhanbarthol, gan wneud hyn yn anghywir yn aml.

Rhoddwyd canmoliaeth uchel i Radio Lleol y BBC am ei gysylltiadau cryf â chymunedau lleol a'i allu i gyrraedd cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol gan wasanaethau eraill y BBC weithiau. Gwerthfawrogwyd gwaith *Connecting in a Crisis* Radio Lleol y BBC yn ystod llifogydd haf a hydref 2007 yn arbennig.

Ymhlith digwyddiadau ymgysylltu â chynulleidfaoedd y Cyngor roedd cyfres o gyfarfodydd â phobl ifanc a roddodd ddealltwriaeth ddyfnach i aelodau'r Cyngor o ddisgwyliadau pobl ifanc o ran y BBC a darlledwyr eraill. Hefyd ymgysylltodd aelodau'r Cyngor â grwpiau o deuluoedd i ystyried beth maent yn chwilio amdano o ran rhaglenni adloniant – canolbwyntir ar y gwaith hwn ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

*1 Cyhoeddir adroddiadau'r Cynghorau fel rhan o ddogfen Arolwg Blynyddol pob gwlad ac maent yn ymddangos ar eu gwefannau.*

*Mae Cynghorau Cynulleidfa yn dwyn safbwyntiau amrywiol cymunedau ledled y DU at sylw'r Ymddiriedolaeth.*



Un o ddigwyddiadau Cyngor Cynulleidfa r Alban yn St Andrews, Fife.

8

Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd gan Gyngor Cynulleidfa r Alban wrth geisio safbwyntiau yn ystod prawf gwerth cyhoeddus y Gwasanaethau Gaeleg.

## CYNGOR CYNULLEIDFA'R ALBAN

Nododd Cyngor Cynulleidfa'r Alban fod BBC Scotland wedi perfformio'n gryf yn erbyn y Pwrpasau Cyhoeddus mewn blwyddyn lle cafwyd sawl her, gan gynnwys etholiad cyffredinol yr Alban a symud i bencadlys newydd BBC Scotland yn Pacific Quay yn Glasgow.

Darparodd BBC Scotland ddarllediadau cynhwysfawr o ansawdd uchel o'r etholiad cyffredinol a chwaraeodd ran ddefnyddiol yn y gwaith o egluro'r system bleidleisio cynrychiolaeth gyfrannol a gyflwynwyd ar gyfer etholiadau cyngor yr Alban. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi'i argyhoeddi o hyd bod darllediadau rhwydwaith o faterion yr Alban bob amser yn ddigon cywir, cynhwysfawr, neu'n cael eu hystyried yn briodol.

Mae BBC Scotland yn cynhyrchu allbwn cryf ar draws amryw genres, gan gynnwys dysgu, y celfyddydau, drama, comedi, chwaraeon a rhaglenni ffeithiol. Mae defnydd cynulleidfaoedd o dechnoleg newydd, yn enwedig y rhyngrwyd a band eang, yn amlwg wedi'i ysgogi gan gynnwys newydd BBC Scotland ym meysydd newyddion, chwaraeon, addysg a cherddoriaeth.

Roedd cymeradwyo'r Gwasanaethau Digidol Gaeleg (gweler tudalen 45) yn gam pwysig ymlaen. Gwnaed cynnydd wrth fynd i'r afael â materion allweddol eraill – yn arbennig lefel y comisiynau rhwydwaith gan yr Alban, a darlledu materion yr Alban ar newyddion rhwydwaith – ond, gan nad yw'r gwaith wedi cychwyn eto, bydd y rhain yn dal i fod yn flaenoriaethau yn y flwyddyn i ddod. Ymhlith y blaenoriaethau newydd ar gyfer cynulleidfaoedd yr Alban mae darlledu pêl-droed cenedlaethol a gwell signal radio yn yr Ucheldiroedd.

Roedd a wnelo cryn dipyn o waith y Cyngor o ymgysylltu â chynulleidfaoedd â phrawf gwerth cyhoeddus Gwasanaethau Gaeleg. Trefnwyd wyth digwyddiad ac mae ymwybyddiaeth o'r Ymddiriedolaeth bellach yn uchel yn y byd Gaeleg.

## CYNGOR CYNULLEIDFA CYMRU

Canmolodd Cyngor Cynulleidfa Cymru BBC Cymru am ei lwyddiant yn sicrhau comisiynau Rhwydwaith, yn enwedig ym meysydd ffeithiol, cerddoriaeth a drama. Fodd bynnag, roedd y Cyngor o'r farn bod llawer i'w wneud cyn i Gymru gael ei hadlewyrchu'n ddigonol mewn allbwn Rhwydwaith. Mae'r Cyngor yn dal i bryderu am y ffaith na chaiff datganoli ei adlewyrchu'n ddigonol mewn newyddion a materion cyfoes Rhwydwaith a byddwn yn monitro camau gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn unwaith y cyhoeddir Arolwg y Gwledydd o Natur Ddiduedd.

Croesawodd y Cyngor lansiad Freesat, sy'n cynyddu faint o deledu digidol sydd ar gael yng Nghymru yn fawr; ond erys pryderon difrifol am y graddau y mae Radio Cymru a Radio Wales ar gael ar DAB, yn enwedig yng Ngogledd-orllewin Cymru a chymoedd De Cymru. Roedd diffyg signal FM da ar gyfer Radio Wales yn golygu bod hyn yn fater hyd yn oed yn fwy difrifol – un a godwyd yn gyson gan y cyhoedd yn nigwyddiadau atebolrwydd ac allgymorth y Cyngor.

Cafodd y Cyngor ei blesio gan lwyddiant blwyddyn gyntaf partneriaeth strategol tair blynedd BBC-S4C. Mae'n ofynnol i'r BBC ddarparu deg awr yr wythnos o raglennu Cymraeg i'w ddarlledu gan S4C y telir amdano gan ffi'r drwydded. Ym marn y Cyngor mae cyflawni cyfrifoldebau Cymraeg y BBC ym maes darlledu cyhoeddus yn ganolog i ailnegodi partneriaeth strategol BBC-S4C.

Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn hanfodol sicrhau bod unrhyw wasanaeth sy'n dilyn BBC jam yn darparu deunydd Cymraeg yn ogystal â deunydd Saesneg sydd wedi'i deilwra i'r cwricwlwm yng Nghymru.

## CYNGOR CYNULLEIDFA GOGLEDD IWERDDON

Mae Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon wedi nodi pryderon parhaus ynghylch ymdrin â darllediadau sy'n ymwneud a'r weinyddiaeth ddatganoledig a'r meysydd gwleidyddol, cyfreithiol, economaidd a diwylliannol ehangach yn ogystal â'u blaenoriaethu. Mae'r Cyngor wedi croesawu Arolwg y Gwledydd o Natur Ddiduedd, y cymerodd ran lawn ynddo. Yn ei farn ef mae angen gwneud mwy o gynnydd yn y maes hwn i gynulleidfaoedd Gogledd Iwerddon.

Roedd y Cyngor hefyd yn dal i bryderu am y nifer isel o oriau a'r lefel isel o wariant o ran comisiynau lleol ar gyfer teledu rhwydwaith. Yn y flwyddyn i ddod bydd yn gweithio i gynyddu swm, gwerth a chynaliadwyedd rhaglennu rhwydwaith a gynhyrchir yn lleol, gan ystyried materion sy'n ymwneud â chynrychiolaeth ddiwylliannol, manteision cynulleidfaoedd ac anghenion datblygu diwydiannau creadigol Gogledd Iwerddon.

Mae'r Cyngor yn dal i bryderu am y ffaith mai prin yw'r gynrychiolaeth mewn allbwn rhwydwaith o fywyd yng Ngogledd Iwerddon. Bydd y Cyngor yn gweithio i sicrhau bod cynnwys creadigol a nodedig o ansawdd uchel, sy'n berthnasol i anghenion cynulleidfaoedd amrywiol yng Ngogledd Iwerddon a ledled y DU ac yn eu hadlewyrchu, ar gael ar bob llwyfan.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pryderon cynulleidfaoedd am argaeledd cyfyngedig gwasanaethau digidol yn ogystal â'r rhaniad digidol cydnabyddedig yng Ngogledd Iwerddon. Bydd y Cyngor yn gweithio i ddatblygu mynediad digidol, gan sicrhau bod anghenion cynulleidfaoedd Gogledd Iwerddon yn cael eu diwallu.

# 25%

Canran y cyhoedd sy n dweud ei bod yn gwybod rhywfaint o leiaf am yr hyn y mae r Ymddiriedolaeth yn ei wneud. (Holden Pearmain.)

“Mae Ymddiriedolaeth y BBC, corff llywodraethu’r BBC, yn bodoli er mwyn cynrychioli buddiannau talwyr ffi’r drwydded a sicrhau y caiff y BBC ei redeg er eu budd hwy, nid er budd ei reolwyr. Rydym yn diogelu annibyniaeth golygyddol y BBC ac yn sicrhau nad yw’n ddyledus i unrhyw fudd allanol, boed hynny’n wleidyddol neu’n fasnachol.”

Syr Michael Lyons
**Cadeirydd, Ymddiriedolaeth y BBC**

# LLYWODRAETHEDD Y BBC



Chitra Bharucha, Is Gadeirydd, Ymddiriedolaeth y BBC.

*"Fel Ymddiriedolwyr ni redwn weithrediadau dyddiol y BBC. Ein gwaith ni yw sicrhau bod gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'i staff flaenoriaethau clir ac y gwneir defnydd da o'u hadnoddau."*

Dechreuodd Ymddiriedolaeth y BBC ar ei gwaith ar 1 Ionawr 2007 – rhan o newidiadau eang y BBC ym maes llywodraethedd a gyflwynwyd gan y Siarter newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth, fel corff llywodraethu'r BBC, ar wahân i'r Bwrdd Gweithredol sy'n rheoli gweithrediadau dyddiol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynrychioli'r cyhoedd ac yn sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn darparu'r rhaglenni a'r gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel y mae'r cyhoedd eu heisiau, ac mae hefyd yn sicrhau bod y BBC yn atebol ac yn agored. Mae'r Ymddiriedolaeth yn diogelu annibyniaeth y BBC rhag dylanwad masnachol neu wleidyddol.

Fel Ymddiriedolwyr y BBC rydym yn ymrwymedig i gynnal y safonau uchaf o ran llywodraethu corfforaethol. Yn yr adran hon cyflwynwn ein hasesiad o'n perfformiad ein hunain a hefyd sut mae ein gweithgareddau llywodraethu wedi gwasanaethu'r cyhoedd:

**Cyflawni gwerth am arian (tudalen 37)**

**Gwasanaethu pob cynulleidfa (tudalen 42)**

**Sicrhau natur ddiduedd (tudalen 43)**

**Pŵer economaidd y BBC (tudalen 45)**

**Gwybodaeth reoleiddiol arall (tudalen 48)**

Rhydd Rhan Dau o Adroddiad Blynyddol y BBC fwy o wybodaeth am y ffordd mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol.

## Cyflawni gwerth am arian

Fel Ymddiriedolwyr rydym yn goruchwylio perfformiad ariannol a busnes y BBC. Ni sy'n bennaf gyfrifol am y ffordd mae'r BBC yn gwarchod ei adnoddau gan gynnwys, yn bwysicaf oll, yr arian a delir gan y cyhoedd am y drwydded deledu. Cadwn lygad barcud ar anghenion ariannol y BBC a sicrhawn fod y BBC yn cyflawni gwerth am arian o ran y ffordd mae'n gwario ei incwm.

Gwnawn hyn mewn dwy ffordd. Adolygwn gyllidebau a chynlluniau lefel uchel cyffredinol yn barhaus. Bob blwyddyn edrychwn yn strategol ar gyllid y BBC ac, unwaith yr atebir ein cwestiynau ac y gwneir unrhyw newidiadau a ddymunwn, cymeradwywn gyllideb y BBC a'i gynlluniau ariannol hirdymor. Gallwn osod amcanion ariannol i'r rheolwyr i lywio'r ffordd maent yn rheoli eu gweithrediadau. Mae pwyllgor cyllid a strategaeth yr Ymddiriedolaeth yn chwarae rhan allweddol yma. Nodir aelodaeth y pwyllgor ar dudalen 48.

Hefyd edrychwn yn rheolaidd ar feysydd penodol i sicrhau y cyflawnir gwerth am arian ganddynt. Rydym wedi crynhoi canfyddiadau ein harolygon gwerth am arian penodol a gynhaliwyd yn y flwyddyn ddiwethaf ar dudalen 30.

Mae dyletswydd y BBC i gyflawni gwerth am arian yn gymwys i'r Ymddiriedolaeth hefyd. Er mwyn helpu i sicrhau hyn, mae'r pwyllgor cyllid a strategaeth yn goruchwylio materion ariannol yr Ymddiriedolaeth ei hun ac yn rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n ymwneud ag Ymddiriedolwyr.

**UNED YR YMDDIRIEDOLAETH**

Caiff yr Ymddiriedolaeth ei chefnogi yn ei gwaith gan Uned yr Ymddiriedolaeth, sy'n darparu cyngor annibynnol a gwrthrychol, gan alw ar arbenigwyr allanol pan fo angen. Mae Uned yr Ymddiriedolaeth yn annibynnol ar reolwyr y BBC, caiff ei Chyfarwyddwr ei benodi gan yr Ymddiriedolaeth ac mae ei staff y tu allan i gadwyn reoli'r BBC. Mae'r Uned yn cynnwys staff proffesiynol sy'n arbenigo mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau ac yn cynghori Ymddiriedolwyr ar gyflawni eu dyletswyddau ac yn cefnogi eu gwaith mewn meysydd allweddol.


Ar y dudalen nesaf nodwn wariant yr Ymddiriedolaeth, ynghyd ag adroddiad yr archwilydd allanol ar hyn. Eleni mae gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth yn 0.34% o wariant cyhoeddus y BBC. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gosod y targed iddi'i hun o sicrhau bod gwariant yn 0.35% o wariant cyhoeddus y BBC neu'n is dros y pum mlynedd nesaf.

Adolygodd yr Ymddiriedolaeth ei pherfformiad ei hun i ystyried pa mor effeithiol mae'n gweithredu ac yn cyflawni ei hamcanion. Ceir canlyniadau'r arolwg ar dudalen 39.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn goruchwylio'r polisi sy'n pennu cyflog a buddiannau'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli hyn drwy ei phwyllgor cydnabyddiaeth a phenodiadau. Dangosir ei haelodaeth ar dudalen 48. Ceir adroddiad yr Ymddiriedolaeth ar gydnabyddiaeth – gan gynnwys ffioedd yr Ymddiriedolwyr eu hunain – ar dudalennau 39-41.

*"Mae cost ffi'r drwydded yn codi o hyd ac mae'r rhaglenni yn aros yr un fath, sy'n golygu bod y gwerth yn dirywio."*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai r Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.



Dermot Gleeson, Ymddiriedolwr, yn gwrando ar alwadau i BBC Gwybodaeth ym Melffast.

0.34%

Cyfran gwariant y BBC ar wasanaethau cyhoeddus yr eir iddi gan yr Ymddiriedolaeth.

## DATGANIAD O WARIANT YR YMDDIRIEDOLAETH

| | Nodyn | 12 mis 2007/08 £000 | 3 mis 2006/07 £000 |
|---|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr | 1 | **642** | 209 |
| Costau staff | 2 | **4,526** | 865 |
| Costau gweithredol eraill | 3 | **6,741** | 1,564 |
| Gwariant uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth | 4,5 | **11,909** | 2,638 |
| Gwariant yr Ymddiriedolaeth fel % o wariant gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU | | **0.34%** | |
| Ffioedd rheoleiddio Ofcom | 6 | **3,253** | 875 |
| Ffioedd MIA Ofcom | 7 | **491** | 620 |
| Cyfanswm ffioedd Ofcom | | **3,744** | 1,495 |

*Nodiadau*
*1 Mae'r gydnabyddiaeth ar gyfer y cyfnod blaenorol yn cynnwys pum mis o gydnabyddiaeth ar gyfer yr wyth ymddiriedolwr a benodwyd o fis Tachwedd 2006. Cyn sefydlu'r Ymddiriedolaeth roedd gan y BBC Fwrdd Llywodraethwyr. Dangosir cydnabyddiaeth y Llywodraethwyr ar gyfer naw mis cyntaf 2006/07 yn y tablau cydnabyddiaeth yn Rhan Dau.*
*2 Mae costau staff yn cynnwys cyflogau, costau nawdd cymdeithasol a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr.*
*3 Mae costau gweithredol yn cynnwys gwariant uniongyrchol ar weithgareddau megis ymchwil, cyngor cyfreithiol a gwasanaethau cynghori arbenigol eraill.*
*4 Mae'r gwariant a nodir uchod ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn cynrychioli gwariant allanol uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth. Yn ogystal defnyddiodd yr Ymddiriedolaeth wasanaethau cyffredin a ddarparwyd gan y BBC a oedd yn cynnwys defnyddio gwasanaethau eiddo, cyllid, adnoddau dynol a gwybodaeth.*
*5 O wariant yr Ymddiriedolaeth, mae £1,595,000 yn ymwneud â gwariant ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn y pedair gwlad sy'n cwmpasu cymorth i'r pedwar Cyngor Cynulleidfa a'r 12 o Gynghorau Cynulleidfa rhanbarthol yn bennaf (2006/07 £244,000).*
*6 Mae Ofcom yn dyrannu ei gostau rheoleiddio teledu a radio rhwng y BBC a'r sianelau masnachol. Uned yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am gyfran y BBC o'r dyraniad hwnnw.*
*7 Mae ffioedd MIA Ofcom yn cynnwys costau uniongyrchol ac anuniongyrchol Ofcom i gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Farchnad ar gyfer y Profion Gwerth Cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod. Ymhlith yr Asesiadau o'r Effaith ar y Farchnad a gwblhawyd yn y flwyddyn roedd HDTV a'r gwasanaeth Gaeleg.*

## NIFER YR YMDDIRIEDOLWYR A STAFF

| | Nodyn 1 | 31 Mawrth 2008 Nifer CALI | 31 Mawrth 2007 Nifer CALI |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr | 2 | **12** | 11 |
| Staff Uned yr Ymddiriedolaeth | 3 | **61.0** | 42.0 |
| Aelodau eraill o staff | 4 | **9.8** | 21.5 |

*Nodiadau*
*1 Ystyr CALI yw niferoedd cyfwerth ag amser llawn.*
*2 Penodwyd y cadeirydd presennol ar 1 Mai 2007.*
*3 Staff Uned yr Ymddiriedolaeth yw'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan Uned yr Ymddiriedolaeth. O'r rhain, lleolir 12 y tu allan i Lundain gan gefnogi'r gwaith a wneir gan yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Rhanbarthau Lloegr. Trosglwyddwyd y 12 aelod o staff hyn i gyflogres Uned yr Ymddiriedolaeth ar 1 Ebrill 2007. Yn flaenorol roedd yr Ymddiriedolaeth yn ad-dalu cost y staff hyn.*
*4 Mae aelodau eraill o staff yn staff sy'n cefnogi'r 12 o Gynghorau Cynulleidfa rhanbarthol ond nad ydynt yn gyflogeion uniongyrchol i Uned yr Ymddiriedolaeth. Caiff costau'r staff hyn eu had-dalu gan yr Ymddiriedolaeth. Lleolir yr holl staff hyn y tu allan i Lundain. (Mae nifer y flwyddyn flaenorol yn cynnwys y 12 aelod o staff a drosglwyddodd i gyflogres Uned yr Ymddiriedolaeth ar 1 Ebrill 2007 y cyfeiriwyd atynt yn nodyn 2 uchod).*

## ADRODDIAD KPMG LLP I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC ('YR YMDDIRIEDOLAETH')

Yn unol â thelerau ein llythyr penodi dyddiedig 3 Mehefin 2008, rydym wedi astudio'r datganiad o wariant uchod ('datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth') ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 a baratowyd, yn unol â gofynion Siarter y BBC dyddiedig Hydref 2006, gan Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth a hwy yn unig sy'n gyfrifol amdano. Paratowyd datganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth gan Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth gan gymhwyso gofynion cydnabod a mesur Arfer Cyfrifyddu a Derbynnir yn Gyffredinol yn y DU.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein llythyr penodi, yw ffurfio barn annibynnol, ar sail y gwaith a wnaed, a chyflwyno ein barn i'r Ymddiriedolaeth. Nid oedd ein hastudiaeth mor fanwl ag archwiliad o gryn dipyn.

Paratowyd ein hadroddiad i'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r Siarter yn unig. Cynlluniwyd ein hadroddiad i fodloni'r gofynion y cytunwyd arnynt â'r Ymddiriedolaeth a nodweddion arbennig ein penodiad a bennwyd gan anghenion yr Ymddiriedolaeth ar y pryd. Felly ni ddylid ystyried ein hadroddiad fel deunydd addas i'w ddefnyddio nac i ddibynnu arno gan unrhyw barti sy'n awyddus i gaffael hawliau yn ein herbyn ac eithrio'r Ymddiriedolaeth at unrhyw ddiben neu mewn unrhyw gyd-destun. Bydd unrhyw barti ac eithrio'r Ymddiriedolaeth a fydd yn cael gafael ar ein hadroddiad neu gopi ohono ac yn dewis dibynnu ar ein hadroddiad (neu unrhyw ran ohono) yn gwneud hynny ar ei fenter ei hun. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, ni fydd KPMG LLP yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb na rhwymedigaeth mewn perthynas â'n hadroddiad i unrhyw barti arall.

Yn ein barn ni, mae'r gwariant fel y'i nodir yn natganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth wedi'i dynnu'n gywir o lyfrau a chofnodion yr Ymddiriedolaeth ar y sail a nodir yn y Nodiadau i ddatganiad o wariant yr Ymddiriedolaeth.

**KPMG LLP**
Cyfrifwyr Siartredig
Archwilydd Cofrestredig, Llundain
19 Mehefin 2008

*"Nid oeddwn yn ymwybodol bod yr Ymddiriedolaeth yn bodoli. Pwy sy'n talu eu cyflogau?"*

Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai yr Ymddiriedolaeth yn trafod y BBC.



Pobl ifanc yn mynegi barn ar y BBC i Ymddiriedolwyr ym Melffast.

*Yn ystod ei blwyddyn gyntaf mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau sefydlu ei hun fel corff annibynnol ac agored sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cynrychioli talwyr ffi'r drwydded.*

## ASESIAD O BERFFORMIAD YR YMDDIRIEDOLAETH

Yn dilyn ei blwyddyn lawn gyntaf o weithredu adolygodd yr Ymddiriedolaeth ei pherfformiad ei hun a pherfformiad ei phwyllgorau yn ffurfiol. Mae hyn yn unol â'i Rheolau Sefydlog ei hun ac arfer gorau fel y nodir yn y Cod Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol.

Edrychodd yr arolwg, a arweiniwyd gan y Cadeirydd, Syr Michael Lyons, ar ba mor effeithiol mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei chylch gwaith a pha mor dda mae ei phrosesau busnes yn gweithredu ac asesodd gyfraniad Ymddiriedolwyr unigol. Fel rhan o'r broses cafwyd holiadur strwythuredig a gwblhawyd gan yr holl Ymddiriedolwyr, gwerthusiad o berfformiad unigol gan y Cadeirydd a thrafodaethau yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth. Hefyd rhoddwyd cyfle i Ymddiriedolwyr roi sylwadau ar berfformiad y Cadeirydd. Rhoddodd y Cadeirydd ganlyniadau ei werthusiad o berfformiad i bob Ymddiriedolwr a chyflwynwyd adroddiad i'r Ymddiriedolaeth gan ddwyn ynghyd y prif themâu, ynghyd â dadansoddiad o'r holiaduron a luniwyd gan Uned yr Ymddiriedolaeth. Cytunwyd ar ffyrdd o wella perfformiad ac maent wrthi'n cael eu gweithredu, a chaiff cynnydd ei fonitro yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd yn ystod ei blwyddyn lawn gyntaf o weithredu o ran sefydlu'r Ymddiriedolaeth fel corff annibynnol ac agored sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cynrychioli talwyr ffi'r drwydded ledled y DU. Mae strwythurau cyfarfodydd a phwyllgorau yn gweithredu'n dda ar y cyfan gan alluogi Ymddiriedolwyr i gyfrannu eu sgiliau a'u profiad unigol yn effeithiol. Mae pob Ymddiriedolwr wedi dangos ei ymrwymiad i'r rôl, er bod galwadau gwaith yr Ymddiriedolaeth ar ei amser yn sylweddol yn aml.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi meysydd lle gallai rhai newidiadau wella ei heffeithiolrwydd. Ymhlith y rhain roedd neilltuo mwy o amser ar gyfer trafodaethau strategol yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth ac adolygu calendr busnes yr Ymddiriedolaeth. Roedd yr Ymddiriedolaeth hefyd o'r farn y gallai ddatblygu mwy o ffyrdd o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Cynhelir ymarfer gwerthuso arall ddechrau 2009 gan gynghorwyr allanol a chyhoeddir y canlyniadau yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

## ADRODDIAD AR GYDNABYDDIAETH YR YMDDIRIEDOLAETH

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gydnabyddiaeth a gafwyd gan aelodau'r Ymddiriedolaeth, gweithredu pwyllgor cydnabyddiaeth a phenodiadau'r Ymddiriedolaeth a'i ddyletswyddau o ran strategaeth cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a chydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr anweithredol. Er bod y BBC wedi'i eithrio rhag gofynion Rheoliadau Adroddiadau ar Gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr 2002 a rheoliadau'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, paratowyd yr adroddiad hwn fel petai'r gofynion hynny yn gymwys lle bynnag y mae'r darpariaethau datgelu yn berthnasol ac yn gymwys. Caiff yr adran ar gydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr ei harchwilio.

## AELODAU'R YMDDIRIEDOLAETH: POLISI CYDNABYDDIAETH

Caiff aelodau'r Ymddiriedolaeth ffi a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a adolygir bob blwyddyn fel rheol. Ar 1 Ebrill 2007, cafodd pob Ymddiriedolwr mewn swydd gynnydd o 0.66% mewn ffioedd (a dalgrynnwyd i'r £5 agosaf), fel yr argymhellwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Yn ogystal caiff Ymddiriedolwyr eu had-dalu am unrhyw dreuliau yr eir iddynt ar fusnes y BBC, er enghraifft ar deithio neu lety, yn unol â Chod Ymarfer yr Ymddiriedolaeth. Caiff rhai o'r treuliau allan o boced hyn, ynghyd â rhai gwasanaethau cymorth a archebir yn ganolog gan Uned yr Ymddiriedolaeth, eu dosbarthu fel buddiannau trethadwy gan Gyllid a Thollau EM, megis teithio o gartref i'r gwaith. Caiff unrhyw dreth sy'n deillio o dreuliau Ymddiriedolwyr ei setlo'n uniongyrchol gan y BBC. Mae buddiannau trethadwy uwch y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn adlewyrchu eu hymrwymiadau amser a dyletswyddau ychwanegol, lleoliad eu cartrefi a'r gofynion i deithio i'w prif weithle yn y BBC.

Ers mis Gorffennaf 2007, mae'r Cadeirydd wedi gallu defnyddio un o yrwyr a cheir y BBC yn rhan-amser pan yn gweithio yn Llundain, ar fusnes y BBC.

Mae'r tabl ar dudalen 40 yn dangos y ffioedd a'r buddiannau trethadwy a gafodd yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2007/8.

### Pensiynau

O dan delerau ei benodiad, mae'r Cadeirydd yn gymwys i fod yn aelod o gynllun pensiwn gyda buddiannau sy'n cyfateb i rai Cynllun Pensiwn y BBC. Mae Syr Michael Lyons wedi dewis peidio â chymryd rhan yn y cynllun hwn, felly nid yw'r BBC wedi gwneud unrhyw gyfraniadau pensiwn. Yn hytrach, mae'r Cadeirydd yn cael aswiriant bywyd ar lefel sy'n debyg i aelodau'r cynllun pensiwn. Yn ogystal caiff yswiriant meddygol preifat sydd ar yr un lefel ag uwch reolwyr y BBC. Heblaw'r Cadeirydd, nid yw'r Ymddiriedolwyr yn gymwys i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y BBC.

*"Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi profi ei bod yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynnal safonau uchel darlledu cyhoeddus ym Mhrydain ac mae'n bleser bod yn aelod ohoni am ddwy flynedd arall."*

Richard Tait, Ymddiriedolwr, ar gael ei ailbenodi gan DCMS am ddwy flynedd arall. 11 Ebrill 2008.



Richard Tait, Ymddiriedolwr, yn Glasgow.

*Caiff gwerth y ffioedd cydnabyddiaeth a dderbynnir gan yr Ymddiriedolwyr ei bennu gan DCMS ond fe'i delir o gronfeydd y BBC.*

**CYDNABYDDIAETH A GAFWYD**

Dangosir cydnabyddiaeth aelodau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn isod:

| | Ffioedd £000 | Buddiannau trethadwy £000 | Cyfanswm 2007/08 £000 | Cyfanswm 1 Tach 06 – 31 Maw 07[3] £000 | Cyfnod penodi Dyddiad dechrau | Cyfnod penodi Dyddiad gorffen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymddiriedolwyr** | | | | | | |
| Cadeirydd | | | | | | |
| Syr Michael Lyons[1, 5] | 128 | 35 | 163 | – | 1 Mai 2007 | 30 Ebrill 2011 |
| Is-Gadeirydd | | | | | | |
| Chitra Bharucha[2] | 81 | 22 | 103 | 65 | 1 Tach 2006 | 31 Hyd 2010 |
| **Ymddiriedolwyr Cenedlaethol** | | | | | | |
| Alison Hastings (Lloegr) | 40 | 2 | 42 | 19 | 1 Tach 2006 | 31 Hyd 2010 |
| Rotha Johnston (Gogledd Iwerddon) | 40 | – | 40 | 17 | 1 Tach 2006 | 31 Hyd 2010 |
| Janet Lewis-Jones (Cymru) | 40 | 1 | 41 | 18 | 1 Tach 2006 | 31 Hyd 2010 |
| Jeremy Peat (Yr Alban)[4] | 40 | 1 | 41 | 11 | 1 Ion 2005 | 31 Rhag 2008 |
| **Ymddiriedolwyr** | | | | | | |
| Diane Coyle | 35 | 1 | 36 | 16 | 1 Tach 2006 | 31 Hyd 2010 |
| Dermot Gleeson[4] | 35 | 1 | 36 | 9 | 1 Tach 2000 | 31 Hyd 2008 |
| Patricia Hodgson | 35 | – | 35 | 15 | 1 Tach 2006 | 31 Hyd 2010 |
| David Liddiment | 35 | – | 35 | 15 | 1 Tach 2006 | 31 Hyd 2010 |
| Mehmuda Mian Pritchard | 35 | – | 35 | 15 | 1 Tach 2006 | 31 Hyd 2010 |
| Richard Tait[4] | 35 | – | 35 | 9 | 1 Awst 2004 | 31 Gor 2010 |
| **Cyfanswm Ymddiriedolwyr** | 579 | 63 | 642 | 209 | | |

*1 Penodwyd Syr Michael Lyons fel Cadeirydd ar 1 Mai 2007 ac mae ei ffioedd yn ymwneud â'r cyfnod 1 Mai 2007 – 31 Mawrth 2008.*
*2 Chitra Bharucha oedd y Cadeirydd Dros Dro nes i Syr Michael Lyons gael ei benodi a chafodd ffioedd am gyflawni'r swydd honno rhwng 1 – 30 Ebrill 2007.*
*3 Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer 2006/7 yn ymwneud â'r cyfnod 1 Tachwedd 2006 – 31 Mawrth 2007 yn unig gan mai ar 1 Tachwedd 2006 y penodwyd yr Ymddiriedolwyr.*
*4 Am weithredu fel Llywodraethwyr y BBC rhwng 1 Ebrill 2006 a 31 Rhagfyr 2006, cafodd Dermot Gleeson, Jeremy Peat a Richard Tait £26,000, £34,000 a £19,000 yn y drefn honno fel y datgelwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2006/07. Mae'r ffigurau a ddangosir uchod am eu ffioedd ar gyfer 2006/07 yn ymwneud â'r cyfnod Ionawr – 31 Mawrth 2007 yn unig.*
*5 Hefyd cafodd y cadeirydd aswiriant bywyd a oedd yn werth £3,951 am y cyfnod. Costiodd ei yswiriant meddygol preifat £1,792 ar gyfer y cyfnod; mae hwn yn fuddiant trethadwy ac fe'i cynhwysir yn y ffigur buddiannau trethadwy yn y tabl.*

Nid yw aelodau'r Ymddiriedolaeth yn gymwys i gael taliadau am derfynu contract nac iawndal am golli swydd.

**Cyfnodau penodi Ymddiriedolwyr**

Mae'r tabl cydnabyddiaeth hefyd yn dangos cyfnodau penodi pob Ymddiriedolwr. Dylai cyfnod Richard Tait fod wedi dod i ben ar 31 Gorffennaf 2008 ond ym mis Ebrill cyhoeddodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei fod wedi cael ei ymestyn i 31 Gorffennaf 2010.

*Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol ac yn pennu'r ffioedd ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol y BBC.*



Aelodau o r cyhoedd yn un o weithdai ymchwil yr Ymddiriedolaeth.

*Dylai cydnabyddiaeth ystyried y cyfleoedd unigryw y gall gweithio yn y BBC eu cynnig.*

Un o r egwyddorion sy n rheoli cydnabyddiaeth weithredol a bennir gan bwyllgor cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth.

**PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH A PHENODIADAU: CYFANSODDIAD A GWEITHREDIAD**

Mae'r Siarter yn rhoi cyfrifoldebau penodol i'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol am gydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

Mae'r pwyllgor cydnabyddiaeth a phenodiadau yn un o is-bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth ac mae'n gyfrifol am bennu'r strategaeth cydnabyddiaeth ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol, am wneud argymhellion i'r Ymddiriedolaeth ar y gydnabyddiaeth (gan gynnwys y cyflog sylfaenol ac unrhyw fonysau) i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, a ffioedd y Cyfarwyddwyr anweithredol. Dangosir aelodaeth y pwyllgor ar dudalen 48.

Mae gan y Bwrdd Gweithredol bwyllgor cydnabyddiaeth hefyd a nodir ei gyfansoddiad a'i gyfrifoldebau yn Rhan Dau.

Caiff cyfarfodydd pwyllgor yr Ymddiriedolaeth eu llywio gan aelodau Uned yr Ymddiriedolaeth. Fel sy'n ofynnol, mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cyfarwyddwr, BBC People, y Cyfarwyddwr Gwobrwyon a Chadeirydd pwyllgor cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn bresennol o ran materion sy'n ymwneud ag aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol. Nid yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn bresennol pan ystyrir materion yn ymwneud â'i gydnabyddiaeth ei hun.

Gan gydymffurfio â Chod Cyfun 2006, mae'r pwyllgor yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar faterion yn ymwneud â chydnabyddiaeth. Mae pwyllgor yr Ymddiriedolaeth wedi penodi Towers Perrin i roi cyngor ar strategaeth cydnabyddiaeth a gwybodaeth am y farchnad fel y bo angen.

**BWRDD GWEITHREDOL: STRATEGAETH CYDNABYDDIAETH**

Mae pwyllgor cydnabyddiaeth a phenodiadau yr Ymddiriedolaeth yn pennu'r strategaeth cydnabyddiaeth ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol a weithredir gan bwyllgor cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol. Bwriedir i'r strategaeth gynnig gwobrwyon sy'n denu, yn cymell ac yn cadw talent allweddol sy'n ofynnol i arwain y BBC a darparu darllediadau cyhoeddus rhagorol tra'n cydnabod statws y BBC fel corfforaeth a ariennir gan y cyhoedd y mae'n rhaid iddi sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Y prif elfennau o gydnabyddiaeth yw cyflog sylfaenol, bonws blynyddol a phensiwn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am bennu cyflog sylfaenol a bonws cronedig y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn unol â'r strategaeth hon ac mae wedi asesu ei berfformiad yn ystod y flwyddyn. Penderfynwyd ar gyflog a bonysau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer 2007/08 gan bwyllgor cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol. Nodir y strategaeth cydnabyddiaeth a'r gydnabyddiaeth a gafwyd yn Rhan Dau.

Mae pwyllgor cydnabyddiaeth a phenodiadau'r Ymddiriedolaeth wedi gosod nifer o egwyddorion y dylai'r strategaeth gyflawni yn eu herbyn yn y flwyddyn i ddod, sef:

- Dylai cydnabyddiaeth ystyried y cyfleoedd unigryw y gall gweithio yn y BBC eu cynnig
- Dylai'r BBC ddilyn y farchnad o ran cyflog gweithredol yn hytrach na'i harwain
- Dylai'r fframwaith cydnabyddiaeth adlewyrchu'r marchnadoedd llafur gwahanol ar gyfer swyddi gwahanol
- Dylid ystyried cydnabyddiaeth Weithredol ochr yn ochr â strategaeth gydnabyddiaeth y BBC cyfan

Bydd pwyllgor cydnabyddiaeth a phenodiadau'r Ymddiriedolaeth yn cael adroddiad blynyddol gan bwyllgor cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol i dawelu ei feddwl bod y cyflog a'r bonysau yn unol â'r strategaeth a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth.

**CYFARWYDDWYR ANWEITHREDOL: POLISI CYDNABYDDIAETH**

Mae'r Siarter yn gwneud yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am gymeradwyo penodiadau Cyfarwyddwyr anweithredol ac am bennu'r polisi ar gyfer eu ffioedd ynghyd â lefel y rhain. Ym mis Rhagfyr 2007 cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth benodiad, gan gynnwys telerau'r penodiad, Gyfarwyddwr anweithredol ychwanegol i ymuno â'r pump a oedd eisoes yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol. Nodir y ffioedd a gafodd y Cyfarwyddwyr anweithredol yn ystod 2007/08 yn Rhan Dau; nid yw lefel y ffioedd hyn wedi newid ers iddynt gael eu penodi'n gychwynnol. Yn unol ag arfer gorau, bydd yr Ymddiriedolaeth yn adolygu lefel y ffioedd bob yn ail flwyddyn. Cynhelir yr arolwg cyntaf yn 2008 a daw i rym ym mis Ionawr 2009.

*Fel ymddiriedolwyr rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i holl bobl a holl gymunedau'r DU.*



Janet Lewis Jones, Ymddiriedolwr dros Gymru, yn siarad â chyfranogwyr yn un o ddigwyddiadau Cyngor Cynulleidfa Cymru yng Nghaerdydd.

13

Nifer y rhaglenni ffonio i mewn a gynhaliwyd gan Ymddiriedolwyr ar radio lleol yn ystod 2007/08 i glywed safbwyntiau cynulleidfaoedd lleol.

# Gwasanaethu pob cynulleidfa

Mae'r cyhoedd yn cynnwys llawer o grwpiau gwahanol sy'n adlewyrchu pethau megis oedran, daearyddiaeth, diddordebau, crefydd a chefndir ethnig. Fel Ymddiriedolwyr sy'n cynrychioli'r cyhoedd gweithiwn i ddeall safbwyntiau a disgwyliadau pawb. Gan gael ein llywio gan y gwaith hwn, defnyddiwn ein barn i wneud y penderfyniadau sy'n pennu trywydd y BBC.

Un o'n blaenoriaethau allweddol yw sicrhau bod y BBC yn darparu gwasanaethau ffres o ansawdd uchel i holl bobl a holl gymunedau'r Deyrnas Unedig. Gwnawn hyn drwy edrych yn fanwl ar y ffordd mae'r BBC yn perfformio ymhlith grwpiau gwahanol o gynulleidfaoedd a defnyddio'r hyn a ddysgwn i osod heriau i'r BBC yn y dyfodol.

Defnyddiwn waith ymchwil helaeth ar gynulleidfaoedd i lywio ein gwaith, ac rydym hefyd wedi ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y trwyddedau gwasanaeth a chylchoedd gwaith pwrpas lle y nodwn yr hyn a ddisgwyliwn gan y BBC. Ceir rhagor o wybodaeth am y trwyddedau a'r cylchoedd gwaith a sut maent yn ein helpu i lywodraethu'r BBC ar ein gwefan.

Pwyllgor cynulleidfaoedd a pherfformiad yr Ymddiriedolaeth sy'n goruchwylio'r gwaith hwn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae wedi trafod perfformiad gwasanaethau cyhoeddus y BBC gyda'r Bwrdd Gweithredol, ac mae wedi goruchwylio'r arolwg manwl o bbc.co.uk yn drwyadl (gweler tudalen 28). Rhestrir aelodau'r pwyllgor ar dudalen 48.

## CYNGHORAU CYNULLEIDFA

Cynghorau Cynulleidfa yw un o'r ffyrdd allweddol o sicrhau bod safbwyntiau'r cyhoedd yn cael eu cynrychioli ar lefelau uchaf y BBC. Ceir pedwar Cyngor Cynulleidfa – un yr un yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – gyda gwaith y Cyngor yn Lloegr yn cael ei gynorthwyo gan rwydwaith o 12 o Gynghorau Cynulleidfa rhanbarthol (gweler y map ar dudalen 19).

Mae aelodau'r Cynghorau yn dalwyr ffi'r drwydded sydd â diddordeb hyddysg yng ngwaith y BBC, a dealltwriaeth o ddiddordebau, pryderon ac amrywiaeth y gynulleidfa yn eu gwledydd. Gwirfoddolwyr yw'r aelodau ac nid oes ganddynt unrhyw gyswllt proffesiynol â'r BBC. Caiff pob Cyngor Cynulleidfa cenedlaethol ei gadeirio gan yr aelod o'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y wlad honno. Ceir crynodeb o adroddiad blynyddol pob Cyngor ar dudalennau 34–35.

## Y PWYLLGOR YMGYNGHOROL CANOLOG AR GREFYDD (CRAC)

O dan y trefniadau llywodraethu blaenorol, roedd y pwyllgor ymgynghorol canolog ar grefydd (CRAC) yn cynghori'r BBC ac Ofcom ar bolisïau a darllediadau'n ymwneud â chrefydd. Roedd ei aelodaeth yn cynnwys y prif enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill sy'n gyffredin ym Mhrydain. Ystyriodd yr Ymddiriedolaeth ddyfodol CRAC ddiwedd 2007, a chytunodd nad oedd yn gweddu'n dda i'r trefniadau llywodraethu newydd. Yr unig gyrff ymgynghorol ffurfiol sydd gan yr Ymddiriedolaeth o dan y Siarter yw'r pedwar Cyngor Cynulleidfa; ac o dan fodel ymgynghorol newydd yr Ymddiriedolaeth, gall pob cyfranddeiliad leisio ei farn drwy ymgynghoriadau ar gylchoedd gwaith pwrpas, arolygon o wasanaethau, profion gwerth cyhoeddus a materion eraill. Efallai y gwnaiff CRAC barhau mewn rhyw ffordd fel corff ymgynghorol i wneuthurwyr rhaglenni – trafodir hyn gan y Bwrdd Gweithredol ar hyn o bryd.

## HYRWYDDO CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Mae gan y BBC ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb mewn perthynas â'i 'swyddogaethau cyhoeddus' – pethau megis trwyddedau teledu, y trefniadau ar gyfer newid i ddigidol, a rhai o swyddogaethau rheoleiddiol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r ddeddfwriaeth – y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol, y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw – yn golygu bod yn rhaid i'r BBC, mewn perthynas â'r swyddogaethau cyhoeddus hyn, ystyried dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal, a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol, a hynny'n briodol. Ar gyfer pob maes mae'r BBC yn cyhoeddi cynllun cydraddoldeb ac yn cyflwyno adroddiad ar ei berfformiad. Cafodd y cynlluniau hyn o ran hil, rhyw ac anabledd eu diweddaru'n ddiweddar a chânt eu cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r BBC wedi gwneud cynnydd da i gyflawni ei ddyletswyddau o ran cydraddoldeb. Ymhlith yr enghreifftiau mae ymgynghoriadau â phobl anabl a phobl o gefndiroedd ethnig a diwylliannol gwahanol i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried yn ystod y broses o newid i ddigidol. Mae Trwyddedu Teledu wedi gwella hygyrchedd ei gyhoeddusrwydd teledu drwy is-deitlo, ac mae'n ymdrechu i sicrhau bod ei ddeunyddiau marchnata yn berthnasol i anghenion a phroblemau grwpiau gwahanol o bobl. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn monitro amrywiaeth pan gynhelir ymgynghoriadau cyhoeddus neu gyfarfodydd cyhoeddus; ac rydym hefyd bellach yn cynnal asesiadau o effaith ar gydraddoldeb wrth ystyried gwaith o natur gyhoeddus.

## SICRHAU GWEITHLU AMRYWIOL YN Y BBC

Fel Ymddiriedolwyr rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y BBC yn datblygu gweithlu amrywiol. Mae adroddiad 2007/08 gan y Bwrdd Gweithredol ar ei drefniadau i hyrwyddo cyfle cyfartal yn dangos er y gwneir cynnydd mewn rhai meysydd, fod gwaith i'w wneud o hyd, yn enwedig o ran staff o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Gwnawn fonitro datblygiadau yn ofalus.

*Fel ymddiriedolwyr rydym yn gyfrifol am ddiogelu annibyniaeth olygyddol y BBC ac am sicrhau nad yw'n ddyledus i unrhyw fudd allanol, boed hynny'n wleidyddol neu'n fasnachol.*



Yr Ymddiriedolwr, Mehmuda Mian Pritchard, aelod o r pwyllgor safonau golygyddol (Manceinion Medi 2007).

*"Mae sicrhau bod y BBC yn ddiduedd yn un o'n blaenoriaethau allweddol. Rydym wedi gofyn i bob maes rhaglenni – nid dim ond y newyddion – ystyried hyn."*

# Sicrhau natur ddiduedd

Mae natur ddiduedd yn un o gonglfeini gwerthoedd golygyddol y BBC. Mae'r cyhoedd yn ei gwerthfawrogi ac yn ei mynnu. Mae'n ategu ymddiriedaeth y cyhoedd yn y BBC na fyddai'n gallu gweithredu hebddi. Mae natur ddiduedd yn dibynnu ar gywirdeb, cydbwysedd, cyd-destun, pellter, cysondeb, tegwch, gwrthrychedd, meddwl agored, cadernid, hunan-ymwybyddiaeth, tryloywder a'r gwirionedd. Mae a wnelo ag amrywiaeth barn a chyflawnrwydd.

Mae sicrhau bod allbwn y BBC yn ddiduedd yn flaenoriaeth allweddol i'n gwaith o gynnal safonau golygyddol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys goruchwylio'r ffordd mae'r BBC yn gosod ac yn cyrraedd ei safonau golygyddol ei hun a'r ffordd mae'n cydymffurfio â safonau darlledu Ofcom.

Cymeradwywn ganllawiau golygyddol y Bwrdd Gweithredol gan nodi'r gwerthoedd a'r safonau y disgwyliwn gan holl gynnwys y BBC. Rydym hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn ymdrin â chwynion yn briodol. Lle y bo'n addas, gwrandawn apeliadau. O bryd i'w gilydd comisiynwn waith ymchwil i lywio ein gwaith ar safonau golygyddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwnaethom gomisiynu arolwg o natur ddiduedd darllediadau newyddion a ffeithiol rhwydwaith y BBC o'r pedair gwlad yn y DU (gweler tudalen 18). Hefyd rydym wedi adolygu ymateb y Bwrdd Gweithredol i fethiannau golygyddol difrifol y flwyddyn ddiwethaf (gweler tudalen 11).

Caiff y gwaith hwn ei reoli drwy bwyllgor safonau golygyddol yr Ymddiriedolaeth, sef y corff sy'n gwrando apeliadau ar gwynion golygyddol hefyd. Rhestrir aelodau'r pwyllgor ar dudalen 48.

**Cydymffurfiad golygyddol**

Bob chwe mis mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolaeth ar gydymffurfiad golygyddol ac mae'r pwyllgor yn craffu ar yr adroddiadau hyn. Yn 2007/08 nododd y pwyllgor 56 o achosion o dor-cydymffurfiad golygyddol a gafodd eu cadarnhau naill ai gan reolwyr y BBC neu'r pwyllgor ei hun. Cafwyd 38 o achosion o'r fath y flwyddyn flaenorol. Er bod hyn yn gynnydd o'r 47%, dim ond 0.045% o'r cwynion a gafodd y BBC yr oeddent yn cyfrif amdanynt.

Ystyriodd y pwyllgor nifer o gwynion ynghylch bod yn ddiduedd. Roedd tair ohonynt yn ymwneud â *Horizon: Nuclear Nightmares*, a ddarlledwyd ar BBC Two ym mis Gorffennaf 2006, lle trafodwyd tystiolaeth wyddonol ar effeithiau ymbelydredd niwclear heb gyfeirio'n ddigonol at ddewisiadau amgen. Nododd y pwyllgor bwysigrwydd sicrhau natur ddiduedd pob math o allbwn – nid dim ond newyddion – a gofynnodd i bob maes rhaglenni ystyried hyn.

Hefyd cadarnhaodd y pwyllgor nifer o gwynion ynghylch gwallau golygyddol o ran newyddiaduraeth ar-lein y BBC. Er nad oedd y rhain yn achosion difrifol o dor-cydymffurfiad golygyddol, tynnwyd sylw at yr angen i dimau gwe gydnabod gwallau y mae defnyddwyr yn tynnu eu sylw atynt a'u cywiro'n brydlon. Gofynnodd y pwyllgor i'r Bwrdd Gweithredol annog timau gwe i ymateb yn fwy effeithiol i'r cwynion cychwynnol hyn er mwyn eu hatal rhag mynd ar eu hynt drwy'r broses cwynion.

Gall sicrhau uniondeb ac annibyniaeth olygyddol gyflwyno heriau penodol i wneuthurwyr rhaglenni'r BBC pan fyddant yn gweithio gyda phartneriaid allanol. Un o raglenni mwyaf llwyddiannus BBC One yn 2006 oedd *How Do You Solve a Problem Like Maria?* – cystadleuaeth dalent lle roedd gwylwyr yn helpu i ddewis seren ar gyfer cynhyrchiad West End masnachol o *The Sound of Music*. Ym mis Gorffennaf 2007 ystyriodd y pwyllgor gŵyn fod y rhaglen wedi torri canllawiau'r BBC. Cyfeiriodd y gŵyn at ymgysylltiad cynhyrchwyr sioe'r West End, Andrew Lloyd Webber a David Ian, â chynhyrchiad y BBC.

Wrth benderfynu peidio â chadarnhau'r gŵyn, nododd y pwyllgor gan mai dyma'r rhaglen gyntaf o'i math ei bod yn debygol o brofi'r canllawiau ac, o ystyried fformat y rhaglen, y byddai wedi bod yn amhosibl osgoi elfen o roi amlygrwydd i gynnyrch o ran sioe'r West End. Er i rai camgymeriadau gael eu gwneud ar y cychwyn, roedd y tîm cynhyrchu wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hwy ac roedd yn briodol gadael i raglenni arloesol wneud iawn am eu camgymeriadau i ryw raddau.

Cafodd y pwyllgor adroddiadau gan y Bwrdd Gweithredol ar yr achosion hynny o dorri'r canllawiau y mae'r Bwrdd Gweithredol ei hun wedi'u cydnabod. Mae hyn yn galluogi'r pwyllgor i benderfynu a oes angen cymryd rhagor o gamau. Y llynedd soniodd y Bwrdd Gweithredol am achosion o dorri'r canllawiau sy'n ymwneud â natur ddiduedd a chywirdeb mewn dwy raglen o *Newsnight* a ddarlledwyd ym mis Ionawr a mis Mehefin 2007 ac o ganlyniad gofynnodd y pwyllgor am gael gweld canllawiau newydd ar arolygon, pleidleisiau ac arolygon anffurfiol, a chyhoeddodd ei ganfyddiadau ar yr achosion hyn.

Hefyd soniodd y Bwrdd Gweithredol am achos o dorri canllawiau ynghylch y defnydd o'r iaith fwyaf anweddus cyn y trothwy gwylio yn ystod cyngerdd *Live Earth* a ddarlledwyd ym mis Gorffennaf 2007. Roedd y pwyllgor yn pryderu, yn dilyn achosion tebyg o dor-cydymffurfiad golygyddol yn ystod cyngerdd *Live 8* yn 2005, fod Ofcom wedi nodi i'r BBC gynnig oedi darllediadau yn y dyfodol i atal achosion tebyg, ond nid oedd unrhyw oedi ar gyfer *Live Earth*. Penderfynodd y pwyllgor na fyddai unrhyw achosion pellach o'r fath yn dderbyniol. Nododd y pwyllgor hefyd nad oedd yr esboniad am beidio ag oedi darllediadau a roddwyd gan y Bwrdd Gweithredol ar y wefan cwynion yn cynnwys y manylion cywir, a gofynnodd am newidiadau.

Bu rhegi ar yr awyr yn ystod *Live Earth* hefyd yn destun cosb a gyhoeddwyd gan Ofcom yn erbyn y BBC ym mis Ebrill 2008. Fe'i gwnaed yn ofynnol i'r BBC gyhoeddi canfyddiad ar yr awyr. Cadarnhaodd Ofcom gyfanswm o 17 o gwynion ynghylch safon rhaglenni yn erbyn y BBC a chafodd tair arall eu datrys. Mewn un achos o'r fath, cosbodd Ofcom y BBC mewn perthynas

*Gall y BBC fforddio bod yn niwtral gan nad oes rhaid iddo ystyried sefydliadau masnachol.*



Aelod o r cyhoedd yn un o weithdai ymchwil y BBC.

57

Nifer yr apeliadau golygyddol y gwrandawyd arnynt gan yr Ymddiriedolaeth – cadarnhawyd dau ohonynt a chadarnhawyd saith ohonynt yn rhannol.

â chystadleuaeth ar *Blue Peter* ym mis Tachwedd 2006, lle cafodd y BBC ddirwy gan Ofcom am y tro cyntaf. Nododd y pwyllgor safonau golygyddol fod nifer o'r achosion yn ymwneud â thriniaeth deg a chydsynio, ac mae am i'r Bwrdd Gweithredol sicrhau bod gwneuthurwyr rhaglenni yn ymdrin â chyfranwyr mewn modd syml.

Yn 2008/09 bydd y pwyllgor yn parhau i graffu ar ymdrechion y Bwrdd Gweithredol i sicrhau cydymffurfiad golygyddol ei holl allbwn. Yn arbennig mae angen sicrhau bod y broses o guddio pwy yw pobl yn effeithiol mewn recordiadau dirgel. Hefyd mae'n rhaid i'r Bwrdd Gweithredol barhau i fonitro amlygrwydd ar draws holl allbwn teledu'r BBC i sicrhau annibyniaeth a natur ddiduedd olygyddol y BBC. Bydd y pwyllgor yn parhau i fonitro gwaith Bwrdd Rheoli Cwynion y Bwrdd Gweithredol. Mae gan y bwrdd hwn, a gadeirir gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan uwch reolwyr o bob is-adran rhaglenni, yr awdurdod i orchymyn newidiadau mewn meysydd rhaglenni a sefydlu mesurau cywirol i atal camgymeriadau rhag cael eu hailadrodd.

## CWYNION GOLYGYDDOL

Rhennir proses y BBC o ymdrin â chwynion golygyddol yn dri cham. Ar y cam cyntaf tîm y rhaglen neu BBC Gwybodaeth sy'n ymdrin â chwynion. Gall achwynwyr nad ydynt yn fodlon ar yr ymateb hwn ar Gam 1 gyflwyno eu cwyn naill ai i'r Uned Cwynion Golygyddol annibynnol neu uwch aelod o'r is-adran briodol yn y BBC. Gall achwynwyr nad ydynt yn fodlon ar y dyfarniad hwn ar Gam 2 apelio i'r pwyllgor safonau golygyddol, sy'n gwrando'r cwynion hynny sy'n briodol ac o sylwedd yn ei farn ef.

Cafodd y BBC 123,529 o gwynion Cam 1 yn 2007/08, a chyflawnwyd y targed o ymateb i 93% ohonynt o fewn 10 diwrnod. Roedd y pwyllgor safonau golygyddol yn falch o nodi'r gwelliant o 90% y llynedd.


Cafodd yr Uned Cwynion Golygyddol 270 o gwynion yn 2007/08, o gymharu â 187 yn 2006/07, a chadarnhaodd 47 o'r rhain yn llawn neu'n rhannol. Roedd y pwyllgor yn falch o nodi er gwaethaf y cynnydd mewn cwynion, i'r uned wella ei hamseroedd ymateb ac ymdrin â 74% o gwynion o fewn yr amser targed o gymharu â 42% y llynedd.

Gwrandawodd y pwyllgor ei hun 57 o apeliadau yn 2007/08, y cafodd dau eu cadarnhau a saith eu cadarnhau'n rhannol. Effeithiodd y cynnydd mewn apeliadau, yn ogystal â chymhlethdod y cwynion, ar amseroedd ymateb y pwyllgor ei hun. Mae'n ymddiheuro am hyn a bydd yn ceisio gwella ei berfformiad yn 2008/09. Mae'r pwyllgor bob amser wedi mesur yr amser mae'n ei gymryd i ystyried cwyn o'r dyddiad y caiff gais am apêl i'r dyddiad yr anfonir y canfyddiad i'r achwynydd. O dan y mesur hwn ymdriniodd y pwyllgor ag 16% o apeliadau o fewn ei amser ymateb targed o 16 wythnos. Fodd bynnag, mae cylch gorchwyl cyhoeddedig y pwyllgor yn cyfrifo amseroedd ymateb o'r dyddiad y mae'r pwyllgor yn cytuno i gymryd apêl i'r dyddiad mae'n ei gwrando ac yn penderfynu ar y mater. Nid yw'r mesur hwn o'r amser a gymerir i wrando cwynion yn ystyried y gwaith paratoi sy'n angenrheidiol i benderfynu a yw cwyn yn dod o dan gylch gwaith y pwyllgor yn ogystal â gweithdrefnau gweinyddol yn dilyn y gwrandawiad sydd ynghlwm wrth gyhoeddi'r canfyddiad. Ar sail hyn penderfynodd y pwyllgor safonau golygyddol ar 67% o apeliadau o fewn 16 wythnos.


## Gwella'r broses o ymdrin â chwynion

Yn ystod 2007/08 datblygodd y pwyllgor safonau golygyddol fframwaith cwynion newydd (gweler y blwch), a gyhoeddir ym mis Gorffennaf 2008. Bydd y pwyllgor yn monitro effeithiolrwydd y prosesau newydd, a gynllunnir i wneud y gwaith o ymdrin â chwynion yn fwy effeithlon a thryloyw.

### Nifer y cwynion golygyddol a gafwyd ar Gam 1




### Canfyddiadau apeliadau golygyddol a wrandawyd gan y pwyllgor safonau golygyddol




## Hyfforddiant

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolaeth bob blwyddyn ar sut mae ei drefniadau ar gyfer hyfforddi staff yn helpu i gyflawni'r pwrpasau cyhoeddus, yn ogystal â chyfrannu at y diwydiant darlledu ehangach. Croesawn y buddsoddiad a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i hyfforddi gweithlu medrus iawn, yn enwedig y gwaith o ganolbwyntio ar safonau golygyddol lle y credwn y gall y BBC chwarae rhan allweddol i gefnogi safonau drwy'r diwydiant. Mae'r adroddiad llawn, a sylwadau'r Ymddiriedolaeth, ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

*"Cred yr Ymddiriedolaeth y bydd y gwasanaeth hwn yn cynnig gwerth cyhoeddus ac y bydd yn arwyddocaol yn ddiwylliannol i siaradwyr Gaeleg ac i'r Alban yn gyffredinol."*

Jeremy Peat, Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros yr Alban, yn siarad pan gymeradwywyd y gwasanaeth digidol Gaeleg gan yr Ymddiriedolaeth. 28 Ionawr 2008.




Jeremy Peat, Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros yr Alban.

*Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd i ystyried effaith gystadleuol gweithgareddau'r BBC ar y farchnad ehangach.*

# Pŵer economaidd y BBC

Mae'r BBC yn chwarae rhan flaenllaw yn sector y cyfryngau yn y DU. Gwariodd £3.5 biliwn yn 2007/08 (£3.33 biliwn 2006/07), gan gynnwys £1.2 biliwn y tu allan i'r BBC ar gynyrchiadau annibynnol, artistiaid ac adnoddau rhaglenni eraill (£1.1 biliwn yn 2006/07). Mae'r BBC yn gwario mwy y tu allan i Lundain – gwariodd £994 miliwn yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn 2007/08 (£856 miliwn yn 2006/07). Gwyddom fod y cyhoedd yn gosod gwerth uchel ar yr amrywiaeth o ddewis sy'n deillio o farchnad ffyniannus y cyfryngau yn y DU ac mae'n amlwg bod buddiannau'r cyhoedd yn ymwneud â chynnal yr amrywiaeth hwn o ddewis.

Gall rhai o weithgareddau'r BBC greu gwerth cyhoeddus cadarnhaol, ond cael effaith negyddol rywle arall – er enghraifft ar ddarlledwyr masnachol neu gyflenwyr y cyfryngau. Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir lle ceir buddiannau cystadleuol, cynhaliwn brawf gwerth cyhoeddus cyn cytuno y gall y BBC ddechrau gwasanaeth newydd neu wneud newid sylweddol i wasanaeth sy'n bodoli eisoes. Mae'r prawf yn ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol ar y farchnad.

Mae'r BBC yn cyflawni rhai gweithgareddau ar sail fasnachol. Y nod yw creu refeniw i'w ailfuddsoddi yn y gwasanaethau cyhoeddus er budd y cyhoedd. Ni all gweithgarwch masnachol ddigwydd yn uniongyrchol o fewn Corfforaeth y BBC ond rhaid ei gynnal drwy is-gwmnïau masnachol. Mae'n ddyletswydd arnom fel Ymddiriedolwyr i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei weithgareddau masnachu masnachol yn deg ac atal y BBC rhag defnyddio ei bŵer economaidd mewn ffyrdd a allai rwystro mentergarwch o gyfeiriadau eraill. Gosodwn y fframwaith sy'n cymeradwyo ac yn goruchwylio gwasanaethau masnachol y BBC. Rhaid i wasanaethau masnachol y BBC fodloni pedwar maen prawf.

Rhaid iddynt:

- Gydweddu i weithgareddau pwrpasau cyhoeddus y BBC
- Dangos effeithlonrwydd masnachol
- Peidio â pheryglu enw da'r BBC na gwerth y BBC na gwerth brand y BBC
- Cydymffurfio â chanllawiau masnachu teg y BBC ac, yn arbennig, osgoi effeithio'n andwyol ar y farchnad

Er mai'r Ymddiriedolaeth sy'n gosod y fframwaith ac yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno adroddiadau yn ei erbyn, o dan y fframwaith Bwrdd BBC Worldwide (prif is-gwmni masnachol y BBC) neu'r Bwrdd Gweithredol sy'n gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau gweithredol. Mewn cyfran fach o achosion mae angen cymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cynigion am wasanaethau newydd. Ym mis Hydref 2007 cymeradwyodd yr Ymddiriedolaeth gynigion i lansio bbc.com, menter fasnachol i gynnig hysbysebu ar wefan ryngwladol y BBC i ddefnyddwyr o'r tu allan i'r DU a phroses BBC Worldwide o gaffael 75% ym musnes tywyslyfrau teithio Lonely Planet.

Rydym hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo polisi'r BBC ar fasnachu teg ac am ddwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif am gydymffurfio â'r polisi hwn. Lle y bo'n briodol gwrandawn apeliadau ar gwynion masnachu teg.

Mae pwyllgor gwerth cyhoeddus a masnachu teg yr Ymddiriedolaeth yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith hwn. Sefydlwyd y pwyllgor hwn ym mis Ionawr 2008 pan ddaeth yn gyfrifol am ddyletswyddau'r pwyllgor masnachu teg a'r grŵp llywio gwerth cyhoeddus blaenorol. Yn arbennig mae'r pwyllgor yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad â masnachu teg, gwrando apeliadau a chynnal profion gwerth cyhoeddus. Rhestrir aelodau'r pwyllgor hwn ar dudalen 48.

**GWASANAETHAU NEWYDD A GYMERADWYWYD GAN YR YMDDIRIEDOLAETH**

**Gwasanaethau manylder uwch**

Ym mis Tachwedd 2007 cymeradwywyd lansio sianel deledu manylder uwch y BBC. Mae'r sianel ar gael ar Freesat, a bydd yn cael ei lansio ar gebl a lloeren Sky cyn gynted â phosibl, ac ar Freeview cyn gynted ag y bydd hyn yn ymarferol.

Roeddem yn fodlon y byddai'r gwerth cyhoeddus a grëwyd gan y gwasanaeth newydd yn ddigon uchel ac nad oedd yn debygol y byddai unrhyw effaith negyddol ar y farchnad. Daethom i'r casgliad pan gaiff y gwasanaeth ei lansio ar Freeview y byddai'n well ceisio gwneud hyn ar y cyd â darlledwyr cyhoeddus eraill.

**Gwasanaeth digidol Gaeleg**

Ym mis Ionawr 2008 gwnaethom gymeradwyo lansio gwasanaeth digidol Gaeleg yn amodol. Bydd y gwasanaeth – partneriaeth rhwng y BBC a'r Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg – yn cael ei lansio'n ddiweddarach eleni ar gebl, lloeren a band eang ond nid ar Freeview eto. Daethom i'r casgliad y byddai'r gwasanaeth yn sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd, yn enwedig yn yr Alban, er i ni ofyn i'r gwasanaeth gynnwys mwy o elfen addysgol. Roedd yn rhy gynnar barnu a fyddai'r gwerth cyhoeddus a grëwyd yn cyfiawnhau ei ddarparu ar Freeview, o ystyried y gost a'r gynulleidfa bosibl.

Fodd bynnag, gwnawn gynnal arolwg o berfformiad cyn newid i ddigidol yn y prif ranbarthau lle siaredir Gaeleg yn yr Alban yn 2010/11. Bydd ei ddarparu ar Freeview yn un opsiwn a ystyriwn wedyn. Bydd yr arolwg yn ystyried a yw'r gwasanaeth yn darparu gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded ac o fudd i'r gynulleidfa darged yn y ffordd orau bosibl.

*Mae cyfundrefn masnachu teg y BBC yn cwmpasu holl weithgareddau masnachol y BBC.*



Diane Coyle, Ymddiriedolwr, yn gwrando ar alwadau i BBC Gwybodaeth, Belffast.

# 3

Nifer yr apeliadau masnachu teg a ddechreuwyd yn ystod 2007/08.

## GORUCHWYLIAETH YR YMDDIRIEDOLAETH O DREFNIADAU MASNACHU TEG

Mae cyfundrefn masnachu teg y BBC yn cwmpasu holl weithgareddau masnachu'r BBC a gynllunnir i sicrhau bod gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC yn cael eu cyflawni'n deg. Mae'r BBC yn cydnabod ei fod yn chwarae rhan unigryw ym marchnad y cyfryngau ac mae wedi dewis glynu wrth gyfyngiadau sy'n ychwanegol at y rhai a osodwyd arno gan gyfraith cystadleuaeth yn y DU ac Ewrop a chan gyfraith Ewropeaidd ar gymorth gwladol.

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth fabwysiadu datganiad polisi ar fasnachu teg a dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif am gydymffurfio ag ef. Daeth Polisi Masnachu Teg a Chodau Effaith Gystadleuol Ymddiriedolaeth y BBC i rym ar 1 Gorffennaf 2007.

Cyn 1 Gorffennaf 2007 roedd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu o dan reolau'r gyfundrefn masnachu teg flaenorol. Ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, cydymffurfiodd y BBC â'i Ymrwymiad Masnachu Teg cyhoeddedig ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2007 a 30 Mehefin 2007 ac â gofynion Polisi Masnachu Teg a Chodau Effaith Gystadleuol Ymddiriedolaeth y BBC a Chanllawiau Masnachu Teg Rheolwyr y BBC ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2007 a 31 Mawrth 2008.

Y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am gydymffurfiad masnachu teg y BBC o ddydd i ddydd ac am ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â masnachu teg drwy ei bwyllgor cydymffurfio â masnachu teg.

Pwyllgor gwerth cyhoeddus a masnachu teg yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiad â masnachu teg ac am ymdrin ag apeliadau masnachu teg. Dechreuodd ei waith ym mis Ionawr 2008 gan olynu pwyllgor polisi ac apeliadau masnachu teg yr Ymddiriedolaeth, a oedd yn ymdrin â'r materion hyn yn flaenorol. Rhestrir aelodau'r ddau bwyllgor ar dudalen 48.

Cred yr Ymddiriedolaeth fod Ymrwymiad Masnachu Teg y BBC, Polisi Masnachu Teg â Chodau Effaith Gystadleuol y BBC a Chanllawiau Masnachu Teg Rheolwyr y BBC yn gyson â gofynion y Siarter a'r Cytundeb. Drwy waith ei phwyllgor, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael sicrwydd rhesymol bod rheolaethau a gweithdrefnau a gynlluniwyd i sicrhau bod y polisïau hyn yn cael eu cymhwyso drwy'r BBC wedi bod yn gweithredu'n effeithiol drwy gydol y flwyddyn. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu'r polisïau yng nghyd-destun marchnad ddynamig y cyfryngau. Yn Rhan Dau mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn sôn am ei fesurau ei hun i sicrhau cydymffurfiad.

Yn 2007, ystyriodd yr Ymddiriedolaeth un apêl ac fe'i cadarnhaodd yn rhannol. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n ystyried tair apêl masnachu teg – gan eu bod yn mynd rhagddynt ni allwn adrodd ar eu canfyddiadau. Cyhoeddir canfyddiadau pob apêl ar ein gwefan.

Caiff yr Ymddiriedolaeth ei chynghori gan archwilwyr a chynghorwyr annibynnol ym maes masnachu teg. Mae'r archwilwyr annibynnol yn cynnal archwiliad masnachu teg blynyddol i benderfynu a yw'r BBC wedi sefydlu a chymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â'r Ymrwymiad Masnachu Teg cyhoeddedig rhwng 1 Ebrill 2007 a 30 Mehefin 2007 ac â gofynion ei Bolisi Masnachu Teg, Codau Effaith Gystadleuol a'r Canllawiau Masnachu Teg ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2007 a 31 Mawrth 2008. Mae'r archwiliad yn cynnwys rhaglen eang o arolygon, profion a gwerthusiadau ar draws holl is-adrannau'r BBC.

## ADRODDIAD YR ARCHWILWYR MASNACHU TEG ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2008

Rydym wedi archwilio, yn ein rôl fel Archwilwyr Masnachu Teg y BBC, y system o reolaethau mewnol a sefydlwyd o fewn y BBC i roi sicrwydd rhesymol i Ymddiriedolaeth y BBC fod y BBC wedi cydymffurfio â'i Ymrwymiad Masnachu Teg cyhoeddedig rhwng 1 Ebrill 2007 a 30 Mehefin 2007 ac â gofynion ei Bolisi Masnachu Teg, Codau Effaith Gystadleuol a'r Canllawiau Masnachu Teg rhwng 1 Gorffennaf 2007 a 31 Mawrth 2008 (y trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008).

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr archwiliad hwn, gan gynnwys cwmpas y gwaith i'w wneud, gyda phwyllgor polisi ac apeliadau masnachu teg Ymddiriedolaeth y BBC a gafodd ei ddisodli gan bwyllgor gwerth cyhoeddus a masnachu teg Ymddiriedolaeth y BBC ym mis Ionawr 2008. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylid cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Ymgysylltiadau Sicrwydd (ISAE) 3000, cytundeb ar derfyn ein hatebolrwydd mewn perthynas â'r gwaith hwn a chytundeb mai ar gyfer Ymddiriedolaeth y BBC, fel corff, yn unig y mae ein dyletswydd gofal mewn perthynas â'r gwaith hwn. Rydym yn fodlon bod y cwmpas y cytunwyd arno ar gyfer ein harchwiliad yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

### Priod gyfrifoldebau Ymddiriedolaeth y BBC, rheolwyr ac archwilwyr

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn bodloni holl ofynion deddfau cystadleuaeth a'i fod yn masnachu'n deg. Mae hefyd yn gyfrifol am baratoi'r adran yn Adroddiad Blynyddol y BBC o'r enw 'Goruchwyliaeth y BBC o drefniadau masnachu teg' sy'n cynnwys datganiad ar fasnachu teg.

*Mae barn yr archwilwyr ar system y BBC o ran rheolaethau masnachu teg yn ddiamod.*



Aelodau o r cyhoedd yn un o weithdai ymchwil Ymddiriedolaeth y BBC.

*Mae archwilwyr allanol yn rhoi barn ar b'un a yw'r BBC wedi sefydlu a chymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gyfundrefn masnachu teg.*

Mae rheolwyr y BBC, drwy Ymddiriedolaeth y BBC, yn gyfrifol am sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol a gynlluniwyd i sicrhau cydymffurfiad â threfniadau Masnachu Teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 gan gynnwys nodi ac asesu risgiau a allai fygwth masnachu teg a chynllunio a gweithredu ymatebion i'r fath risgiau.

Fel Archwilwyr Masnachu Teg y BBC, ein cyfrifoldeb ni yw llunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, o ran y graddau y mae'r BBC wedi sefydlu, ac wedi cymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008. Dim ond i'r graddau yr oedd angen gwneud hynny er mwyn llunio barn ar gymhwyso'r system o reolaethau mewnol yr adolygwyd penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC ar faterion masnachu teg. Ni chynlluniwyd ein harchwiliad i fynegi barn ar ansawdd y penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC o ran masnachu teg. Rydym hefyd wedi adolygu a yw datganiad Ymddiriedolaeth y BBC ar fasnachu teg yn adlewyrchu ein canfyddiadau o gydymffurfiad y BBC â'i system o reolaethau mewnol, a nodwn os nad yw'n gwneud hynny.

Paratowyd ein barn i Ymddiriedolaeth y BBC, fel corff, yn unig, yn unol â'n cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt gydag Uned yr Ymddiriedolaeth o fewn y BBC ar ran pwyllgor polisi ac apeliadau masnachu teg Ymddiriedolaeth y BBC (a gafodd ei ddisodli gan bwyllgor gwerth cyhoeddus a masnachu teg Ymddiriedolaeth y BBC ym mis Ionawr 2008). Drwy roi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb at unrhyw ddiben arall nac i unrhyw unigolyn arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y daw i'w ran, ac ni chaiff unrhyw unigolyn arall ddibynnu ar ein barn, heblaw lle y cytunwyd ar hynny'n benodol drwy gyfrwng caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gennym.

**Ein dull o weithredu**

Rydym wedi mynd ati i gyflawni ymgysylltiad sicrwydd rhesymol fel y diffinnir yn ISAE 3000. Amcan ymgysylltiad sicrwydd rhesymol yw cyflawni'r fath weithdrefnau sy'n ein galluogi i gasglu gwybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn rhoi digon o dystiolaeth briodol i ni i ddod i gasgliad cadarnhaol ar gydymffurfiad y BBC â'i drefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008.

Roedd ein gwaith yn cynnwys ymholiadau a phrofion i'n galluogi i lunio barn ynghylch a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Adolygwyd y gwaith o brosesu sampl o drafodion perthnasol gennym hefyd er mwyn cael sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau mewnol wedi'i chymhwyso.

**Cyfyngiadau cynhenid**

Fel gydag unrhyw system o reolaeth, nid yw'n ymarferol sicrhau na fu unrhyw wallau neu afreoleidd-dra nas canfuwyd. Nod ein gwaith archwilio oedd rhoi sicrwydd rhesymol i Ymddiriedolaeth y BBC ond nid sicrwydd llwyr o ran digonolrwydd y system o reolaethau mewnol a oedd ar waith ac yn cael ei chymhwyso er mwyn sicrhau cydymffurfiad â gofynion ei threfniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008. At hynny, gan fod materion Masnachu Teg yn gofyn am farnau a allai gael eu profi mewn llys barn, awdurdod cystadlu neu mewn man arall yn y pen draw, mae risg bob amser y cyflwynir her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol ac y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal pennaf.

**Barn**

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein gweithdrefnau, yn ein barn ni mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion ei drefniadau Masnachu Teg, ymhob ffordd berthnasol, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008.

**Pwysleisio'r mater – Newid i gyfundrefn masnachu teg newydd**

Tynnwn sylw at yr adran yn Adroddiad Blynyddol y BBC o'r enw'r 'Datganiad Gweithredol ar Fasnachu Teg' sy'n egluro i gyfundrefn Masnachu Teg ddiwygiedig ddod i rym ar 1 Gorffennaf 2007 ac i'r BBC, rhwng 1 Gorffennaf a 31 Mawrth 2008, gymhwyso cyfuniad o hen weithdrefnau a gweithdrefnau newydd yn hytrach na gweithredu'r gyfundrefn ddiwygiedig ar 1 Gorffennaf 2007. Ar ôl adolygu'r mater, mae'r BBC yn fodlon i'r trywydd a ddilynwyd fod yn effeithiol i sicrhau bod ei rwymedigaethau Masnachu Teg wedi'u cyflawni ar gyfer y cyfnod hwn o newid. Nid yw ein barn yn amodol o ran y materion hyn.

**PricewaterhouseCoopers LLP**
Cyfrifwyr Siartredig
19 Mehefin 2008

*Mae Ymddiriedolaeth lawn y BBC yn cwrdd yn ffurfiol unwaith y mis fel arfer a chyhoeddir cofnodion y cyfarfodydd hyn ar ein gwefan.*



Cyfarfod yr Ymddiriedolwyr Mai 2007, Siambr y Cyngor, Broadcasting House, Llundain.

*Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud llawer o'i gwaith drwy nifer o bwyllgorau sy'n atebol i'r Ymddiriedolaeth lawn.*

# Gwybodaeth reoleiddiol arall

Mae'r Ymddiriedolaeth lawn fel arfer yn cwrdd bob mis ond gwnawn gryn dipyn o'n gwaith mewn pwyllgorau bach o Ymddiriedolwyr sy'n adrodd yn ôl i'r Ymddiriedolaeth lawn. Mae gan y pwyllgorau hyn bwerau gwneud penderfyniadau. Dangosir aelodau'r pwyllgorau, eu cadeiryddion a'u presenoldeb yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod.

**PRESENOLDEB YMDDIRIEDOLWYR MEWN CYFARFODYDD**

1 Ebrill 2007 i 31 Mawrth 2008

| | Ymddiried-olaeth | Pwyllgor Safonau Golygyddol | Pwyllgor Cyllid a Strategaeth | Pwyllgor Cydnabydd-iaeth a Phenodiadau | Pwyllgor Cynulleidfa-oedd a Pherfform-iad | Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa | Pwyllgor Gwerth Cyhoeddus a Masnachu Teg | Grŵp Llywio'r Prawf Gwerth Cyhoeddus[3] | Pwyllgor Polisi ac Apeliadau Masnachu Teg[3] | Cynghorau Cynulleidfa'r Gwledydd† |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfarfodydd | 14 | 14 | 13 | 3 | 8 | 3 | 3 | 8 | 4 | |
| **Cadeirydd** | | | | | | | | | | |
| Syr Michael Lyons[1] | 12/12 | | | 3/3 | | | | | | |
| **Is-Gadeirydd** | | | | | | | | | | |
| Chitra Bharucha | 13/14 | 11/14 | | 3/3[2] | 7/8[4] | 3/3[2] | | | | |
| **Ymddiriedolwyr Cenedlaethol** | | | | | | | | | | |
| Alison Hastings (Lloegr) | 12/14 | 2/3 | | | 6/8 | 3/3 | | 6/8 | | 6/6[2] |
| Rotha Johnston (Gogledd Iwerddon) | 13/14 | | 12/13 | | | 3/3[5] | 3/3 | | 4/4 | 10/10[2] |
| Janet Lewis-Jones (Cymru) | 14/14 | | 13/13 | 3/3 | | 3/3 | | | | 10/10[2] |
| Jeremy Peat (Yr Alban) | 13/14 | | 13/13 | | | 3/3 | 3/3 | 7/8 | 4/4 | 11/11[2] |
| **Ymddiriedolwyr** | | | | | | | | | | |
| Diane Coyle | 13/14 | 10/11 | | | | | 3/3[2] | 8/8 | 3/4 | |
| Dermot Gleeson | 13/14 | | 13/13[1] | 2/3 | 7/8 | | | | | |
| Y Fonesig Patricia Hodgson | 14/14 | | 13/13 | | 6/6 | | 3/3 | 8/8 | | |
| David Liddiment | 14/14 | 14/14 | | | 8/8[2] | | | | | |
| Mehmuda Mian Pritchard | 11/14 | 11/14 | | | 4/4 | | | | 2/4 | |
| Richard Tait | 13/14 | 14/14[2] | | | | | 3/3 | 4/8 | | |

*1 Penodwyd 1 Mai 2007.*

*2 Cadeirydd pwyllgor.*

*3 Ym mis Ionawr 2008 disodlwyd y Pwyllgor Polisi ac Apeliadau Masnachu Teg (cadeirydd: Jeremy Peat) a Grŵp Llywio'r Prawf Gwerth Cyhoeddus (cadeirydd: Diane Coyle) gan y Pwyllgor Gwerth Cyhoeddus a Masnachu Teg.*

*4 Chitra Bharucha oedd y cadeirydd tan fis Ebrill 2008.*

*5 Rotha Johnston oedd y cadeirydd tan fis Mai 2008.*

*† Nid yw Cynghorau Cynulleidfa'r Gwledydd yn bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth ond yn hytrach maent yn gyrff ymgynghorol a gyfansoddwyd ar wahân, ac a gadeirir gan y priod Ymddiriedolwr Cenedlaethol.*

*"Mae'r Ymddiriedolaeth am sicrhau bod cwynion yn dod i law drwy system sy'n agored i bawb, sy'n gyson o ran ei thegwch i bawb, ac sy'n syml i'w dilyn."*

Chitra Bharucha, wrth lansio ymgynghoriad Ymddiriedolaeth y BBC ar gwynion, 29 Hydref 2007.



Pobl ifanc yn mynegi barn ar y BBC i r ymddiriedolwyr ym Melffast.

*O dan y system gwyno newydd bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried ystod lawer ehangach o gwynion sy'n destun apeliadau nag o'r blaen.*

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLAETH O RAN YR ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon gael eu paratoi a'u harchwilio. Manylir ar gyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol yn ei ddatganiad o gyfrifoldebau ar dudalen 95 o Ran Dau o'r Adroddiad Blynyddol hwn. Yn gryno, mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a'r datganiadau o gydymffurfiad â chodau llywodraethu corfforaethol cymwys a rheoliadau yn ymwneud â chydnabyddiaeth, gan gyflwyno'r rhain i'r Ymddiriedolaeth yn Rhan 2 o'r Adroddiad Blynyddol.

Wrth baratoi ei ddatgeliadau cysylltiedig sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol mae'r Bwrdd Gweithredol wedi dewis cydymffurfio â Chod Cyfunol 2003 y Cyngor Adroddiadau Ariannol a darpariaethau datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a, lle y bo'n gymwys, Reolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol sy'n gymwys i gwmni a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.

Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion hynny mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol hefyd gynnwys datgeliadau ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn ogystal â rhai'r Bwrdd Gweithredol. Caiff y datgeliadau hyn, a archwilir, eu cynnwys yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a chyfrifoldeb yr Ymddiriedolaeth ydynt.

Yn ogystal, mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth baratoi datganiad o'i gwariant a'i chynnwys yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol.

## DATGANIAD O DDATGELU GWYBODAETH I ARCHWILWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr a oedd yn dal swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol am ddatgeliadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, datgeliadau cydnabyddiaeth na datganiad yr Ymddiriedolaeth o wariant nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob Ymddiriedolwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd fel Ymddiriedolwr i'w wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan yr Ymddiriedolaeth ar 19 Mehefin 2008.

## FFRAMWAITH CWYNION

Rhaid i BBC agored a theg ymateb yn effeithiol ac yn gyfiawn i gwynion, ac mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth osod a chyhoeddi fframwaith a gweithdrefnau sy'n nodi sut y gwnaiff y BBC hyn.

Yn ystod 2007/08 mabwysiadwyd fframwaith cwynion newydd. Mae'n nodi proses gwyno gyffredinol, yn ogystal â gweithdrefnau penodol ar gyfer cwynion ynghylch materion golygyddol, ffi'r drwydded a masnachu teg, yn ogystal ag ar gyfer cwynion ynghylch Cynllun Cymorth i Newid i Ddigidol. Ceir proses hefyd ar gyfer cwynion yn erbyn yr Ymddiriedolaeth.

Cyn mabwysiadu'r fframwaith newydd ymgynghorwyd â'r cyhoedd ac o ganlyniad gwnaed nifer o newidiadau i'n cynigion gwreiddiol.

Bydd y system newydd yn golygu y gellir cynnal apeliadau i'r Ymddiriedolaeth yn gyflymach ac, am y tro cyntaf, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried apeliadau ynghylch casglu ffi'r drwydded. Ar y cyfan bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried ystod lawer ehangach o gwynion sy'n destun apeliadau nag yn y gorffennol. Bydd hyn yn cryfhau ein gallu i sicrhau bod y BBC yn ymateb yn effeithiol i gwynion.

# Cynlluniau'r Ymddiriedolaeth 2008/09

## Gwneud i'r Ymddiriedolaeth weithio'n well i gynulleidfaoedd

Rydym am i bob rhan o'r BBC fod yn fwy ymatebol i anghenion cynulleidfaoedd, ac mae hyn yn gymwys i'r Ymddiriedolaeth ei hun. Rydym am fod yn agored ac yn dryloyw ymhob peth a wnawn. Ar ein gwefan nodwn yr hyn a wnawn a pham. Ymgynghorwn â chynulleidfaoedd yn rheolaidd – ac rydym wedi ystyried sylwadau bod yr iaith a ddefnyddiwn yn ein hymgynghoriadau yn rhy dechnegol ar adegau. Ceisiwn wneud yn well yn y dyfodol. Bwriadwn hysbysu cynulleidfaoedd a chyfranddeiliaid eraill yn well drwy greu rhestr bostio electronig. Ac mae gennym brosiect ar y gweill hefyd i sicrhau ein bod yn defnyddio'r gwaith a wneir gan Gynghorau Cynulleidfa'r Ymddiriedolaeth yn y ffordd orau.

Mae'n bwysig bod yr Ymddiriedolaeth ac Uned yr Ymddiriedolaeth sy'n cefnogi ein gwaith yn effeithiol ac yn effeithlon. Adolygwn berfformiad y Bwrdd bob blwyddyn a byddwn yn adolygu gweithrediadau Uned yr Ymddiriedolaeth i sicrhau ei bod yn cyflawni gwerth am arian.

## Bod yn agored ac yn dryloyw

Yn ein blwyddyn lawn gyntaf fel Ymddiriedolwyr rydym wedi sefydlu systemau agored a thryloyw; wedi pennu cyfeiriad strategol y BBC dros y chwe blynedd nesaf; wedi gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i wneud iawn am rai methiannau golygyddol difrifol; ac wedi cynnal profion gwerth cyhoeddus cyn cytuno ar rai gwasanaethau newydd, gan gynnwys BBC iPlayer, sianel deledu manylder uwch, a'r gwasanaeth digidol Gaeleg newydd.

Rydym wedi gosod cynulleidfaoedd wrth wraidd popeth a wnawn – er enghraifft, drwy ymgynghori â'r cyhoedd cyn cyhoeddi'r cylchoedd gwaith pwrpas terfynol sy'n rhoi cyfeiriad strategol i'r Bwrdd Gweithredol. Rydym hefyd wedi cytuno ar raglen effeithlonrwydd fanwl gywir gyda'r Bwrdd Gweithredol i sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn cael gwerth da am eu harian.

Yn y flwyddyn i ddod byddwn yn parhau â'n hymdrechion i helpu'r BBC i gyflawni ansawdd uchel, effeithlonrwydd, gwerth am arian a bod yn nodedig. Mae'r tabl gyferbyn yn rhoi rhai penawdau ar gyfer yr hyn a wnaed gennym y llynedd. Mae hefyd yn dangos ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod – y gwnaethom ymgynghori â'r cyhoedd yn eu cylch. Byddwn yn nodi sut y gwnaethom berfformio yn erbyn y cynlluniau hyn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

## Gwarchod ffi'r drwydded

## Cynnal buddiannau talwyr ffi'r drwydded

## Hyrwyddo pwrpasau cyhoeddus y BBC yn effeithiol

# Rôl yr Ymddiriedolaeth

Sicrhau bod incwm ffi'r drwydded yn cael ei wario mewn ffyrdd sy'n bodloni disgwyliadau cynulleidfaoedd ac yn cyflawni gwerth am arian.

Sicrhau bod y BBC yn gweithio er budd y cyhoedd mewn ffordd mor effeithiol â phosibl a'i fod mor ymatebol â phosibl i anghenion cynulleidfaoedd.

Sicrhau mai nod cyffredinol y BBC yw hyrwyddo'r chwe phwrpas cyhoeddus a roddwyd i'r BBC gan y Senedd.

# Blaenoriaethau a chanlyniadau 2007/08

### AILFLAENORIAETHU

Ad-drefnodd y Bwrdd Gweithredol ei gyllidebau yn dilyn setliad ffi'r drwydded a lluniodd gynllun strategol chwe blynedd newydd o'r enw 'Dyfodol Creadigol'. Arweiniwyd y gwaith ailflaenoriaethu hwn gennym a gwnaethom yn siŵr bod y cynllun newydd yn bodloni disgwyliadau ac yn cyflawni blaenoriaethau talwyr ffi'r drwydded.

### PROFION GWERTH CYHOEDDUS

Cynhaliwyd dau brawf gwerth cyhoeddus gennym (gweler tudalen 45). Mae'r rhain yn ein helpu i sicrhau pan fydd y BBC yn bwrw ati i gyflawni gweithgarwch newydd, y rhoddir ystyriaeth briodol i'r gwerth posibl i dalwyr ffi'r drwydded ac effeithiau ar gyfranogwyr eraill yn y farchnad.

### YMGYSYLLTU Â CHYNULLEIDFAOEDD

Cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth gennym i ganfod sut mae'r cyhoedd am i ni ymgysylltu ag ef (gweler tudalen 34). Bydd hyn yn ein helpu i'w gwneud mor hawdd â phosibl i gynulleidfaoedd ein hysbysu o'u barn am faterion allweddol y BBC.

### FFRAMWAITH CWYNION

Mae'n bwysig bod unrhyw un sy'n anhapus ag unrhyw beth mae'r BBC yn ei wneud yn gallu cwyno amdano'n hawdd – a bod yn siŵr y cymerir y gŵyn o ddifrif ac yr ymdrinnir â hi yn amserol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gennym ar fframwaith newydd ar gyfer ymdrin â chwynion a byddwn yn ei roi ar waith yn 2008.

### CYLCHOEDD GWAITH PWRPAS

Mae cylchoedd gwaith pwrpas yn nodi sut y disgwyliwn i'r BBC gyflawni ei holl bwrpasau cyhoeddus. Cyn cyhoeddi ein fersiynau terfynol o'r cylchoedd gwaith yn 2007/08 ymgynghorwyd â'r cyhoedd ac ystyriwyd ei farn.

### TRWYDDEDAU GWASANAETH

Mae trwyddedau gwasanaeth yn nodi'r hyn a ddisgwyliwn gan holl wasanaethau'r BBC a sut y disgwyliwn iddynt gyfrannu at gyflawni'r Pwrpasau Cyhoeddus. Cyn i ni gyhoeddi'r fersiynau terfynol yn 2007/08 ymgynghorwyd â'r cyhoedd ac ystyriwyd ei farn.

### AROLYGON O WASANAETHAU

Adolygwn holl wasanaethau'r BBC o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Yn 2007/08 cynhaliwyd arolwg o bbc.co.uk

# Blaenoriaethau 2008/09

Comisiynwyd pedair astudiaeth gwerth am arian gennym (gweler tudalen 30) ac arolwg o rôl y BBC yn y farchnad dalent. Mae'r rhain yn ein helpu i sicrhau bod y BBC yn rhoi'r gwerth mwyaf posibl i'w gynulleidfaoedd.

### ASTUDIAETHAU GWERTH AM ARIAN

Byddwn yn ystyried:

- Costau cynhyrchu ym maes radio i sicrhau y cyflawnir y gwerth gorau am y £550 miliwn a warir bob blwyddyn
- Rheoli contractau strategol i sicrhau bod y BBC yn gwneud yn siŵr bod y rhai sy'n gyfrifol am werth £800 miliwn y flwyddyn o gostau cymorth a osodir ar gontract yn cydweithio'n effeithiol
- Rheoli asedau i sicrhau bod y BBC yn defnyddio ei brif adnoddau stiwdio a chludiant ledled y DU yn y ffordd fwyaf effeithiol

Byddwn hefyd yn monitro hynt y broses o newid i ddigidol a'r cynllun cymorth wedi'i dargedu, ac yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gasglu ffi'r drwydded.

### SAFONAU GOLYGYDDOL A NATUR DDIDUEDD

Yn dilyn y methiannau golygyddol yn 2007 comisiynwyd arolwg o gamau gweithredu'r rheolwyr i ddatrys y sefyllfa. Byddwn yn cyhoeddi'r arolwg hwn yn ddiweddarach yn 2008. Hefyd byddwn yn cyhoeddi arolwg o natur ddiduedd darllediadau newyddion rhwydwaith o'r gwledydd.

### AROLWG O GYFLENWADAU RHWYDWAITH

Mae arolwg o gyflenwadau rhwydwaith – yn ystyried faint o gynnwys mae'r BBC yn ei gynhyrchu ymhob gwlad a rhanbarth wedi cychwyn a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi yn 2008. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canlyniadau ein harolwg o werth economaidd y BBC i'r DU.

### AROLWG O'R 'WINDOW OF CREATIVE COMPETITION'

Cafodd y gystadleuaeth ei chreu i sicrhau bod mwy o gomisiynau rhaglenni'r BBC yn agored i gynhyrchwyr annibynnol. Byddwn yn cyhoeddi arolwg o'i heffeithiolrwydd. Byddwn hefyd yn comisiynu arolygon o gomisiynau radio ac ar-lein ynghyd â strategaeth ffilm y BBC.

Yn 2007 ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynghylch pa mor dda roedd y BBC yn perfformio yn erbyn ei bwrpasau cyhoeddus. Datgelodd hyn fylchau mewn perfformiad, yn enwedig o ran darparu rhaglenni a chynnwys nodedig. Rydym wedi herio'r Bwrdd Gweithredol i gau'r bylchau hyn a bydd monitro ei berfformiad yn y maes hwn yn brif ffocws i'n gwaith yn y blynyddoedd i ddod.

### AROLYGON O WASANAETHAU

Bydd ein harolygon o wasanaethau yn 2008/09 yn ystyried gwasanaethau radio, teledu ac ar-lein y BBC i blant a phobl ifanc.

# Cysylltu ag Ymddiriedolaeth y BBC

Mae'r BBC yn croesawu sylwadau neu ymholiadau am unrhyw agwedd ar ei weithrediadau.

### Ymddiriedolaeth y BBC

Dylid anfon unrhyw sylwadau neu gwestiynau sydd gennych am waith yr Ymddiriedolaeth yn uniongyrchol at:
BBC Trust Unit
Room 211
35 Marylebone High Street
London WIU 4AA
Ffôn: Llinell BBC Gwybodaeth
0870 010 3100*
Ffôn testun: 03700 103 100*
(Llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 5.30pm)
E-bost: trust.enquiries@bbc.co.uk

### Cwynion am raglenni a chwynion golygyddol

Os byddwch o'r farn bod un o raglenni neu wefannau'r BBC wedi methu â chyrraedd safonau golygyddol y BBC dylech gysylltu â:
BBC Complaints
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT
Ffôn: 03700 100 222
Ffôn testun: 08700 100 212
Gwefan: bbc.co.uk/complaints

### Gweithrediadau'r BBC

Adran berthnasol y BBC sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin â sylwadau neu ymholiadau am weithrediadau'r BBC. Cysylltwch â:
BBC Information
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT
Ffôn: 08700 100 222*
(24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos)
Ffôn testun: 08700 100 212
Ffacs: 0141 307 5770
Gwefan: bbc.co.uk/info

** Efallai y caiff galwadau i'r rhif hwn eu monitro neu eu recordio at ddibenion hyfforddi.*

### Cynghorau Cynulleidfa'r BBC

Mae'r Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn helpu Ymddiriedolaeth y BBC i ddeall anghenion, buddiannau a phryderon cynulleidfaoedd ledled y DU, ac i nodi ffyrdd y gall y BBC wasanaethu ei gynulleidfaoedd yn well. Os hoffech gysylltu â'r Cynghorau Cynulleidfa gallwch ysgrifennu atynt yn y cyfeiriadau isod:

Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru
Cyngor Cynulleidfa'r BBC yng Nghymru
Ystafell E5108
Y Ganolfan Ddarlledu
Llandaf
Caerdydd CF5 2YQ

Head of Governance and Accountability Scotland
BBC Audience Council Scotland
Zone G.11
40 Pacific Quay
Glasgow G512 1DA

Head of Governance and Accountability Northern Ireland
BBC Audience Council Northern Ireland
BBC Broadcasting House
Ormeau Avenue
Belfast BT2 8HQ

Head of Governance and Accountability England
BBC Audience Council England
BBC Birmingham
The Mailbox
Birmingham B1 1RF

### Gwybodaeth arall

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ledled y DU ac ar wefan Ymddiriedolwyr y BBC yn bbctrust.co.uk. Mae hefyd ar gael yn Saesneg, mewn fersiwn sain ac mewn Braille. Cyhoeddir Arolygon Blynyddol ar gyfer BBC Cymru, BBC Scotland, BBC Northern Ireland, BBC English Regions a BBC World Service hefyd.

Atgynhyrchwyd y lluniau canlynol drwy garedigrwydd:
Mike Abrahams a Murray Langton
Clawr blaen

Andrew Catterall
Tudalen 2 (Syr Michael Lyons)
Tudalen 12 (Ymddiriedolwyr y BBC)

Atgynhyrchwyd yr holl luniau eraill drwy garedigrwydd Ymddiriedolaeth y BBC

Papur
Argraffwyd ar Revive 100 Offset, papur wedi'i ailgylchu 100% ag achrediad yr FSC. Gwnaed y papur o wastraff ôl-ddefnyddiwr wedi'i ddad-incio 100%. Gwneir yr holl fwydion gan ddefnyddio dulliau Elfennol Di-glorin (ECF) ac achredwyd y felin weithgynhyrchu â'r safon ISO 14001 ar gyfer rheolaeth amgylcheddol.

Argraffu
Argraffwyd gan Royle Print. Gwneir yr inciau argraffu gydag olew llysieuol nad yw'n beryglus a wnaed o ffynonellau adnewyddadwy. Caiff dros 90% o'r toddyddion a'r datblygwyr eu hailgylchu i'w defnyddio eto ac mae cynlluniau ailgylchu ar waith ar gyfer yr holl wastraff arall sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad hwn. Mae gan Royle Print ardystiad FSC ac ISO 14001 ac mae gweithdrefnau llym ar waith i warchod yr amgylchedd drwy gydol yr holl brosesau.

**CarbonNeutral**® printing company

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Sheppard Day Corporate (rhan o Grŵp **35**)

Cyfieithwyd gan Wasanaeth Cyfieithu Prysg

FSC
**Recycled**
Supporting responsible use of forest resources

Cert no. TT-COC 002228
www.fsc.org
© 1996 Forest Stewardship Council

Mae'n ofynnol i'r BBC o dan delerau ei Siarter lunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon mewn dwy ran. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn paratoi'r rhan gyntaf a Bwrdd Gweithredol y BBC yn paratoi'r ail ran gan adlewyrchu swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol y ddau gorff. Gyda'i gilydd mae'r ddwy ran yn ffurfio arolwg ac asesiad y BBC o'i flwyddyn.






British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA
bbc.co.uk
(h) BBC 2008